Dogfen ir Cyhoedd

# GŴYS A RHAGLEN

**ar gyfer**

**CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN**

**ar**

**DDYDD IAU, 26 MEDI, 2024**

**➔ am 2:00 o'r gloch yp ←**

# SUMMONS AND AGENDA

**for a**

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

**on**

**THURSDAY, 26 SEPTEMBER, 2024**

**➔ at 2:00 pm ←**

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

# R H A G L E N

## 1. CYFLWYNIAD GAN YMGEISYDD I GEFNOGI EU HENWEBIAD I FOD YN ARWEINYDD Y CYNGOR

Yn unol â Pharagraff 2.7.3.2 y Cyfansoddiad, ar ôl cyflwyno cyflwyniad ysgrifenedig (maniffesto) i'r Prif Weithredwr eisoes, 5 diwrnod gwaith cyn y Cyngor llawn (a gefnogwyd yn ysgrifenedig gan ddau Gynghorydd arall at y Prif Weithredwr), bydd yr ymgeisydd/ymgeiswyr canlynol yn rhoi cyflwyniad llafar ar eu gweledigaeth a'u gwerthoedd.

## 2. PENODI ARWEINYDD Y CYNGOR

Ethol Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn yn unol ag Erthygl 7, ac yn benodol y rheolau gweithdrefn sydd wedi eu cynnwys dan Baragraffau 2.7.3 o Gyfansoddiad y Cyngor.

## 3. DIRPRWY ARWEINYDD / ARWEINYDDION Y CYNGOR

Yr Arweinydd i hysbysu'r Cyngor o enw'r Dirprwy Arweinydd / Arweinyddion (bydd y Dirprwy Arweinydd / Arweinyddion yn Aelod / Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith.

## 4. AELODAETH O'R PWYLLGOR GWAITH

Yr Arweinydd i hysbysu'r Cyngor o enwau'r Cynghorwyr y mae wedi eu dewis i fod yn Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, ynghyd â'u cyfrifoldebau Portffolio.

## 5. COFNODION

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft o gyfarfodydd canlynol y Cyngor Sir:-

- 21 Mai 2024 (Cyfarfod Cyffredinol) (10:30am)
- 21 May 2024 (Cyfarfod Blynyddol) (2:00pm)

## 6. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem of fusnes.

## 7. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR

## 8. CYFLWYNO DEISEBAU

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

9. **ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2023/24**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 24 Medi 2024.

10. **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR AR EFFEITHIOLRWYDD Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2023/24**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

11. **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2023/24 - ADRODDIAD Y CADEIRYDD**

Cyflwyno adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel y'i cyflwynwyd 'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Mehefin 2024.

12. **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2023/24**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro.

13. **NEWID Y CYFANSODDIAD - CYNLLUN DIRPRWYO I SWYDDOGION**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 23 Gorffennaf 2024.

14. **NEWID Y CYFANSODDIAD – POLISI PRYDERON A CHWYNION A RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACTAU**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 24 Medi 2024.

15. **CYTUNDEB CYFLAWNI DRAFFT - CYNLLUN DATBLYGU LLEOL YNYS MÔN**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar 18 Gorffennaf 2024.

This page is intentionally left blank

16fed o Fedi 2024

Annwyl Prif Weithredwr ,

Yn dilyn ymddiswyddiad y cyn Gynghorydd Llinos Medi, ac yn unol a pharagraff 2.7.3.2.1 rydym yn enwebu'r Cynghorydd Gary Pritchard, Plaid Cymru fel Arweinydd y Cyngor o Fedi 2024 hyd at fis Mai 2027.

Cynnigydd – Cynghorydd Robin Williams

Eilydd – Cynghorydd Carwyn Elias Jones

**Maniffesto'r Grŵp**

Mae Grŵp Plaid Cymru yn ymfalchïo mewn aeddfedrwydd a sefydlogrwydd gwleidyddol ac rydym yn ymrwymo'n llawn i'r egwyddor hyn yn y cyfnod sydd yn weddill o'r weinyddiaeth hon.

Mewn cyfnod o newid Llywodraeth yn San Steffan ac o heriau ariannol i Awdurdod Lleol yng Nghymru a thu hwnt, ein nod yw sicrhau sefydlogrwydd a dilyniant er mwyn arwain awdurdod sy'n perfformio'n dda i'r cyhoedd, ein partneriaid a'n rheoleiddwyr.

Byddwn fel Grŵp yn parhau i sicrhau llais cryf i'r Awdurdod ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol ac er newid Arweinydd ni fydd ein blaenoriaethau na'n ymrwymiad i Gynllun y Cyngor yn newid.

**Addysg**

Mae sicrhau system Addysg sy'n addas i bwrpas yn flaenoriaeth gennym. Mae Plaid Cymru wedi ymrwymo i roi'r cyfleoedd gorau i blant, pobl ifanc a staff dysgu'r ynys drwy:

- Sicrhau adnoddau digonol i addysgu ein plant a'n pobl ifanc.
- Cydweithio gyda phartneriaid i gynnig cyfleoedd hyfforddi ac addysgu ôl 16.
- Sicrhau a hyrwyddo prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi drwy waith.

**Gofal, Iechyd a Lles**

Mae Plaid Cymru eisiau sicrhau gwasanaeth gofal sy'n gwasanaethu'r teulu cyfan pan mae angen gofal arnynt. Byddwn yn cefnogi'r cynlluniau sydd yn ein ymrwymo i ddod yn ynys sy'n wybodus o drawma ar draws pob elfen o wasanaethau'r Cyngor. Byddwn hefyd yn

- Cryfhau darpariaeth gofal dydd er mwyn rhoi ysbaid i ofalwyr di-dâl.

- Datblygu'r cynllun Gofal Ychwanegol yn ne'r ynys ac yn parhau i gefnogi cynlluniau gwella gofal dementia.
- Blaenoriaethu gwasanaeth cefnogaeth i deuluoedd trwy wasanaethau Teulu Môn.

**Economi**

Mae Plaid Cymru eisiau gweld mwy o gaffael lleol er mwyn cadw'r arian yn cylchdroi o fewn yr economi leol. Rydym, drwy'r Bwrdd Uchelgais yn sicrhau cyfleoedd i ddatblygu economi ar yr ynys. Mae Plaid Cymru eisiau sicrhau cynllun Arfor i'r dyfodol er bydd ein busnesau a'r Gymraeg. Rydym fel Grŵp eisiau

- Cydweithio er mwyn sicrhau buddion lleol o ganlyniad i ddatblygiadau ynni strategol tra'n lleihau a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol.
- Cefnogi sector lletygarwch a thwristiaeth wrth ddiogelu ein cymunedau a'n amgylchedd naturiol.
- Sicrhau bod cwmnïau lleol i Fôn a Chymru yn elwa o ddatblygiadau'r Cyngor ac o gynlluniau strategol Llywodraethau San Steffan a'r Senedd.

**Tai**

Mae Plaid Cymru o'r farn bod gan bawb yr hawl i gael galw rhywle yn gartref. Rydym yn ymrwymo i barhau i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn ymateb i'r her dai lleol drwy ddeddfau cynllunio a threthi. Bydd Plaid Cymru yn

- Parhau i ddatblygu Tai Cyngor a sicrhau cyflenwad o dai fforddiadwy i drigolion Ynys Môn drwy ddeiliadaeth rhent cyffredinol, rhent canolradd a pherchnogaeth cost isel.
- Gwella ansawdd ein stoc tai er mwyn sicrhau'r cartref o ansawdd gorau i'n tenantiaid.
- Defnyddio'r dreth premiwm ar ail dai a thai gwag er mwyn cefnogi prynnwyr tro cyntaf yr ynys a chreu cynlluniau arloesol er mwyn ymateb i'r her cynyddol am dai lleol.

**Hinsawdd**

Rydym eisiau blaenoriaethu'r gwaith datgarboneiddio ar draws y Cyngor. Bydd hyn yn digwydd drwy fuddsoddiad, cefnogi cynlluniau ynni a chydweithio gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd Plaid Cymru yn

- Parhau ar y daith o leihau allyriadau carbon o dir ag asedau'r Cyngor a newid sut rydym yn gweithio.
- Diogelu amgylchedd yr ynys drwy ofalu am ardaloedd gwyllt drwy gynllun bioamrywiaeth.
- Ystyried effaith newid hinsawdd a bioamrywiaeth o fewn penderfyniadau ar bob lefel o'r Cyngor

**Cymraeg**

Mae'r Gymraeg yn rhan anatod o'n hunaniaeth, ein treftadaeth a'n diwylliant ac yn greiddiol i bopeth rydym yn ei wneud fel Cyngor. Mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau fod yr iaith yn datblygu ac yn ffynnu. Mae Plaid Cymru am weld cynnydd yn y niferoedd sydd yn siarad yr iaith ar yr ynys a chynnydd yn y nifer sydd yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd. Byddwn yn:

- Datblygu'r economi i gefnogi'r Gymraeg drwy fanteisio ar raglenni grant a chydweithio gyda busnesau lleol.
- Sicrhau bod cyfleoedd i drigolion ddysgu a datblygu sgiliau yn y Gymraeg yn eu cymunedau drwy gydweithio gyda darparwyr dysgu a hyfforddi.
- Sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn deall gwerth a manteision y Gymraeg drwy gydweithio gyda Phartneriaeth Cymraeg i Blant a Theuluoedd Môn

Mi fydd Plaid Cymru yn sicrhau dyfodol gwell i'r ynys drwy ymrwymo i wneud gwahaniaeth hir dymor i wasanaethau'r Cyngor. Rydym eisiau rhoi cyfle i bob plentyn a pherson ifanc gyrraedd ei botensial, hyrwyddo annibyniaeth yn ein cymunedau, rhoi cyfle i'r economi ffynnu er mwyn gwireddu ein gweledigaeth, fel sydd yng Nghynllun y Cyngor, i greu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall bobl ffynnu.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 21 Mai 2024

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Margaret Murley Roberts (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Geraint Bebb, Non Dafydd, Paul Ellis, Neville Evans, T Ll Hughes MBE, Llinos Medi, A M Jones, Carwyn Jones, G O Jones, R Ll Jones, Jackie Lewis, Euryn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Llio Angharad Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Alwen Pennant Watkin, Ieuan Williams, Robin Williams, Sonia Williams, Liz Wood ac Arfon Wyn |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Pennaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol a Chontractau) (MY),<br>Swyddog Pwyllgorau (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Jeff M Evans, Douglas M Fowlie, Dyfed Wyn Jones, John Ifan Jones a Dafydd Rhys Thomas. |

**1. COFNODION**

Cyflwynwyd y cyfarfod o Gyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd ar 7 Mawrth, 2024 a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir, yn amodol ar ddiwygio'r fersiwn Gymraeg fel a ganlyn (Eitem 8 – Cyllideb 2024/2025 - Ar ddechrau'r broses o osod y gyllideb roedd bwlch o **£14.391m** rhwng y gyllideb refeniw ddigyfnewid a'r cyllid oedd ar gael cyn cynyddu'r Dreth Gyngor).

**2. DATGAN BUDDIANT**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o fuddiant.

**3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau a ganlyn:-

- Llongyfarchiadau mawr i’r athletwyr Eli Jones a Joseff Morgan ar gael eu dewis i gynrychioli Cymru yn nigwyddiad Athletau Rhyngwladol Loughborough a gynhaliwyd dydd Sul. Roedd Eli yn rhan o dîm ras gyfnewid 100 metr Cymru a Joseff yn cystadlu yn yr 800 medr.

- Llongyfarchiadau i Tudur Jones a Begw Ffransis Roberts o Glwb Rygbi Llangefni, fu'n cynrychioli Cymru yn ddiweddar. Bu Tudur yn chwarae i dîm rygbi bechgyn Cymru dan 18 a Begw yn chwarae i ferched dan 18 Cymru yn yr Ŵyl Chwe Gwlad.

- Llongyfarchiadau i Gareth Parry, ar gael ei gydnabod gan yr Undeb Rygbi am ei waith caled yn datblygu rygbi merched ar Ynys Môn a Gogledd Cymru.

- Llongyfarchiadau i Osian Roberts, brodor o Fôn, ar ei lwyddiant fel hyfforddwr Clwb Pêl-droed Como 1907 yn yr Eidal. Llwyddodd Osian i arwain Como i ddyrchafiad o Serie B a bydd Como yn chwarae eu pêl-droed ym mhrif adran Yr Eidal, Serie A, y tymor nesaf.

- Llongyfarchiadau i Dîm Pêl-droed Gwalchmai ar ennill Cwpan Canolradd Gogledd Cymru ddydd Sadwrn diwethaf.

- Llongyfarchiadau i bawb fu’n cystadlu yn Eisteddfod Môn dros y penwythnos. Roedd hi’n Eisteddfod lwyddiannus iawn unwaith eto eleni a llongyfarchiadau mawr i’r Cynghorydd Gwilym Jones a’r cyn-gynghorydd Bob Parry ar gael eu hurddo i Orsedd yr Eisteddfod. Pob lwc hefyd i bawb o Fôn fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ym Meifod wythnos nesaf.

- Mae Mr Noel Thomas, Gaerwen wedi ei gynnwys yn y rhestr o bobl fydd yn cael eu hurddo gan Orsedd yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Mae Noel wedi gwasanaethu ei gymuned yn gydwybodol am flynyddoedd lawer fel is-bostfeistr a chynghorydd.

- Llongyfarchiadau mawr i Gôr Ieuenctid Môn dan arweiniad Mari Lloyd Pritchard ar gyrraedd rownd derfynol Côr Cymru ar ôl ennill y categori “Corau Sioe”. Roedd y gystadleuaeth o safon ryngwladol ac yn brofiad gwych i dros 100 o bobl ifanc yr Ynys.

- Llongyfarchiadau i Seindorf Ieuenctid Biwmares a lwyddodd i ddod yn drydydd drwy Ewrop wrth gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaethau Bandiau Pres Ieuenctid Ewrop yn Palanga, Lithwania yn gynharach yn y mis.

- Llongyfarchiadau mawr i aelodau Ffermwyr Ifanc Môn a fu’n cynrychioli’r sir yng Ngŵyl Siarad Cyhoeddus Ffermwyr Ifanc Cymru yn Llanelwedd ym mis Mawrth gyda thîm darllen Ynys Môn yn dod yn ail ar y gystadleuaeth ddrama yn Theatr Brycheiniog, llongyfarchiadau i glwb Rhosybol am ddod yn ail. Llongyfarchiadau arbennig i Elliw Mair o glwb Bodedern am ddod yn ail fel aelod y flwyddyn dan 18 Cymru.

- Llongyfarchiadau i Mr Gerallt Llewelyn Jones, Menter Môn ar ennill gwobr ‘Ysbryd y Môr’ yng Nghynhadledd Ynni Morol Cymru yn ddiweddar. Mae’r wobr yn gydnabyddiaeth o’i gyfraniad, ymrwymiad ac angerdd fel unigolyn i’r sector ynni morol yng Nghymru ac o lwyddiant prosiect ynni llanw Morlais yma ym Môn.

- Pob dymuniad da i Mr Mark Wade yn dilyn ei benodiad i griw bad achub y RNLI yng Nghaergybi.

- Llongyfarchiadau i Lauren Amy Jones o dîm datblygu a hyfforddi'r Cyngor wedi iddi gael ei anrhydeddu fel myfyriwr y flwyddyn ar ei chwrs wrth dderbyn ei MA yn ddiweddar o Brifysgol John Moores yn Lerpwl.

*  *  *  *

Soniodd y Cadeirydd y bydd 80 mlynedd wedi mynd heibio ers ymgyrch D-Day yr Ail Ryfel Byd ar y 6ed o Fehefin. Bu nifer fawr o Ynys Môn yn rhan o'r ymgyrch honno a'r brwydro dilynol, a phrofodd sawl teulu ar yr Ynys brofedigaeth.

Cydymdeimlwyd ag unrhyw Aelod o'r Cyngor Sir neu Staff sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar.

Safodd Aelodau a Swyddogion fel arwydd o barch.

**4. CYFWYNO DEISEBAU**

Ni dderbyniwyd yr un ddeiseb.

**5. ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR AR GYFER 2023/24**

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Arweinydd y Cyngor ar gyfer 2022/2023.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod y Cyngor wedi cymeradwyo un o'i gyllidebau mwyaf heriol ym mis Mawrth ar ôl goresgyn bwlch ariannol cychwynnol o £14 miliwn. Cyfeiriodd at fabwysiadu Cynllun y Cyngor a'i weledigaeth i greu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.

Wrth sôn am addysg cyfeiriodd yr Arweinydd at agor ysgol newydd Corn Hir ym mis Ebrill 2023. Dywedodd ei bod hi'n braf gweld plant yr ynys yn derbyn cyfleoedd addysgu mewn adeilad modern. Cyfeiriodd at y cyfnod heriol mewn dwy ysgol uwchradd ar Ynys Môn o ganlyniad i newid yn y ddeddfwriaeth yn ymwneud a RAAC. Ni fu'n bosib ailagor Ysgol Uwchradd Caergybi ac Ysgol Uwchradd ar ôl y gwyliau haf a bu'n rhaid i waith trwsio brys gael ei wneud mewn nifer o wahanol adeiladau ar dir y ddwy ysgol. Fe gydweithiodd nifer o wasanaethau'r Cyngor yn effeithiol iawn er mwyn sicrhau bod yr ysgolion yn parhau i ddarparu addysg tra roedd y safleoedd ar gau ac ail agor yn ddiogel cyn gynted ag y bo modd. Diolchodd i'r Penaethiaid, staff, a'r disgyblion a'u teuluoedd am gydweithio'n agos â'r Cyngor ar adeg anodd iawn. Aeth yr Arweinydd ymlaen i nodi bod proffil Estyn Ynys Môn wedi bod yn arbennig yn ystod 2023, gyda dim un ysgol yn cael ei rhoi mewn categori. Nododd bod cynnydd wedi bod yn nifer y bobl sy'n defnyddio llyfrgelloedd yr ynys.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y maes gofal cymdeithasol ac fe amlygodd bod Ynys Môn ar y blaen o ran ei gweledigaeth i ddod yn Ynys Ystyriol o Drawma. Dywedodd bod y Cyngor wedi gweithio'n ddiflino i weithredu a hybu'r Strategaeth Ynys sy'n ystyriol o Drawma o fewn y cyngor, gyda phartneriaid ac yn y gymuned. Aeth ymlaen i ddweud bod y Cyngor wedi cael ei dderbyn fel aelod o Rwydwaith Byd-eang o Gymunedau Oed-gyfeillgar ym mis Mehefin 2023 a bod hyn yn arwydd o ymrwymiad y Cyngor i greu Ynys Môn Oed-gyfeillgar, lle nad oes unrhyw rwystrau'n atal pobl rhag heneiddio'n dda. Cyfeiriodd yr Arweinydd at y prosiect Dementia Actif Môn a'r cynnydd sylweddol dros y 12 mis diwethaf. Erbyn hyn mae gan y prosiect Cartrefi Clyd bedair uned sy'n darparu cartref i hyd at chwech o blant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at yr economi ac fe amlygodd cyllid a dderbyniwyd drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro. Cyfeiriodd hefyd at y rhaglen Arfor. Nododd lwyddiant y prosiectau hyn a'r gwaith ychwanegol sy'n cael ei gyflawni gan staff yr Adran Datblygu Economaidd ar y cyd â chymunedau lleol. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Du wedi cymeradwyo cais Ynys Môn i fod yn un o borthladdoedd rhydd cyntaf Cymru, sydd â'r potensial i ddarparu gwir newid i gymunedau ledled Ynys Môn a rhanbarth ehangach gogledd Cymru. Aeth yr Arweinydd ymlaen i ddweud y bydd y Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru am drydedd bont dros y Fenai. Dywedodd bod canolfan ymwelwyr modern newydd wedi agor ym Mharc Gwledig y Morglawdd Caergybi sydd wedi ennill gwobrau fel rhan o gynllun Cymru gyfan i greu a gwella cyfleusterau allweddol i ymwelwyr

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y maes Tai a dywedodd mai hon oedd y flwyddyn fwyaf heriol fyth i'r Gwasanaethau Tai gyda 790 o aelwydydd yn cysylltu â'r Cyngor oherwydd eu bod mewn perygl o ddod yn ddigartref. Mae'r Gwasanaethau Tai wedi parhau â'r gwaith i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Cafodd fflatiau newydd eu datblygu ym Miwmares. Mae hyn yn dangos ymrwymiad y Cyngor i ddarparu tai cymdeithasol fforddiadwy i denantiaid lleol yng nghanol y gymuned.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at gynnwys y Gymraeg fel amcan strategol yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028, sy'n cadarnhau statws yr iaith o fewn y Cyngor. Mae gwaith y Fforwm Iaith yn mynd rhagddo ac fe dderbyniodd y Cyngor gydnabyddiaeth genedlaethol gan Gomisiynydd y Gymraeg am ei ymrwymiad i'r iaith ac mae hyn y rhoi sicrwydd i ni fod ein gwasanaeth Cymraeg o safon uchel.

Dywedodd yr Arweinydd ei bod hi'n ddiolchgar i staff y Cyngor am eu hymrwymiad i sicrhau llwyddiant yr awdurdod ac i ddarparu gwasanaethau da i drigolion Ynys Môn.

Diolchodd y Cynghorydd Pip O'Neill i'r Arweinydd am yr Adroddiad Blynyddol a'i llongyfarch am y gwaith a gyflawnwyd.

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL TROSOLWG A SGRIWTINI 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio i'w gymeradwyo gan y Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Dylan Rees, Cadeirydd y Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio bod yr Adroddiad Blynyddol yn trafod gwaith y ddau bwyllgor sgriwtini rhwng mis Mai 2023 a Mai 2024. Dywedodd ei fod yn dymuno diolch i'r Tîm Sgriwtini am eu harweiniad, cymorth a pharodrwydd i gynorthwyo. Diolchodd hefyd i'w Is-gadeirydd, y Cynghorydd Gwilym O Jones ac aelodau'r ddau bwyllgor sgriwtini.

**PENDERFYNWYD** yn unfrydol:-**-**

- **Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini ar gyfer 2023/24;**
- **Nodi'r cynnydd parhaus sy'n cael ei wneud o ran ein siwrnai ddatblygu Sgriwtini a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar ymarfer;**
- **Penodi cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn Bencampwr Sgriwtini ar gyfer y cyfnod rhwng Mai 2024 a Mai 2025.**

## 7. CYNLLUN STRATEGOL RHEOLI ASEDAU 2024-2029

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith 19 Mawrth 2024, i'w gymeradwyo gan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-2029.**

## 8. SWYDDOGAETHAU DEWIS LLEOL: PERFFORMIAD

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn dilyn penderfyniad gan yr Aelod Portffolio Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer ar 29 Ebrill 2024, i'w gymeradwyo gan y Cyngor.

PENDERFYNWYD yn unfrydol i:-

- **Dynodi'r Hunanasesiad Corfforaethol a'r Asesiad Perfformiad gan Banel yn swyddogaethau i'w harfer gan y Pwyllgor Gwaith;**
- **Cytuno y bydd Asesiad Perfformiad gan Banel cyntaf y Cyngor yn digwydd yn ystod 2025;**
- **Awdurdodi penodi Cymdeithas Lywodraeth Leol Cymru (CLILC) i gefnogi'r Cyngor yn ystod ei Asesiad Perfformiad gan Banel cyntaf, ar gost o oddeutu £35,000 (llai'r gost o gyd-ddylunio'r fanyleb);**
- **Awdurdodi'r Prif Weithredwr i wneud yr holl benderfyniadau a threfniadau gweithredol, ac eithrio mewn perthynas â phenodi panel annibynnol a sefydlu cylch gorchwyl ar ei gyfer; a fydd yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.00 am

**CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yn hybrid ar 21 Mai 2024

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Non Dafydd, Paul Ellis, Neville Evans, Glyn Haynes, A M Jones, Carwyn Jones, Dyfed W Jones, G O Jones, R Ll Jones, Jackie Lewis, Llinos Medi, Euryn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Llio Angharad Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Margaret M Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Alwen Pennant Watkin, Ieuan Williams, Robin Williams, Sonia Williams, Liz Wood ac Arfon Wyn |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol a Chontractau) (MY),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | - |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Jeff M Evans, Douglas Massie Fowlie, T Ll Hughes MBE, John Ifan Jones a Dafydd Rhys Thomas |

### 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Glyn Haynes yn Gadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2024/25.**

Wrth dderbyn yr anrhydedd o gael ei benodi, dywedodd y Cynghorydd Glyn Haynes wrth y Cyngor y byddai'n ceisio cyflawni ei ddyletswyddau fel Cadeirydd hyd orau ei allu. Diolchodd i'w ragflaenydd, y Cynghorydd Margaret Murley Roberts, am gyflawni ei dyletswyddau fel Cadeirydd y Cyngor Sir mor urddasol ac anrhydeddus a chyflwynodd rodd iddi er mwyn cydnabod ei gwasanaeth.

Diolchodd y cyn Gadeirydd, y Cynghorydd Margaret Murley Roberts, i'w theulu am eu cefnogaeth yn ystod ei chyfnod fel Cadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn. Mynegodd ei thristwch o golli cyfaill annwyl a chyn aelod etholedig, Vaughan Hughes, a oedd wedi ei chynorthwyo i ddod yn aelod etholedig o'r Cyngor Sir. Cyfeiriodd y Cynghorydd Roberts at y digwyddiadau lu y bu iddi eu mynychu a'r fraint o gynrychioli'r Cyngor Sir yn y digwyddiadau hynny. Nododd mai Banc Bwyd Môn oedd yr elusen a ddewisodd ei chefnogi ac roedd hi wedi cyflwyno siec am £4,300 i'r Banc Bwyd yn ddiweddar.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD, yn unfrydol, ethol y Cynghorydd Non Dafydd yn Is-gadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2024/2025.**

## 3. DATGAN DIDDORDEBAU

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 4. CYHOEDDIADAU

Nid oedd unrhyw gyhoeddiadau.

## 5. AELODAETH O'R PWYLLGOR GWAITH

Yn unol â Pharagraff 4.1.1.2.7 o'r Cyfansoddiad, enwodd yr Arweinydd yr Aelodau canlynol a ddewiswyd ganddi i wasanaethu ar y Pwyllgor Gwaith, ynghyd â'u cyfrifoldebau Portffolio:-

**Y Cynghorydd Llinos Medi –** Arweinydd gyda chyfrifoldeb Portffolio am Ddatblygu Economaidd;

**Y Cynghorydd Robin Williams –** Dirprwy Arweinydd gyda chyfrifoldeb Portffolio am Gyllid;

**Y Cynghorydd Gary Pritchard –** Dirprwy Arweinydd gyda chyfrifoldeb Portffolio am Blant (Gwasanaethau Cymdeithasol), Ieuenctid a Gwasanaethau Tai;

**Y Cynghorydd Neville Evans –** gyda chyfrifoldeb Portffolio am Hamdden, Twristiaeth a Morwrol;

**Y Cynghorydd Carwyn Jones –** gyda chyfrifoldeb Portffolio am Fusnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer;

**Y Cynghorydd Alun Roberts –** gyda chyfrifoldeb Portffolio am Wasanaethau Oedolion (Gwasanaethau Cymdeithasol) a Diogelwch Cymunedol;

**Y Cynghorydd Dafydd Roberts –** gyda chyfrifoldeb Portffolio am Addysg a'r Gymraeg;

**Y Cynghorydd Nicola Roberts –** gyda chyfrifoldeb Portffolio am Gynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd;

**Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas –** gyda chyfrifoldeb Portffolio am Briffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

## 6. ETHOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Yn unol â Pharagraff 3.4.12.3 o'r Cyfansoddiad, **PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Keith Roberts yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**.

## 7. CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r rhan honno o'r Cynllun Dirprwyo y mae'r Cyfansoddiad yn nodi mai mater i'r Cyngor yw cytuno arno, fel y nodir yn Rhan 3.2 o'r Cyfansoddiad.**

**8. CADARNHAU PWYLLGORAU**

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r strwythur Pwyllgorau, y cyfeirir ato yn Adran 3.4 o Gyfansoddiad y Cyngor, yn cael ei ailbenodi, ynghyd â'r canlynol:-

- Panel Dethol y Pwyllgor Safonau
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS)
- Is-bwyllgor Indemniadau

**9. RHAGLEN CYFARFODYDD CYFFREDINOL Y CYNGOR SIR AR GYFER 2024/25**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhaglen ganlynol o gyfarfodydd cyffredinol y Cyngor Sir ar gyfer y flwyddyn i ddod:-**

- 26 Medi, 2024 - 2.00 pm
- 5 Rhagfyr, 2024 - 2.00 pm
- 6 Mawrth, 2025 - 2.00 pm
- Mai, 2025 - dyddiad i'w gadarnhau

**10. TREFNIADAU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL O FEWN Y CYNGOR**

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Democratiaeth ynglŷn â threfniadau cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol a nifer y seddau a ddyrennir i bob Grŵp o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;**
- **Bod Arweinyddion Grwpiau yn hysbysu'r Pennaeth Democratiaeth, cyn gynted â phosib, os bydd unrhyw newid o ran Aelodaeth Grwpiau ar Bwyllgorau.**

**11. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL**

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Democratiaeth mewn perthynas â phenodiadau i gyrff allanol.

**PENDERFYNWYD cytuno a chadarnhau'r penodiadau fel y'u nodir yn yr atodlen sydd ynghlwm i'r adroddiad.**

**12. PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024/25**

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Democratiaeth ynglŷn ag Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2024/2025.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Derbyn penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2024/2025;**

- **Cadarnhau y bydd deilyddion yr un swyddi â 2023/24 â'r hawl i dderbyn uwch gyflogau yn 2024/2025, h.y.**

  **Cadeirydd y Cyngor**
  **Is-gadeirydd y Cyngor**
  **Arweinydd y Cyngor**
  **Dirprwy Arweinydd y Cyngor**
  **Aelodau Eraill y Pwyllgor Gwaith (7)**
  **Arweinydd yr Wrthblaid Fwyaf**
  **Cadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini (2)**
  **Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

- **Awdurdodi swyddogion i ddiwygio Rhan 6 o Gyfansoddiad y Cyngor (Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau) i adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024/2025.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.30 pm

**Y CYNGHORYDD GLYN HAYNES**
**CADEIRYDD**

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Cyngor Sir |
| Dyddiad: | 26 Medi 2024 |
| Pwnc / Testun: | Adroddiad Perfformiad Blynyddol (2023/24) |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Carwyn E Jones, Deilydd Portffolio Trawsnewid |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Carys Edwards |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Gwyndaf Parry<br>01248 752111<br>GwyndafParry@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**1 Cytuno ar gynnwys yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24. Mae'n dangos perfformiad y Cyngor yn erbyn ei amcanion strategol fel yr amlinellwyd yn Cynllun y Cyngor. Argymell i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r adroddiad.**

**2** Mae'r adroddiad yn rhoid diweddariad ar berfformiad y Cyngor, yn cynnwys, crynhoi:

**2.1.1** Dogfen Gyflawni Blynyddol 2023/24

**2.1.2** Cerdyn sgorio 2023/24

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Amherthnasol |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r adroddiad perfformiad blynyddol yn crynhoi perfformiad y Cyngor yn ystod 23/24 a sut mae'r Gwasanaethau wedi perfformio yn erbyn ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol, Dogfen Gyflawni Blynyddol a Cyllideb. Mae'n rhoi |

| | | |
|---|---|---|
| | | sicrwydd o berfformiad yn erbyn amcanion strategol Cynllun y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Gallai perfformiad o fewn rhai meysydd o bosibl gael effaith ar gostau yn y dyfodol, bydd hyn yn bwydo mewn i'r cerdyn sgorio a dogfen gyflawni y flwyddyn ganlynol. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Ymgymerir ag elfennau o'r gwaith sy'n cael ei fonitro yn yr adroddiad mewn modd cydweithredol â sefydliadau eraill fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Llywodraeth Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, Gyrfa Cymru, Chwaraeon Cymru, GWE, Stena a Busnesau Lleol, ymhlith eraill. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Amh. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amh. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amh. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amh. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr Tîm Arweinyddiaeth ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgorffori yn yr adroddiad |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgorffori yn yr adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Sylwadau wedi ymgorffori yn yr adroddiad |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 17/09. Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod hwn. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad A - Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2023/24 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| • Cynllun y Cyngor 2023-2028 |

# Adroddiad Blynyddol Perfformiad a Llesiant 2023/24

**Paratowyd gan –** Y Gwasanaeth Trawsnewid

**Dyddiad Cyhoeddi –** Medi 2024


Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg / This document is available in English


# Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Perfformiad a Llesiant blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2023/24 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed gan y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf mewn cydweithrediad â'n cymuned wydn.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno blwyddyn o gyflawniadau nodedig sydd wedi cyfrannu at nifer o welliannau ar ein hynys ac yn rhoi sylfaen gadarn i gefnogi Cynllun y Cyngor er gwaethaf yr heriau economaidd sydd o'n blaenau.

Isod ceir rai o'r uchafbwyntiau allweddol ym mherfformiad eleni. I gael gwybod sut y byddwn yn monitro perfformiad ewch i [www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad/Cynllun-y-Cyngor/Rheoli-perfformiad](www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad/Cynllun-y-Cyngor/Rheoli-perfformiad)



# Datblygiadau yn erbyn chwe amcan strategol y Cyngor

Mae diweddariadau yn erbyn pob blaenoriaeth allweddol ar gyfer gweithgareddau Cynllun y Cyngor 2023/24 yn cael eu trafod yn yr adran nesaf hon o'r adroddiad.

Mae adroddiadau cynnydd yn erbyn y camau allweddol a gymerwyd ar y cynllun gwaith presennol i'w gweld isod:

## Yr Iaith Gymraeg

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **a) Gweithredu cynllun gwaith Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA), gan ddefnyddio dull integredig ac adrodd ar ei gyflawni** | Yn ystod y flwyddyn hon, mae ysgolion wedi cael cefnogaeth y Gwasanaeth Dysgu, y canolfannau iaith, y Siarter Iaith a GwE i sicrhau darpariaeth o safon sy'n adlewyrchu categorïau ysgolion ac anghenion plant y sir.<br><br>Datganodd Ysgol Uwchradd Caergybi ei bwriad i symud tuag at ysgol cyfrwng Cymraeg (categori 3) erbyn 2029 ac mae bwrdd prosiect CSGA wedi'i sefydlu i gefnogi'r ysgol.<br><br>Trafododd y Pwyllgor Sgriwtini Partnership ac Adfywio adroddiad cynnydd ar CSGA ym Mehefin 2024. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **b) Cydweithio i hyrwyddo ap OgiOgi fel adnodd defnyddiol i helpu rhieni a gofalwyr i wella eu hyder a defnyddio mwy o Gymraeg gyda'u plant** | Mae Swyddog Marchnata a gyflogir gan Menter Môn ac a ariennir hyd at fis Rhagfyr 2024 wedi'i phenodi yn ystod y flwyddyn. Mae gwaith hyrwyddo ar y gweill.<br><br>Mae ap OgiOgi yn cynnig trysorfa o wybodaeth gyda mwy na 400 o ddolenni defnyddiol i adnoddau lleol a chenedlaethol - gan gynnwys gwybodaeth am feichiogrwydd, iechyd, gwasanaethau, hawliau, lles, a chyfleoedd hamdden. Mae hefyd yn cynnwys adran ar ddatblygiad plant ac arweiniad ar fanteision dwyieithrwydd a defnyddio'r Gymraeg o'r crud. Mae yna hefyd ddigonedd o weithgareddau hwyliog i blant a rhieni eu mwynhau. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **c) Sicrhau bod mwy o gyfleoedd i siarad Cymraeg ar gael i staff a gweithio gyda Phrifysgol Bangor i dreialu'r rhaglen ARFer, sy'n ceisio newid arferion iaith fel bod cydweithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg (ond sydd wedi datblygu'r arfer o ddefnyddio'r Saesneg) yn defnyddio mwy o Gymraeg yn y gwaith** | Tri dosbarth Cymraeg i staff yn cael eu cynnal ar lefel mynediad, sylfaen a chanolradd ers Medi 2023.<br><br>Nid oedd y brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor dreialu ARFer yn ystod y flwyddyn ond bu'r Cyngor yn cydweithio â'r brifysgol i gynnig mwy o gyfleoedd ymarfer i ddysgwyr lefel uwch. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **d) Sicrhau, drwy asesiad blynyddol ac arolygon siopwyr cudd, ein bod yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg** | Asesodd y Tîm Rheoli Corfforaethol gydymffurfiaeth y Gwasanaethau â dyletswyddau iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn. Roedd sicrwydd cyffredinol bod gwasanaethau yn bodloni gofynion y safonau a'n polisi iaith. Daw hyn yn bennaf oherwydd bod ein swyddogion yn gallu'r Gymraeg a lefel uchel o ymwybyddiaeth o'r gofynion yn ogystal â chanlyniadau ymarfer siopwyr cudd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.<br><br>Nodwyd rhai heriau, yn benodol anawsterau wrth recriwtio swyddogion cymwys i swyddi o natur arbenigol. Ceir heriau hefyd o ran allanoli gwasanaethau i gwmnïau nad ydynt yn deall natur ddwyieithog gwaith y Cyngor. Mae cydweithio â chwmnïau preifat, sy'n darparu arbenigedd technegol yn bennaf, yn aml yn golygu ymdrech ychwanegol sylweddol gan swyddogion y Cyngor i sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio'n ddwyieithog.<br><br>Ceir rhagor o wybodaeth am gydymffurfiaeth y Cyngor â Safonau'r Gymraeg yn yr adroddiad blynyddol. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **e) Gweithio gyda Fforwm Iaith Ynys Môn i ddarparu dosbarthiadau Cymraeg yn y gymuned ac adnabod ffynonellau i ariannu gweithgareddau cymunedol** | Mae sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn rhan annatod o hunaniaeth, diwylliant a threftadaeth yr ynys yn parhau i fod yn flaenllaw yng ngwaith Fforwm Iaith Ynys Môn.<br><br>Un o brif gyfrifoldebau'r fforwm yw cadw golwg strategol ar y Gymraeg mewn addysg ac, eleni, hefyd, mae'r fforwm wedi sefydlu is-grwpiau thematig i sicrhau bod ei dargedau'n cael eu cyflawni ar y cyd. Y targedau yw: 'Y Gymraeg yn y gweithle', 'Trosglwyddo teulu ac iaith', 'Cymuned a phobl ifanc', 'Addysg' a 'Seilwaith a gwaddol'. Crynhowyd adnoddau i gyfoethogi'r gwaith oedd eisoes yn digwydd ac i ychwanegu gwerth. Mae modd cael rhagor o wybodaeth yma. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **f) Hyrwyddo gwersi Cymraeg ymhlith rhieni, newydd-ddyfodiaid a ffoaduriaid a sicrhau bod deunyddiau dysgu'r Gymraeg ar gael ar ein gwefan** | Mae pecynnau croeso ar gyfer newydd-ddyfodiaid a ffoaduriaid wedi cael eu dosbarthu ledled cymunedau Ynys Môn yn ystod y flwyddyn.<br><br>Mae gwybodaeth wedi'i diweddaru am y Gymraeg ym Môn gan gynnwys sut a lle i ddysgu Cymraeg, Cymraeg mewn addysg, Cymraeg mewn busnes, enwau lleoedd a gwybodaeth ddefnyddiol arall ar wefan y Cyngor. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **g) Darparu adnoddau ar gyfer Ysgolion a Lleoliadau ar Caru Iaith** | Mae adnoddau mewnrwyd Caru Iaith ar gyfer ysgolion a lleoliadau wedi eu diweddaru yn unol â gofynion Cwricwlwm i Gymru am y flwyddyn. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **h) Bydd llyfrgelloedd yn gweithio gyda darparwyr addysgu a dysgu i gynnig cyfleoedd i drigolion ddysgu a datblygu sgiliau Cymraeg yn eu cymunedau** | Wrth weithio mewn partneriaeth â Grŵp Llandrillo Menai, mae'r Cyngor wedi –<br>• nodi anghenion dysgu Cymraeg y gymuned<br>• cynnal digwyddiad cwrdd â'r prynwr ar gyfer darparwyr posibl<br>• sefydlu fframwaith i is-gontractio darparwyr i ymgymryd â'r cyrsiau<br>• Diweddaru'r gwahanol ffyrdd o ddysgu Cymraeg yn y gymuned ar wefan dysgucymraeg.cymru<br><br>Y bwriad yw ei weithredu ym Medi 2024 | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |

Tudalen 22

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **i) Sefydlu a darparu grant newydd Cymunedau Mentrus Arfor ar Ynys Môn, a sicrhau digon o gapasiti ar gyfer ei gyflawni'n effeithiol** | Mae 14 o geisiadau wedi'u cymeradwyo gyda chyfanswm grantiau gwerth £550,000 wedi'u dyfarnu. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **j) Cymryd rhan mewn cynlluniau a rhaglenni rhanbarthol Arfor 2 a gwneud y mwyaf o'r buddion i Ynys Môn.** | Mae pedwar prosiect ar Ynys Môn wedi eu cymeradwyo drwy'r Gronfa Her a'u gweithredu, gan gynnwys rhai gan M-Sparc a chwmni Haia. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |

## Gofal Cymdeithasol a Llesiant

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **a) Ymgynghori â'r cyhoedd ar ddyfodol Cyfleoedd Dydd ar yr ynys gyda'r nod o gryfhau cyfleoedd cymunedol trwy weithio ac integreiddio gyda'n Hybiau Cymunedol** | Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus gyda defnyddwyr a thrafodaeth yn y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith gymeradwyo argymhelliad yr adroddiad fel a ganlyn –<br><br>Integreiddio defnyddwyr gwasanaeth o fewn y gymuned ac ymateb i ddyheadau pobl sy'n mynd i weithgareddau i gael canlyniadau gwell. Parhau i drawsnewid a moderneiddio'r ffordd y darperir Gwasanaethau Dydd gyda phwyslais ar ddefnyddio adeiladau cymunedol. Gan fod y defnydd a wneir o Morswyn wedi lleihau, dod a'r gwasanaeth presennol i ben. Datgan nad oes angen yr eiddo mwyach a gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan adrannau eraill. Os na nodir defnydd, gwerthu'r eiddo, a throsglwyddo'r derbynebau i Adran y Gwasanaethau Oedolion. Sicrhau bod mesurau trosiannol ar gael i ddefnyddwyr a sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei addasu i ddefnyddwyr dros dro. Sicrhau hefyd fod adnoddau/cyfleusterau yn y gymuned yn briodol ac yn cwrdd ag anghenion unigolion. | Wedi'i gwblhau |
| **b) Mapio'r holl weithgareddau a gwella gwybodaeth am ddata lleol i fynd i'r afael â thlodi ar yr ynys gan ganolbwyntio ar dlodi bwyd a thanwydd yn ogystal â lleihau digartrefedd a dyled** | Defnyddiwyd gweithgareddau a data i greu Dangosfwrdd Costau Byw sydd ar gael i staff a Chynghorwyr. Defnyddir y data hwn i helpu i wneud penderfyniadau mwy gwybodus a chânt eu diweddaru'n rheolaidd.<br><br>Mae tudalen we sydd ar gael i'r cyhoedd ar gostau byw wedi'i diweddaru ar wefan y Cyngor. Arni mae gwybodaeth am sefydliadau a all helpu unigolion a theuluoedd, cyllid sydd ar gael tuag at gostau'r cartref a budd-daliadau, cymorth gyda gofal plant, gwybodaeth am ddigartrefedd, cymorth gydag iechyd meddwl a lles, a llawer mwy. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |

Tudalen 24

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **c) Lansio'r Strategaeth Drws Cywir trwy ddatblygu ac ehangu'r trefniadau hwb cynnar yn broses cyfeirio fyw gan weithio mewn fforwm amlddisgyblaethol** | Mae gwaith wedi mynd rhagddo i roi'r Strategaeth Drws Cywir ar waith yn ystod 2023/24. Mae'r ganolfan ymyrraeth gynnar yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos i sicrhau y caiff cyfeiriadau eu trafod, a bod trefniadau'n cael eu rhoi ar waith ar gyfer unigolion.<br><br>Mae proses newydd hefyd ar gyfer plant ag awtistiaeth, neu sy'n aros am ddiagnosis swyddogol o awtistiaeth, wedi'i rhoi ar waith i symleiddio penderfyniadau ac ymyraethau. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **d) Datblygu cyfleoedd i bobl ag anghenion iechyd meddwl** | Cynhaliwyd rhaglen lwyddiannus o weithgareddau ymyrraeth ar gyfer unigolion â diagnosis iechyd meddwl trwy gydol y flwyddyn. Sefydlwyd partneriaeth gydag Oriel Môn lle bu unigolion yn cynnal cyfres o ddosbarthiadau celf dros gyfnod o chwe wythnos, gyda'r gwaith celf a gynhyrchwyd ganddynt yn cael ei arddangos i bob ymwelydd ei weld. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **e) Cynyddu nifer y rhai sy'n cymryd rhan trwy wella'r gwasanaeth a gynigir yn yr Hybiau Cymunedol Integredig gan gynnwys datblygu a darparu hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar integreiddio a hygyrchedd** | Sefydlwyd canolfan dementia yng Nghanolfan Glanhwfa, Llangefni.<br><br>Mae sesiynau hyfforddi ar hygyrchedd ac integreiddio wedi'u cynnal mewn hybiau cymunedol ledled yr ynys.<br><br>Cynhaliwyd sesiwn gyda'r Bws Dementia sy'n fodd i bobl brofi'r daith synhwyraidd o sut y gallai deimlo i fyw gyda dementia, er mwyn codi ymwybyddiaeth o ddementia a sicrhau bod gwell cefnogaeth yn y gymuned. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **f) Cynyddu cyfleoedd i'r cyhoedd ymgysylltu â'r Awdurdod Lleol drwy'r fforymau Pobl Hŷn a Lleol fel y gall unigolion ddylanwadu'n gadarnhaol ar bolisïau a chyflawni gwasanaethau** | Cyfarfu fforwm pobl hŷn, a gydnabyddir yn ffordd effeithiol o sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed, yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn mewn fforymau cymunedol lleol, yn ogystal â'r fforwm ynys gyfan.<br><br>Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau, hefyd, ar gyfer pobl dros 50 oed drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys dau ddiwrnod agored yng Nghaergybi a Llangefni i gynyddu ymwybyddiaeth a niferoedd i gymryd rhan. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
| --- | --- | --- |
| **g) Sefydlu a Datblygu Rhwydwaith Oed-gyfeillgar a dod yn aelodau o Rwydwaith Byd-eang Oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd (WHO).** | Mae Ynys Môn wedi'i derbyn yn aelod swyddogol o Rwydwaith Byd-eang o Gymunedau Oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd. Mae'r Rhwydwaith yn cynnwys dros 1,400 o gymunedau mewn 51 o wledydd ar draws y byd. Yn aelod newydd o'r rhwydwaith, daw Ynys Môn yn rhan o fudiad byd-eang sy'n gweithio i greu cymunedau lle gall pawb yno edrych ymlaen at heneiddio'n dda. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **h) Adolygu'r opsiynau sydd ar gael i foderneiddio gwasanaethau byw â chymorth allanol a gweithio gyda darparwyr tai i sicrhau opsiynau llety addas** | Mae adolygiad o'r opsiynau sydd ar gael i foderneiddio gwasanaethau byw â chymorth allanol wedi'i gynnal. Cynhaliwyd, hefyd, drafodaethau gyda darparwyr allanol a theuluoedd. Cymerodd y gwaith hwn fwy o amser nag a feddyliwyd yn wreiddiol oherwydd gostyngiad yn y cyllid oedd ar gael a bod angen adolygu'r ddarpariaeth gyda rhai darparwyr allanol. | Gwaith yn parhau yn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol am 24/25 |
| **i) Agor ein trydedd darpariaeth Cartref Clyd (Cartrefi Grŵp Bach).** | Agorwyd trydydd Cartref Clyd yn Rhos-y-bol yn Awst 2023 | Wedi'i gwblhau |
| **j) Gweithio tuag at ddod yn Ynys sy'n ystyriol o drawma drwy sicrhau bod pum ysgol wedi'u hachredu yn Ysgolion sy'n Ystyriol o Drawma.** | Mae llawer o weithgareddau wedi'u cynnal o ran yr Ynys sy'n Ystyriol o Drawma yn ystod y flwyddyn.<br>Aeth dros 150 o staff i sesiynau hyfforddi gyda Dr Coral Harper ar drawma<br>Defnyddiwyd arian o Gronfa Ffyniant Gyffredin fel bod Ynys Môn yr awdurdod cyntaf yn y DU i gynnal cwrs ar drawma yn benodol ar gyfer rhieni maeth.<br>Hyfforddiant pellach i staff ysgol yn ogystal â llywodraethwyr ysgol | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **k) Buddsoddi £1m yn adeiladau ein canolfannau hamdden a rheoli gwaith gosod cae 3G newydd yn Ysgol Uwchradd Bodedern** | Mae gwaith gwella gwerth dros £1m wedi'i wario ar adeiladau canolfannau hamdden Ynys Môn drwy gydol y flwyddyn. Ymhlith y pethau y gwariwyd arnynt mae–<br>• Cae 3G yn Ysgol Uwchradd Bodedern<br>• Llawr newydd ei osod yn y brif neuadd, gwaith atgyweirio i'r cyrtiau sboncen, ffenestri newydd, atgyweirio to a gwelliannau i'r ystafelloedd newid yng Nghanolfan Hamdden Caergybi.<br>• Mae gwaith helaeth wedi'i wneud yng Nghanolfan Hamdden Amlwch gyda buddsoddiad o hyd at £600,000 ar brosiectau amrywiol. Ymhlith y prosiectau mae ystafell newid gwlyb newydd i'r anabl, toiledau newydd, drysau awtomatig newydd, ffenestri newydd, gwaith to a lloriau newydd gan gynnwys llawr newydd yn y neuadd chwaraeon.<br>• Llifoleuadau LED newydd ar gae 3G Plas Arthur, gan gynnwys ychwanegu dwy golofn newydd er mwyn cael mwy o orchudd.<br>• Gwaith atgyweirio a chynnal a chadw amrywiol yng Nghanolfan Hamdden David Hughes | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **l) Rhoi cyfleoedd nofio am ddim i ofalwyr ifanc a gweithio tuag at gynyddu nifer y plant sy'n cael gwersi nofio, wrth gynnal 500,000 o ymweliadau â'n canolfannau hamdden yn flynyddol** | Bu 515,000 o ymweliadau i wneud gweithgareddau corfforol yn y canolfannau hamdden drwy gydol 2023/24.<br><br>O'r ymweliadau hynny, cafodd bron i 1900 o blant a phobl ifanc wersi nofio gan staff MônActif. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |

## Addysg

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **a) Sicrhau bod Cwricwlwm i Gymru yn ei le ym mhob ysgol a bod systemau wedi'u datblygu i fesur effaith gwaith sy'n ymwneud â llesiant, cynhwysiant a lles ar blant, pobl ifanc a'r gweithlu.** | Dilynir Cwricwlwm i Gymru ym mhob ysgol.<br><br>Mae systemau digonol ar waith i sicrhau bod llesiant dysgwyr a'u cynnwys yn flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor. Mae data i bawb yn cael eu monitro'n rheolaidd gan y Gwasanaeth Dysgu a'r Panel Craffu Addysg yn ogystal â diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gynnydd.<br><br>Trefnwyd digwyddiad Iechyd a Llesiant ar gyfer staff ysgol Corn Hir gyda thua 70 o staff yn mynd i'r digwyddiad. Mae digwyddiad tebyg wedi'i gynllunio ar gyfer 24/25. | Camau Gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'u cwblhau |
Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr yn **Iechyd a Gofal Digidol GIG Cymru** a phartneriaid rhanbarthol eraill i gael system arall yn lle System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (a elwir y **WCCIS**) a trosglwyddo i system newydd.



Mae dogfen strategol sylfaenol y Cyngor, ‘Cynllun y Cyngor 2023-2028’ wedi nodi Newid Hinsawdd fel un o’i chwe amcan strategol i lywio gwaith yr awdurdod. Gan gefnogi Cynllun y Cyngor, mae **Cynllun Tuag at Sero Net y Cyngor 2022-2025** yn rhoi ymateb Cyngor cyfan cydgysylltiedig i newid yn yr hinsawdd wrth, hefyd, hyrwyddo newid diwylliannol i sicrhau bod gwasanaethau’n lleihau’r holl allyriadau nwyon ty gwydr.
Fel gwasanaeth, rydym wedi nodi swyddog arweiniol ac, ar hyn o bryd, yn gweithio gyda chydweithwyr i ystyried ôpsiynau ar gyfer datblygiadau pellach i gynorthwyo’r Cyngor i gyrraedd ei nod.

Mae ein Cyngor wedi cyflawni’r cerrig milltir a ganlyn dros y flwyddyn ddiwethaf:

- Buddsoddi i ddatgarboneiddio systemau gwresogi ar draws portffolio eiddo’r Cyngor (eiddo Gofal Cymdeithasol, Addysg a Hamdden) gyda gwaith wedi’i gynllunio yng Nghartrefi Preswyl ein Cyngor.
- Gosod paneli solar er mwyn defnyddio llai o drydan.
- Codi tai cymdeithasol i safonau perfformiad ynni uchel.
- Ymestyn rhwydwaith pwyntiau gwefru cyhoeddus i annog pobl i ddefnyddio cerbydau trydan.
- Darparu hyfforddiant newid hinsawdd i Aelodau Etholedig ac uwch-reolwyr y Cyngor.
- Datblygu meithrinfa goed leol i hyrwyddo plannu coed ar draws yr Ynys yn Blaen y Coed.

Un uchafbwynt yn ystod 2023/24 fu datblygu’r **Dangosfwrdd Tlodi** newydd, sydd ar gael i staff Cyngor Ynys Môn drwy eu Monitor system fewnol. Dyma ddangosfwrdd Power BI rhyngweithiol sy’n dangos y data a’r tueddiadau diweddaraf ynghylch costau byw ar Ynys Môn. Gyda’r dangosfwrdd, mae modd i Swyddogion gael mynediad at ddata byw i’w cynorthwyo i ragweld a pharatoi data i lunio ein gwasanaethau yn y dyfodol.

---

Nid yw ein heriau ar Ynys Môn yn ddim gwahanol i’r heriau ar gyfer pob Awdurdod Lleol arall yng Nghymru lle rydym yn wynebu blwyddyn eithriadol o anodd mewn perthynas â galwadau cyllidebol a chyllid grant. Mae hyn yn arbennig o anodd pan rydym yn gweld cynnydd yn y galw a chymhlethdod trigolion Ynys Môn hefyd yn cynyddu. Bydd y blynyddoedd nesaf yn anodd ac mae’n rhaid i ni gynnal perthnasau da ac effeithiol gyda’n partneriaid a pharhau i ddod o hyd i ffyrdd arloesol o ddarparu gwasanaethau er mwyn i ni allu parhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol.

# Pobl – Llais a Rheolaeth

Y llynedd, bu i ni cadarnhau y byddem yn nodi cyfleoedd am fwy o integreiddio cymunedol i'n hoedolion ag anableddau dysgu ar Ynys Môn. Mae gwaith yn parhau ar **ddatblygu Gweithgareddau Dydd i bobl ag Anableddau Dysgu** yn ardal Caergybi. Mae ehangu'r defnydd o adnoddau cymunedol yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth ac mae'r adborth a dderbyniwyd gan y bobl sy'n mynychu wedi bod yn gadarnhaol. Mae pobl wedi gwerthfawrogi gallu dewis o ystod o weithgareddau gan arwain at well profiad, dewis a rheolaeth dros eu bywydau eu hunain.

I gefnogi ehangu'r weledigaeth ar gyfer Gweithgareddau Dydd mae'r Cyngor wedi cymeradwyo y cynnig i roi'r gorau i ddarparu Gwasanaeth Dydd yng nghanolfan y Cyngor Canolfan Morswyn, Caergybi.

Roedd presenoldeb ym Morswyn wedi lleihau oherwydd yr ymateb cadarnhaol i weithgareddau cymunedol eraill yn yr ardal. Bydd trosglwyddo adnoddau o ganolfan Morswyn nawr yn hwyluso rhagor o ddatblygu mewn adnoddau cymunedol.

Mae ein tri Thîm Adnoddau Cymunedol yn parhau i esblygu gyda chyfranogiad cynyddol gan y trydydd sector ac asiantaethau partner. Mae'r **Prosiect Breuder**, menter ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, wedi bod ar waith ers chwe mis, prosiect rhagweithiol i leihau'r angen am dderbyniadau i'r ysbyty, cefnogi pobl i aros gartref gydag ymateb cyflym gan bob asiantaeth. O ystyried yr ymateb cadarnhaol i'r prosiect hwn, mae cynlluniau ar y gweill i atgynhyrchu'r model hwn yn Nhîm Adnoddau Cymunedol Amlwch fydd yn dwyn ffrwyth yn ystod 2024.

Mae **Teulu Môn** bellach yn wasanaeth cwbl integredig i Wasanaethau Plant a Theuluoedd a gwasanaethau Oedolion. Rydym yn gweithio'n fewnol a chyda chydweithwyr Iechyd i wella'r gwasanaeth fydd, gyda gobaith, yn rhoi mwy o fynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth i ddinasyddion. Mae ffurflen gyfeirio ddiwygiedig bellach yn ei lle, yn fenter ar y cyd rhwng Cynghorau Gwynedd, Conwy ac Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i geisio gwella ansawdd y cyfeiriadau a dderbynnir a ddylai arwain at ganlyniadau gwell i ddinasyddion.

---

Agorodd ein **Cartref Clyd** cyntaf yn 2020 a, hyd yma, mae gennym dri arall sy'n gartref i hyd at chwech o'n Plant sy'n Derbyn Gofal. Cânt eu staffio gan dîm bach o staff, gan sicrhau gofal o ansawdd rhagorol i'r plant sy'n byw yno.

Rydym nawr yn chwilio am ein 5ed Cartrefi Clyd ar Ynys Môn.

Yn ogystal, mae'r gwaith o adeiladu cam un o'n heiddo sydd newydd gael eu hadnewyddu ac fydd yn ailgartrefu ein Gwasanaethau Arbenigol Plant, wedi'i gwblhau erbyn dechrau mis Mawrth 2024.



maethu cymru Môn | foster wales Anglesey




Tudalen 60

Parhau yn ganolbwynt mae **recriwtio a chadw Gofalwyr Maeth** ac yn ystod Pythefnos Gofal Maeth 2023, cwblhaodd nifer o'n staff Her y Tri Chopa i godi ymwybyddiaeth o'r angen i recriwtio Gofalwyr Maeth. Ymunodd gweithwyr proffesiynol Gofal Maeth eraill o bob rhan o Gymru â ni ar ein her.



Mae nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys penwythnos o weithgareddau yng Nghanolfan Conwy ar gyfer Gofalwyr Maeth a'r plant, digwyddiad lles ar gyfer ein gofalwyr maeth (a digwyddiad Calan Gaeaf ar gyfer Gofalwyr Maeth a phlant a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Gaerwen, i enwi rhai yn unig.







Yn ystod Eisteddfod Genedlaethol 2023, a gynhaliwyd yng Ngwynedd, roeddem ar y Maes, gyda stondin recriwtio yn y brif ardal, 'Y Lloches'.

Mae'n bleser gennym adrodd bod ein Gwasanaeth Maethu wedi'i gydnabod yn Y Rhwydwaith Maethu - Gwobrau Maethu Rhagoriaeth 2023.

- Gwobr y Rhwydwaith Maethu ar gyfer tîm gwaith cymdeithasol.
- Gwobr y Rhwydwaith Maethu ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau.




Cynhaliodd yr **Uned Cefnogi Teuluoedd** ddigwyddiadau ymgysylltu ar draws y Sir i ofyn i rieni/gofalwyr, plant a gweithwyr proffesiynol am y gwasanaethau sydd ar gael i deuluoedd a sut y gellid eu gwella/cryfhau a lle oedd bylchau yn y ddarpariaeth. Mae hyn yn ein helpu i wella ein gwasanaethau a datblygu gwasanaethau newydd ac arloesol sy'n cefnogi ein teuluoedd. Mae'r angen i gynnwys pobl wrth wneud penderfyniadau am eu dyfodol wrth wraidd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015) ac rydym wedi dechrau prosiect ymchwil gan weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Caergrawnt ac eraill ar adeiladu Platfform Mapiau Cyhoeddus i'n helpu ni a'n cymunedau i ddarlunio'r hyn sy'n digwydd mewn lle. Mae hyn yn sail i wneud penderfyniadau gwybodus a gweithredu'n lleol ar faterion megis ein rhaglen siapio lle a newid hinsawdd.

---

Mae'r **Cynllun Strategol Trechu Tlodi 2024-2029** newydd y Cyngor wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ar 19 Mawrth 2024. Mae copi i'w weld ar ein gwefan

https://www.anglesey.gov.wales/en/Residents/Benfits-and-grants/Cost-of-living/Tackling-Poverty-Strategic-Plan-2024-to-2029.aspx



## Pa wahaniaeth wnaethon ni?

**63%** Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod o ailalluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth chwe mis yn ddiweddarach (65% yn 2022/23)

Mae **92%** o asesiadau plant yn cael eu cwblhau o fewn amser. (87% in 2022/23)

## Beth mae ein Pobl yn ei Ddweud?

“Roedden ni eisiau ysgrifennu adolygiad o’r Gwasanaeth Nos. Roedd y Gwasanaeth Nos yn ymweld â Dad ddwywaith y nos i weld ei fod yn iawn. Roedd y Gwasanaeth yn wirioneddol wych. Roedd y staff yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt. Mae’r Gwasanaeth hwn yn rhoi cymorth i bobl fedru cael gofal gartref. Mewn hinsawdd lle mae canolbwyntio ar ddarparu pecynnau a chefnogaeth i bobl fel eu bod n medru aros yn eu cartrefi, byddem yn argymell y gwasanaeth hwn yn llwyr, a gwyddom nad yw ar gael ym mhobman. Diolch yn fawr iawn am bopeth rydych chi’n ei wneud.”

“Cyflwynodd gweithiwr cymdeithasol waith stori bywyd – un o’r goreuon y mae hi wedi bod yn rhan ohono, wedi’i ymchwilio’n dda ac yn drylwyr, ac mae [defnyddiwr gwasanaeth] yn llawer hapusach ynddo’i hun, mae ei gwestiynau’n cael eu hateb. Roedd chwerthin a hwyl yn rhan o’r gwaith stori bywyd, ond cymerwyd y materion difrifol o ddifri.”

## Blaenoriaethau ar gyfer 2023/24

Cyflwyno’r Prosiect Breuder ar draws Ynys Môn.

Parhau â’n chwiliad i ganfod a sicrhau eiddo ar gyfer ein pumed Cartref Clyd ar yr Ynys.

# Atal

Cadarnhawyd y byddem yn adolygu ac yn ailgomisiynu ein darpariaeth gofal dydd i oedolion ag anableddau dysgu, gyda'r nod o gryfhau cyfleoedd cymunedol ar draws yr Ynys. Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd **ymarfer peilot i archwilio hybiau cymunedol, a chyfleoedd integreiddio** i unigolion ag anabledd dysgu yn ardal Caergybi. Rhoddwyd arian grant gan y **tîm Trawsnewid Anabledd Dysgu rhanbarthol**, fu'n fodd i'r gwasanaeth gomisiynu ymgynghorydd i dreialu'r ymarfer a chwblhau'r canfyddiadau mewn adroddiad. Roedd y peilot yn un positif a mwynhaodd yr holl unigolion a gymerodd ran. Bydd yr adroddiad yn cefnogi'r gwasanaeth i ddiweddaru'r cynllun strategol Anabledd Dysgu wrth symud ymlaen.

---

Gall **Taliadau Uniongyrcho**l hybu dewis; llais, rheolaeth a hyblygrwydd drwy alluogi a grymuso unigolion i gyflawni eu canlyniadau lles fel y cytunwyd yn yr Asesiad Unigol. Y prif amcan yw bod unigolion yn gallu parhau i fod yn annibynnol, byw yn eu cartrefi eu hunain, gyda chymorth neu hebddo, bod yn rhan lawn o fywyd teuluol a chymunedol a chymryd rhan mewn gwaith, addysg a hamdden pan a lle bo modd, er mwyn byw'r bywyd y dymunant ei fyw. Ddiwedd Ionawr 2024, mae gennym, ar hyn o bryd, 239 o unigolion yn derbyn Taliadau Uniongyrchol.
Fel Awdurdod, rydym wedi ymrwymo i gynyddu Taliadau Uniongyrchol ymhellach. Ein nod yw cynyddu nifer yr unigolion sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol i recriwtio mwy o Gynorthwywyr Personol, a'r llynedd cynyddwyd cyfradd fesul awr Taliadau Uniongyrchol a chyflog fesul awr Cynorthwyydd Personol gyda'r nod o gynyddu'r rhai yn ystod 24/25.

Ffurfiwyd **Grŵp Tasg a Gorffen Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed Pobl Hŷn Gogledd Cymru** ym mis Mawrth 2024. Mae'r grŵp, a arweinir gan y Bwrdd Iechyd a Phrifysgol Betsi Cadwaladr yn cynnwys partneriaid o bob rhan o Ogledd Cymru gan gynnwys Arweinwyr Cyfeillgar i Oed Awdurdodau Lleol, y Gwasanaeth Ambiwlans ac Age Cymru Gwynedd a Môn. Sefydlwyd y grŵp mewn ymateb i'r cynnydd mewn hunanladdiadau pobl hŷn (60+), gyda'r nod o ddeall mwy am y materion a'r ffactorau sy'n cael effaith ar bobl hŷn yng ngogledd Cymru sy'n cyfrannu at hunanladdiadau a hunan-niweidio, casglu arfer da i atal hunanladdiad a hunan-niweidio, ac ymgysylltu â phartneriaid sydd â phrofiad o fyw. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod 2024-25.



## Bod yn Wybodus am Drawma:

*"Nid rhywbeth atodol, ymyrraeth neu rywbeth y mae rhai yn ei wneud yw bod yn Gymuned sy'n wybodus am drawma.*

*Diwylliant ydi o. Ein ffordd ni o weithredu ydi o. Mae pawb ynghlwm; o'r athro i staff amser cinio, gweithiwr cymdeithasol, gofalwr maeth, yr Heddwas lleol ond, er mwyn modelu'r dull hwn, mae'n rhaid i ni fod wedi arfogi staff/unigolion â'r tŵls fel eu bod yn gallu ymateb i anghenion pob plentyn a'r gymuned."*

Rydym yn arwain y ffordd o ran dod yn **ynys sy'n wybodus am drawm**a ac rydym wedi hyrwyddo a gweithio'n galed i weithredu ein weledigaeth o Ynys Mon Gwybodus o Drawma ar waith o fewn  y cyngor, ymhlith ein partneriaid, ac yn y gymuned.  Nod ymarfer sy'n seiliedig ar drawma yw cynyddu ymwybyddiaeth ymarferwyr o'r modd y gall trawma effeithio'n negyddol ar unigolion a chymunedau, a'u gallu i deimlo'n ddiogel neu ddatblygu perthnasoedd ymddiriedus â gweithwyr proffesiynol sydd yno i'w cefnogi a'u cynorthwyo.

Rydym wedi bod yn llwyddiannus yn:

- Cael mynediad i Sicrhau Cronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) i gyflwyno ein cynnig datblygiad proffesiynol ymhellach ar draws yr Ynys – gan dargedu partneriaid allweddol.
- Yn ystod 2023-24, mae dros **1000 o unigolion wedi cwblhau'r sesiwn hanner diwrnod ar Ymwybyddiaeth Gwybodus o Drawma.** Mae hyn yn cynnwys sesiwn bwrpasol ar gyfer staff CSYM, a daeth dros 150 o staff iddi
- Mae dros 70 o staff o fewn Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn Ymarferwyr Gwybodus am Drawma trwy'r Diploma – mae hyn yn cynnwys Gary Pritchard– Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaeth Plant a Theuluoedd, Ieuenctid, Hamdden a Thai, staff yr Urdd, staff Cartrefi Clyd, Digartref, Môn CF i enwi rhai yn unig.
- Mae dros 21 o'n gofalwyr maeth wedi dechrau'r Tystysgrif cyntaf o'i math yn y Deyrnas Unedig mewn Ymarfer sy'n Wybodus am Drawma –
- Arwain ar gynhadledd genedlaethol mewn perthynas ag effaith trawma cenhedlaeth
- Man Myfyriol /rhaglen oruchwylio yn ei lle i'r holl staff hyfforddedig rannu arfer effeithiol.

**Effaith:**
- Newid mewn diwylliant/ethos a meddylfryd.
- Mwy o bolisïau a strategaethau sy'n seiliedig ar berthnasoedd.
- Cydweithio mwy penodol mewn perthynas â phlant/pobl ifanc
- Modelu'r un iaith

Mae'n bleser gennym gadarnhau gweithrediad llawn **Diwygio Cyfraith Gyhoeddus** mewn perthynas â'r **Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus,** sy'n ymdrechu i weithio gyda theuluoedd yn effeithiol i symud oddi wrth achosion cyfraith gyhoeddus.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gwneud defnydd llawn ac effeithiol o'n **Tîm Teuluoedd Gwydn** i weithio'n ddwys gyda theuluoedd plant a phobl ifanc sydd ar ymylon gofal. Nod y gwaith ataliol hwn gyda theuluoedd yw rhoi cymorth i leihau nifer y plant sy'n mynd i mewn i Gofal.

## Pa wahaniaeth wnaethon ni?

**98%** Canran gofalwyr oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad yn eu hawl eu hunain yn ystod y flwyddyn. (98% yn 2022/23)

Mae Cynnal Gofalwyr wedi cefnogi **528 o ofalwy**r er mwyn iddynt allu parhau i gynnig gofal i unigolion â chyflyrau iechyd meddwl, pobl hŷn, a phobl â dementia. (528 yn 2022/23)

**79** yw cyfanswm nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr ar gyfer gofalwyr ifanc a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn (o gymharu â 50 yn y flwyddyn flaenorol).

## Beth mae ein Pobl yn ei Ddweud?

Oeddech chi'n hapus yn byw yn Heddfan? "Yn bendant! Trwy fyw yn Heddfan des i arfer â bod ymhlith pobl. Cyn mynd i Heddfan doeddwn i ddim wedi cymdeithasu yn y deng mlynedd diwethaf. Mi oeddwn i'n teimlo'n saff. Mi oeddwn i wirioneddol wedi ymgartrefu yma. Roedd y fflat yn cael ei gadw i safon uchel iawn. Roedd yn berffaith"

Effeithlon iawn, cyfeillgar a chymwynasgar, rwy'n teimlo'n hyderus ei bod yn rhoi'r cyngor gorau i mi, bob amser yn bleser cyfarfod â hi (mewn perthynas â Gweithiwr Cymdeithasol gofal plant)

## Blaenoriaethau ar gyfer 2023/24

Annog gwasanaethau ataliol yn y gymuned sy'n ei gwneud yn bosibl i bobl gael cymorth mewn lleoliadau cymunedol.

Parhau â'n taith gan weithio tuag at gwblhau ein rhaglen waith i sicrhau bod Ynys Môn yn dod yn Ynys sy'n Gwybodus o Trawma.

# Lles

Y llynedd bu i ni ddweud y byddem yn cwblhau'r **adolygiad o Lety Byw â Chymorth,** dealltwriaeth well o'r angen a'r opsiynau sydd ar gael, a chynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cynnal ymarfer mapio o'r ddarpariaeth bresennol. Mae llinellau sylfaen wedi'u creu a'r oriau craidd, yr amserlenni a'r cynlluniau gofal wedi'u diweddaru i gael adlewyrchiad cywir o'r gwasanaeth a'r gost. Cafwyd arbedion a rhoddwyd newidiadau ar waith erbyn Ionawr 2024.



Mae'r awdurdod lleol wedi derbyn cytundeb a chyllid i baratoi achos amlinellol Strategol ar gyfer ein **Heiddo Gofal Ychwanegol, i'r de o'r Ynys.** Cyflwynwyd y rhain i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2023 ac rydym yn aros am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, cyn cael cyllid pellach i gwblhau achos busnes llawn. Bydd yr achos busnes llawn yn cael ei gyflwyno i banel y Gronfa Cyfalaf Integredig ac Ailgydbwyso, y Gronfa Tai â Gofal a'r Grant Tai Cymdeithasol. Y gobaith yw y bydd yn gwneud y mwyaf o'r cyllid grant sydd ar gael i gwblhau gwaith adeiladu'r prosiect. Ein nod yw y bydd yr achos busnes llawn wedi'i ysgrifennu a'i gymeradwyo erbyn mis Hydref 2024.

DEMENTIA ACTIF MÔN

**Dementia Actif Môn -** Mae'r Prosiect yma wedi symud ymlaen yn sylweddol dros y 12 mis diwethaf gan gynnwys recriwtio aelod newydd o staff llawn amser i ddarparu gweithgareddau a chefnogaeth ar draws yr ynys. Ymhlith yr uchafbwyntiau mae:

- Cefnogi saith Canolfan/Grŵp Dementia ar yr ynys, lle cyflwynwyd gweithgareddau newydd, cefnogi gyda cheisiadau grant yn ogystal â sefydlu dau Hwb/Grŵp Dementia newydd ar yr ynys, mewn dwy ardal wledig, gan sicrhau gweithgareddau wythnosol, cefnogaeth i ofalwyr ac aelodau o'r teulu.
- Cyflwyno Cyfeiriadur Dementia newydd, sy'n rhoi gwybodaeth i grwpiau lleol ar yr ynys.
- Cyflwyno ymgyrch newydd **'Byw ar Ynys Môn a phoeni am eich cof'** yma ar Ynys Môn. Eisiau cefnogi a symleiddio'r wybodaeth ar sut i gael diagnosis, yr arwyddion/symptomau allweddol a manylion cyswllt allweddol.
- Rydym wedi bod yn gweithio ar raglen ymgysylltu â'r gymuned lle rydym wedi bod yn gweithio gyda chymunedau i weld beth ddylai fod ar gael yn eu barn nhw i bobl sy'n byw gyda Dementia er mwyn llunio Strategaeth Dementia newydd.
- Darparwyd dros 600 awr o weithgareddau, gyda 10 sesiwn wythnosol, gyda thros 100 o bobl yn mynychu bob wythnos.

Yn Ionawr 2024 croesawodd **Cyngor Ynys Môn** 35 o ymwelwyr o amrywiol Grwpiau Anabledd Dysgu lleol i Siambr y Cyngor yn Llangefni gan roi cyfle iddynt gyfarfod a holi swyddogion y Cyngor ac Aelodau Etholedig. Roedd y rhai oedd yno, sef Boston Centre Stage, Mencap Môn, a Chanolfan Ddydd Blaen y Coed yn gallu cwestiynu y  Cynghorwyr am faterion amrywiol sy'n bwysig iddynt, megis pleidleisio, trafnidiaeth leol ac ati. Roedd yr ymweliad yn llwyddiant ysgubol a bydd hwn yn ddigwyddiad blynyddol, wrth **hyrwyddo integreiddio a chydraddoldeb.**




Mae ein **Hybiau Cymunedol** wedi parhau i ddatblygu a chreu mannau diogel ar gyfer cymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Gwelodd cronfa Gweithgareddau'r Hydref eleni nifer o hybiau cymunedol yn elwa o gymorth ariannol i gynnal gweithgareddau a digwyddiadau. Mae'r gweithgareddau wedi cefnogi i leihau unigrwydd ac arwahanrwydd, yn ogystal â hybu integreiddio.

Rydym yn parhau i werthfawrogi a chefnogi ein **gofalwyr di-dâl** – mae'r unigolion hyn yn cynnig cymaint o gefnogaeth i'w teuluoedd a'u ffrindiau. Mae ein prosiect **"Meddwl Ymlaen â Chynllunio"** yn parhau i dyfu, gan edrych ar addasiadau addas y gellir eu gwneud i helpu i gefnogi gofalwyr di-dâl, nawr ac yn y dyfodol. At hyn, mae ein prosiect "Gostyngiad i Ofalwyr Di-dâl" yn cael ei ymestyn i ofalwyr sy'n oedolion yn ogystal ag i ofalwyr ifanc. Mae'r ddarpariaeth yn gofyn i fusnesau a chwmnïau lleol ymuno â'r cynllun sy'n cynnig gostyngiadau i ofalwyr di-dâl i gefnogi eu hiechyd a'u lles.

Daeth nifer fawr i bleidleisio yn un o'n **Fforymau Pobl Hŷn,** pan fu iddynt gyfarfod yn M-SPARC. "Diogelwch Ar-lein" oedd y pwnc i'w drafod gan fod hyn wedi'i nodi'n flaenorol fel pryder i lawer o'r rhai oedd yno.



Bu i ni gadarnhau yn ein hadroddiad blaenorol y byddem yn cwblhau gwaith moderneiddio ac ailstrwythuro ein **Darpariaeth Gwasanaeth Ieuenctid.** O ganlyniad, rydym wedi ailwampio ein fframwaith gwasanaeth ieuenctid i ddiwallu anghenion ein pobl ifanc gyda chynnig clir o gymorth a darpariaeth. Mae cyfartaledd o 700 o bobl ifanc yn mynychu ein cynnig ieuenctid. Eleni fe wnaethom gynnig:


- Clybiau Haf yn ystod gwyliau'r ysgol – un diwrnod ym mhob ardal ysgol uwchradd a daeth dros 500 o bobl ifanc yno.
- Cynyddu ein gwaith gyda Heddlu Gogledd Cymru a derbyn grantiau i gynnig gweithgareddau.
- Daeth dros 25 o bobl ifanc am benwythnos preswyl yng Nglanllyn i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Roeddem wedi bod yn llwyddiannus yn ein cais i gynnal cynllun peilot ar gyfer **Ysgol Rithwir (Cymru)** yn 2023, gyda chymorth cyllid gan Lywodraeth Cymru i edrych ar wella canlyniadau i'n Plant sy'n Derbyn Gofal. Caiff ein Hysgol Rithwir ei arwain gan Reolwr Gwasanaeth integredig sy'n rhan o'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd ond sydd, hefyd, yn aelod o grŵp arwain y Gwasanaeth Dysgu.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi rhoi proses gyson ar waith i sicrhau cysondeb wrth weithredu a dulliau olrhain. Bydd gan bob plentyn sy'n derbyn gofal **Gynllun Addysg Personol** ar-lein yn unol â gofynion statudol a fydd, hefyd, yn cynnwys asesiad iechyd a lles Symudol.

Mae gweithdai tymhorol wedi eu cynnig yn rhan o'n cefnogaeth i ysgolion, gyda rhagor o gefnogaeth 1:1 i rai ysgolion/lleoliadau os oes angen.

Rydym yn hyderus bod cyrhaeddiad addysgol ein Plant a Phobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal wedi gwella yn ystod y flwyddyn hon gyda gweithrediad y Tîm Ysgol Rhithwir.



Mae Gwasanaeth Ieuenctid CSYM yn Sylfaen gynhwysol, ddiogel i'r holl bobl ifanc ledled Môn lle mae'r Gymraeg yn ganolog i bopeth a wnawn. Rydym yn meithrin perthnasoedd y n seiliedig ar ymddiriedaeth, parch a blaenoriaethu llais y person ifanc. Wrth ymgysylltu â'n cymunedau lleol a gweithio mewn partneriaeth, cynorthwywn bobl ifanc i gyrraedd eu potensial. Mi wnawn wastad wrando a cheisio grymuso unigolion i gyrraedd eu nodau.
#Llais. Dewis. Ymgrymuso

**Pum Conglfaen ein Gwasanaeth**

Sgiliau am oes

Blaenoriaeth

Iechyd a lles

Blaenoriaeth

Gweithio mewn Partneriaeth

Blaenoriaeth

Grymuso Pobl Ifanc

Blaenoriaeth

Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant

Blaenoriaeth

## Pa wahaniaeth wnaethon ni?

**95%** Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn yr amserlenni statudol (92% yn 2022/23)

**91%** Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal ac oedd i'w cynnal yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau. (93.83% yn 2022/23)

## Beth mae ein Pobl yn ei Ddweud?

"Mae hi mor hapus gyda'r ystafell ymolchi a addaswyd a hoffai ddiolch i bawb a gymerodd ran. Mae'r addasiad yn "newid bywyd" gan roi "annibyniaeth iddi a chaniatáu iddi gynnal ei hurddas"*. Roedd y contractwr oedd yn gwneud y gwaith yn gymwynasgar, yn gyfeillgar ac roedd y gwaith yn eithriadol."

"Dywedodd gofalwyr maeth eich bod chi (Gweithiwr Cymdeithasol) wedi dechrau gweithio ar berthnasoedd iach gyda [defnyddiwr gwasanaeth]. Roeddynt yn gadarnhaol iawn ac yn canmol y ffordd yr ydych wedi ymgysylltu a chyfathrebu â [defnyddiwr gwasanaeth] a'i g/chefnogi hyd yn hyn. Caiff ei g/chalonogi y bydd [defnyddiwr gwasanaeth] yn elwa'n fawr o weithio gyda chi."

Mae Clwb Hwyl yn ased i'r gymuned leol. Mae'n rhoi hyder i blant bach ac yn fodd iddynt ddysgu sut i chwarae gyda phlant eraill. Mae'n lle da i rieni plant ifanc gwrdd â'i gilydd mewn awyrgylch cyfeillgar a chymdeithasol sy'n gyfeillgar i blant". Rhiant

## Blaenoriaethau ar gyfer 2023/24

Parhau ag ymdrechion i foderneiddio a thrawsnewid safon llety byw â chymorth drwy agor uned bwrpasol yn y Fali.

Moderneiddio a datblygu ein cynnig cymorth a hyfforddiant i 16+.

# Partneriaethau

Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i lawer o'n gweithgareddau. Wrth weithio mewn partneriaeth, mae modd i ni gael at sgiliau, gwybodaeth a phrofiad eraill a'u defnyddio i ddatblygu ymateb ar y cyd a chyfuno adnoddau fel ein bod yn cynhyrchu ymatebion a gwasanaethau i'r gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu.

Tudalen 70

Ym mis Mehefin 2023, ymunodd Ynys Môn â Rhwydwaith Byd-eang o Gymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed Sefydliad Iechyd y Byd. Mae dod yn aelod o'r Rhwydwaith yn arwydd o ymroddiad yr ynys gyfan i greu Ynys Môn sy'n Gyfeillgar i Oed lle nad oes unrhyw rwystrau i heneiddio'n dda. Mae gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys cynnal nifer o Fforymau Pobl Hŷn lleol allan yn y gymuned, gan arwain 50+ o Ddiwrnodau Agored ar y cyd â Môn Actif. Rydym ni fel cyngor yn gweld hwn fel dull gweithredu i'n holl wasanaethau fod yn rhan ohono a byddwn yn gweithio yn ystod 2024/25 i ehangu dealltwriaeth gwasanaethau unigol o'n hymrwymiad a'n rôl.

Ym mis Tachwedd 2023, derbyniodd Y nys Môn y gwahoddiad i roi cyflwyniad yng Nghynhadledd Cymru Gyfeillgar i Oed y Comisiynydd Pobl Hŷn i rannu arfer da y gwaith mewn partneriaeth addawol Cyfeillgar i Oed a gynhelir ar Ynys Môn.



Yn y llun uchod mae'r aelod staff Sioned Young (Swyddog Datblygu Cymunedau Oed Gyfeillgar) (canol), gyda Brenda Roberts, Cadeirydd Cyngor Pobl Hŷn Ynys Môn ac Ieuan Wyn Jones, Cadeirydd Canolfan Glanhwfa yn y Gynhadledd **"Gwneud Cymru'n Genedl Oed Gyfeillgar",** Tachwedd 2023 a gynhaliwyd yng Nghaerdydd. Fe'i cynhaliwyd gan Heléna Herklots CBE, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Roedd Ynys Môn yn un o bedair sir yn unig yng Nghymru i dderbyn y gwahoddiad arbennig i rannu y gwaith arfer da o fewn y sir i greu **Cymuned Oed Gyfeillgar**. Yn eu cyflwyniadau, cafodd y tri gyfle i arddangos y gwaith partneriaeth gwych sy'n digwydd ar Ynys Môn i greu Ynys Môn sy'n Gyfeillgar i Oed; lle nad oes unrhyw rwystrau i atal pobl rhag heneiddio'n dda.

Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys y Fforymau Pobl Hŷn a drefnwyd mewn partneriaeth gyda Age Cymru Gwynedd a Môn, y Diwrnodau Agored 50+, a datblygiad Canolfan Glanhwfa yn Llangefni, sy'n ganolfan gymunedol yn festri Capel Moreia ac, erbyn hyn, yn gartref i nifer o wasanaethau cymunedol a Dementia.

Mewn llythyr o ddiolch i Sioned, Brenda ac Ieuan, dywedodd y Comisiynydd;

*"Diolch am eich cyflwyniad ardderchog ar y gwaith cadarnhaol sydd ar y gweill yn Ynys Môn. Fe wnaethoch chi wir ddod â chymunedau cyfeillgar i oed yn fyw, gan ddangos y newidiadau ymarferol a'r effaith yn ogystal â phwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth."*

Y llynedd bu i ni ddweud y byddem yn rhoi blaenoriaeth i waith datblygu rhagor ar dudalennau gwe ein Cyngor, yr ydym wedi'u hadolygu a'u hadnewyddu yn ystod y flwyddyn ar gyfer ein Cymuned Oed Gyfeillgar, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth trwy ein Hybiau Cyfeillgar i Oed. Wrth hyrwyddo rydym, hefyd, wedi cynhyrchu **"Cylchlythyr sy'n Gyfeillgar i Oed"**, a gyhoeddir deirgwaith y flwyddyn, gyda chopïau printiedig yn cael eu rhannu'n eang yn ein cymunedau mewn lleoedd megis meddygfeydd, tafarndai, llyfrgelloedd a chaffis, yn ogystal â thanysgrifiad e-bost. At hyn, rydym wedi datblygu **Cyfeiriadur Adeiladau Cymunedol**, sy'n hyrwyddo'r defnydd o adeiladau cymunedol ar draws yr ynys.

https://www.anglesey.gov.wales/en/Residents/Leisure/Community-facilities/Community-buildings-directory.aspx

---

Mae **Fforymau a Chyngor Pobl Hŷn Ynys Môn** yn parhau i ehangu. Rhoddir cyfle i bobl hyn rannu arfer da a lleisio eu pryderon am unrhyw beth y maent yn ei ystyried yn rhwystr iddynt rhag heneiddio'n dda ar Ynys Môn.

---

Mynychodd dros 50 o bobl **Ddiwrnod Agored 50+ Iechyd a Lles** yng Nghanolfan Hamdden Caergybi ddydd Llun, 22 Ionawr mewn Partneriaeth â **Môn Actif** a Gwasanaethau Oedolion. Roedd y Diwrnod Agored yn gyfle i roi cynnig ar amrywiaeth o weithgareddau hamdden am ddim gan gynnwys Pêl-bicl, Pilates, Ymarfer Corff Grŵp, Badminton, Sboncen a Gweithgaredd Celf a Chrefft. Roedd cyfle, hefyd, i ymweld â phedair ar ddeg o stondinau gwybodaeth sefydliadau partner.



Cymeradwywyd **Strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru** gan bob un o'r chwe awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ym mis Mawrth 2019. Mae Ynys Môn a'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno i arwain ar y cam hwn i archwilio a threialu **Cyllidebau Cyfun** rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Mae staff y Bwrdd Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn Nhîm Anabledd Dysgu Ynys Môn wedi'u cydleoli ac mae ganddynt hanes cryf o gydweithio cadarnhaol. Mae'r peilot wedi newid y broses bresennol lle mae Ynys Môn a'r Bwrdd Iechyd yn comisiynu gwasanaethau a ariennir ar y cyd i oedolion ag anableddau dysgu. Yn hanesyddol, cafwyd prosesau ar wahân sydd wedi achosi aneffeithlonrwydd, oedi, a baich anghymesur ar adnoddau fyrddau iechyd. Mae cynllun peilot y gyllideb gyfun yn rhoi mwy o hyblygrwydd gan ei fod yn ddull symlach o reoli dyraniadau cyllid rhwng y cyngor a'r bwrdd iechyd, lle mae'r prosesau adolygu, cyfraniadau ariannol a chomisiynu gwasanaethau yn benderfyniad integredig. At ddiben y peilot, mae cyllideb bresennol ar y cyd ar gyfer dinasyddion sy'n byw mewn lleoliadau preswyl a byw yn y gymuned rhwng Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi'i gosod ar £1.2 miliwn o bunnoedd. Mae chwe cham i'r gyllideb gyfun:

Cam 1: byw yn y gymuned a gofal a chymorth preswyl sy'n bodoli eisoes ac a ariennir ar y cyd
Cam 2: pecynnau gofal a chymorth newydd wrth fwy bywyd preswyl a chymunedol (yn gweithio ar y cam hwn ar hyn o bryd).
Cam 3: cyfanswm cyllidebau gofal a chymorth ynghyd â chyfleoedd dydd, eiriolaeth a chontractau eraill a gomisiynir.
Cam 4: cyfanswm gwariant ar fyw yn y gymuned a gofal preswyl gan gynnwys gofal seibiant, gofal cartref, bywydau a rennir a chymorth i deuluoedd. Cyllidebau Gofal Iechyd Parhaus yn hysbys ac yn gyllideb Gofal Cymdeithasol.
Cam 5: cyfanswm iechyd a gofal cymdeithasol a chyllidebau staff yr un fath ar gyfer y gymuned yn unig ac ar gyfer Ynys Môn yn unig.
Cam 6: cyllidebau cymunedol ac acíwt cwbl integredig ar gyfer anableddau dysgu.

---

Mae'r awdurdod lleol wedi cefnogi Mencap Môn i recriwtio rheolwr i ddatblygu'r HWB a dewislen o weithgareddau cymunedol. Mae'r arian cyfatebol a ddarparwyd drwy'r Gronfa Integredig Ranbarthol wedi bod yn fodd i Mencap Môn lwyddo i ddenu rhagor o gyllid oddi wrth gyllidwyr eraill, megis yr Ymddiriedolaeth Elusennol. Edrychwn ymlaen at barhau â'n sgyrsiau gyda **Mencap Môn** i ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach.

---

Bu i ni ddweud y byddem yn ehangu ein cynnig o **fflatiau hyfforddi i'n Pobl sy'n Gadael Gofal,** a thros y 12 mis diwethaf rydym wedi annog 11 o bobl ifanc i aros yn y fflat hyfforddi am hyd at 28 diwrnod. Mae hyn wedi cefnogi'r bobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau byw'n annibynnol, fel eu bod yn fwy parod i reoli eu tenantiaeth eu hunain pan fyddant yn gadael gofal. Yn dilyn y cyfnod prawf mae rhai wedi penderfynu nad ydynt yn barod i fyw ar eu pen eu hunain ac wedi parhau i fyw gyda'u teulu maeth ar **gynllun "Pan Fydda i'n Barod".**

---

Mae pobl ifanc wedi cael cymorth i gwblhau cwrs byw'n annibynnol, achrededig "Agored" yn ystod eu cyfnod yn y fflat. Mae hyn yn helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau rheoli tenantiaeth, cyllidebu, deall biliau, coginio ar gyllideb a chadw eu hunain yn iach. Rydym, hefyd, wedi defnyddio'r fflat hyfforddi i gynnal sesiynau addysg a hyfforddiant i'n pobl ifanc sydd ar gynllun addysg amgen.

Mae 2023-24 wedi bod yn flwyddyn arwyddocaol o ran newid a her i **Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn** ar ôl cyflwyno Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cenedlaethol newydd a **Fframwaith Asesu Atal a Dargyfeirio newydd.** Yn ogystal, roedd y gwasanaeth yn destun Archwiliad Safonau Cenedlaethol (gwaith yn y Llysoedd) ac ym mis Tachwedd 2023 arolygwyd y gwasanaeth gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.

Barnwyd bod Archwiliad Safonau Cenedlaethol, a adolygodd waith y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid gyda'r Llysoedd, yn 'Dda' gydag argymhellion ynghylch cofnodi ac ymgysylltu â rhieni, ond, ar y cyfan, amlygodd y berthynas waith effeithiol a chydweithredol iawn gyda'n partneriaid yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi.

Mewn Arolygiad Cyfiawnder Ieuenctid gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ym mis Tachwedd, barnwyd bod y gwasanaeth yn 'Dda' gyda rhai argymhellion neu feysydd i'w gwella. Mae'r gwaith o ymateb i'r argymhellion yn mynd rhagddo'n dda. Dyma sylwadau'r arolygwyr:


*"Gall y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid fod yn gwbl falch o'r ffordd y mae'n estyn allan gyda thosturi at blant i'w helpu i fyw eu bywydau gorau. Rhaid iddo ganolbwyntio nawr ar ddefnyddio canfyddiadau'r arolygiad hwn yn sbardun i sicrhau rhagor o newid. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn gwneud saith argymhelliad i wella rhagor ar waith Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn. Hyderwn y byddant yn cynorthwyo'r gwasanaeth wrth iddo barhau â'i daith i wella."*

Mae'r gwasanaeth yn parhau i fod yn gartref i'r **Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc ("Be di'r Sgôr")** i Ynys Môn a Gwynedd a Thîm Cefnogi Ymddygiad Rhywiol Problemus Gwynedd (Tim Emrallt). Parhau i fod o safon uchel mae'r cydweithio gyda'r ddau, gydag adborth cadarnhaol iawn gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi o'r trefniadau partneriaeth hyn.

---

Mae **Ymyriadau Gwydnwch Seiliedig ar Seicoleg** y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid I blant yn y System Gyfiawnder yn parhau i gael eu datblygu'n gyson yn 23-24. Mae gwaith yn parhau gyda'n cydweithwyr ledled Cymru ac mae bellach wedi symud i gyfnod prawf ffurfiol. Mae'r astudiaeth wedi ennyn cryn ddiddordeb gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru, sy'n dilyn ein cynnydd yn agos.

Mae ein Tîm Cefnogi Teuluoedd wedi gweithio'n helaeth ar draws Gogledd Cymru, mewn partneriaeth â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'n Hawdurdodau Lleol cyfagos ar draws y Gogledd. Un enghraifft o'r fath oedd **Rhaglen Integreiddio a Thrawsnewid y Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru** sydd wedi cefnogi nifer o brosiectau megis datblygu **Strategaeth Iechyd Meddwl Amenedigol,** creu grwpiau cymunedol yn y blynyddoedd cynnar mewn lleoedd megis Llanddona a Llanfachraeth. Trwy'r rhaglen, codwyd ymwybyddiaeth o iechyd meddwl tadau a gweithiwyd mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg yn ein cymunedau drwy'r blynyddoedd cynnar. Tystia 272 o rieni a fynychodd dros chwe mis i hyn.





Yn ystod 2023/24, bu i ni barhau i atgyfnerthu ein trefniadau rhagorol i weithio mewn partneriaeth gyda'n cydweithwyr yn y **Gwasanaethau Tai. Atal digartrefedd** trwy sicrhau ei fod yn brin, yn fyrhoedlog ac na chaiff ei ailadrodd yw nodau ac amcanion allweddol **Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai** Cyngor Sir Ynys Môn. Yn brif ddarparwr cymorth tai dynodedig ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl, mae ein darpariaeth hefyd wedi cyfrannu at:

- Lliniaru'r effaith ac atal digartrefedd
- Cefnogi pobl i fyw'n annibynnol.
- Darparu cymorth wedi'i deilwra a'i dargedu fel bod modd i bobl fregus fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain ar draws pob deiliadaeth.

Llwyddodd yr adran i ddenu cyllid grant drwy **Gronfa Tai â Gofal Llywodraeth Cymru** i brynu eiddo byw â chymorth oddi ar y farchnad agored yn Rhostrehwfa, a bydd adnewyddiadau'n cael eu gwneud yn ystod y misoedd nesaf. Bydd y prosiect yn cael ei redeg mewn partneriaeth â'n hadran dai a'i ariannu'n rhannol gan y Cyfrif Refeniw Tai.

Adroddodd y **Bwrdd Diogelu Corfforaethol** mewnol gynnydd yn nifer yr achosion cam-drin domestig ar Ynys Môn, er mwyn:

- Uwchgyfeirio pryder ynghylch y twf parhaus mewn achosion cam-drin domestig ar yr Ynys
- Uwchgyfeirio'r her bod yna ddioddefwyr cam-drin domestig yn aros am gefnogaeth trwy restr aros. Y rheswm dros hyn yw twf parhaus a mynych yr achosion cam-drin domestig yr adroddwyd amdanynt.

Mae'r **Grant Cymorth Tai** yn talu am gost 51 o unedau cymorth fel bo'r angen yr wythnos i Gorwel, i gynorthwyo gyda gwaith cefnogi ac atal cam-drin domestig

Oherwydd cynnydd mewn hyfforddiant megis **Gofyn a Gweithredu,** y disgwyl yw bod mwy o ddioddefwyr yn cael eu hadnabod o fewn ein cymunedau ac, felly, yn cynyddu'r galw ar wasanaethau. Yn ogystal â hyn, mae cyflwyno **Rheolaeth a Gorfodaeth** fel trosedd yn 2015 a chyfreithiau amrywiol sydd wedi cychwyn yn seiliedig ar droseddau difrifol, megis cyfraith Jade, yn cynyddu proffil rhoi gwybod am gam-drin domestig.

## Pa wahaniaeth wnaethon ni?

**17.32%** Cyfradd y bobl hŷn (65 oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth (16.74% yn 2022/23)

**10.55%** Canran cyfeiriadau'r plant sy'n cael eu hailgyfeirio o fewn 12 mis (14.35% yn 2022/23)

## Beth mae ein Pobl yn ei Ddweud?

"Dim ond canmoliaeth i weithwyr y Gwasanaeth Ailalluogi oedd gan [Mr a Mrs ] ac roeddynt eisiau diolch iddyn nhw gan fod [defnyddiwr gwasanaeth] yn teimlo ei bod hi'n dod yn fwy hyderus bob dydd, ac mae hyn i'w briodoli i'r cymorth y mae'n ei gael gan y Gwasanaeth Ailalluogi."

"Hoffwn ddiolch i *** Gweithiwr Cymdeithasol (a phawb oedd ynghlwm) am eu gwaith caled ar y mater hwn. Roedd y Llys (a'r Gwarcheidwad) yn ganmoliaethus iawn o waith *** a dywedodd y Barnwr fod yr achos hwn er clod i'r Awdurdod Lleol oherwydd mae'n debyg mai hwn oedd y pecyn cymorth mwyaf cynhwysfawr a welodd erioed ac y dylid diolch i'r Awdurdod ac asiantaethau eraill oedd ynghlwm am weithio'n galed i ddod â'r cynllun hwn at ei gilydd."

## Blaenoriaethau ar gyfer 2023/24

Parhau ar ein taith Oed Gyfeillgar, gyda datblygiad Cam 2 o brosiect Glanhwfa.

Moderneiddio ein Gwasanaethau Ieuenctid, gan weithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod y gwasanaeth yn adlewyrchu gofynion y dyfodol.

# Sut Rydym yn Gwneud yr hyn a Wnawn

## A. Ein Gweithlu, a sut rydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol

Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol gysylltiadau ardderchog ac maent yn gweithio'n agos iawn gyda'r Uned Datblygu Gweithlu sy'n rheoli grant **Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru** (y SCWWDP) i roi cyfleoedd Hyfforddi a Datblygu i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Bartneriaeth Gofal Cymdeithasol ehangach ar Ynys Môn.

Caiff blaenoriaethau Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol eu hystyried wrth gynllunio cyfleoedd datblygu ar gyfer y gweithlu a byddir yn achub ar bob cyfle i weithio mewn partneriaeth â'n Hawdurdodau Lleol cyfagos, y GIG ac Asiantaethau eraill er mwyn gwireddu'r cynllun. Mae'r meysydd blaenoriaeth allweddol a gefnogir wedi'u nodi yng **Nghylchlythyr Blynyddol Gofal Cymdeithasol Cymru.**

**Nodir Meysydd Blaenoriaeth a Heriau/Llwyddiannau Allweddol isod:**

- **Platfform System Rheoli Dysgu (LMS) – Cronfa Ddysgu**
  Mae'r defnydd o'r modiwlau E-Ddysgu, y broses Sgwrs Datblygu Blynyddol a system archebu ar-lein wedi parhau i gael ei hyrwyddo fel un o'r dulliau dysgu allweddol fel y dangosir gan y 622 o fodiwlau e-ddysgu (gofal cymdeithasol penodol) a gwblhawyd. At hyn, cwblhaodd ein Hadran 231 Sgwrs Datblygu Blynyddol drwy'r system.

Cwblhawyd ADC gan ein Hadran drwy'r system.

- **Lleoliadau Myfyrwyr a Chyfleoedd Hyfforddeion**
  Rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth agos â Phrifysgol Bangor i groesawu myfyrwyr MA Gwaith Cymdeithasol. Trefnwyd wyth lleoliad eleni o amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys y trydydd sector.

  Rydym wedi parhau i gefnogi ein hyfforddeion MA Gweithiwr Cymdeithasol a hoffem longyfarch un o'r hyfforddeion a gymhwysodd yn yr haf ac a ddechreuodd yn ei rôl fel gweithiwr cymdeithasol newydd gymhwyso yn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd. Rydym wedi penodi pum Gweithiwr Cymdeithasol newydd gymhwyso eleni ac yn eu cefnogi yn ystod eu Tair Blynedd Gyntaf o Ymarfer.

  Mae saith aelod o staff wedi cwblhau Rhaglen Gadarnhau Gwaith Cymdeithasol Porth Agored yn llwyddiannus yn ystod 2023/24 ac mae wyth ymarferydd arall wedi cofrestru.

  Hysbysebwyd rhagor o gyfleoedd datblygu i staff mewnol gwblhau'r rhaglen BA Gwaith Cymdeithasol drwy'r Brifysgol Agored. Bellach mae gennym saith aelod o staff wedi cofrestru ar y rhaglen BA Gwaith Cymdeithasol.

  Mae'r ddau **hyfforddai Therapi Galwedigaethol** wedi llwyddo yn eu Lleoliadau ac wedi symud ymlaen i'w blwyddyn astudio nesaf. Maent yn parhau i weithio gyda'r Tîm Adnodd Cymunedol Oedolion gan ennill profiad gwerthfawr.

## Rhaglen Camau i Ofal

Mae Camau at Ofal yn rhaglen lleoliad gwaith sydd ar gael i Fyfyrwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2 a Lefel 3 yng Ngholeg Menai, Llangefni. Rhoddir cyfle i fyfyrwyr wneud cais am y lleoliadau hyn fel pe baent yn gwneud cais am swydd wag ac mae'r ceisiadau hyn wedyn yn cael eu rhoi ar restr fer i roi profiad gwaith i'r ymgeisydd gorau. Mae hyn yn rhoi profiad realistig i'r myfyriwr wrth wneud cais am swyddi gwag a rhoddir adborth ar y cais a gyflwynwyd ganddynt. Yn ystod blwyddyn academaidd 2023/2024, roedd pedwar myfyriwr Lefel 2, pum myfyriwr Blwyddyn 1 Lefel 3 a thri myfyriwr Blwyddyn 2 Lefel 3 yn llwyddiannus yn eu cais a'u lleoliad.

- **Gofalwyr Maeth**
  Trefnwyd rhaglen lawn o ddigwyddiadau hyfforddi, gyda thua 13 o gyrsiau wedi'u trefnu yn ogystal â nifer o sesiynau partneriaeth ar y cyd ag Awdurdod cyfagos. Parhau i weithio'n llwyddiannus iawn oedd mynediad hyblyg i hyfforddiant ac roedd modd cael at fodiwlau oedd wedi'u targedu'n benodol, gyda chyfanswm o 75 o fodiwlau'n cael eu neilltuo. Mae gofalwyr maeth hefyd wedi cael mynediad at blatfform e-ddysgu CSYM a gallant gael mynediad at fodiwlau e-ddysgu perthnasol. Cânt eu hannog i archebu lle ar gyfer hyfforddiant trwy ein system archebu ar-lein a adwaenir hefyd fel Hwb Dysgu Gofalwyr Maeth. Mae aelodau'r Tîm Maethu wedi cael mynediad at ddangosfwrdd rheolwyr, lle gallant weld pa gyrsiau y mae pob Gofalwr Maeth wedi'u cwblhau a phryd.

- **Cefnogaeth i Gofrestru**
  Cynigiwyd yn llwyddiannus ar-lein sesiynau penodol i gefnogi staff gyda chofrestru yn ogystal â gwaith datblygu rhaglen gymorth Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan. Roedd y rhaglen yn cynnwys nifer o weithdai oedd yn ymdrin â chynnwys llyfrau gwaith (Gwerthoedd ac Egwyddorion; Iechyd a Lles; YmarferProffesiynol ac Iechyd a Diogelwch).

- **Cymwysterau Proffesiynol**
  Yn rhan o strategaeth Cynllunio Gweithlu'r Awdurdod, mae staff wedi'u hannog a'u noddi i ymgymryd â chymwysterau ychwanegol.

  Er mwyn sicrhau bod gennym ddigon o leoliadau i gynnig myfyrwyr gwaith cymdeithasol, rydym wedi parhau i gefnogi gweithwyr cymdeithasol i ennill eu cymhwyster Addysgwr Ymarfer. Bu llawer o ddiddordeb ac, ar hyn o bryd, mae gennym naw gweithiwr cymdeithasol yn y broses o gwblhau'r cymhwyster.

  Mae pedwar ymarferwr wedi cwblhau Rhaglen Datblygu'r Rheolwr Tîm yn llwyddiannus ac mae chwe ymarferydd arall wedi cofrestru ac mae disgwyl iddynt orffen y cwrs eleni.

  Mae dau Ymarferydd wedi cofrestru gyda'r **Rhaglen Datblygu Rheolwyr Canol.**

  Rydym yn parhau i gefnogi staff sy'n cyflawni rôl **Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol** i gwblhau Tystysgrif Addysg Uwch mewn Ymarfer Gofal Cymdeithasol (Cymru) drwy'r Brifysgol Agored. Cwblhaodd saith y Dystysgrif Addysg Uwch yn ystod 2023/24, mae saith yn parhau. Dechreuodd pedwar arall ar y cwrs yn ystod 2023.

  Mae pedwar aelod o staff yn cwblhau cymwysterau **Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol.**
  2 x Diploma BTEC Arwain Ymarfer mewn Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol
  2 x Tystysgrif BTEC mewn Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol

## Fframwaith Credydau a Chymwysterau

Yn rhan o'u cofrestriad a/neu i gefnogi strategaeth cynllunio gweithlu'r gwasanaeth:

- Mae 14 aelod o staff yn dilyn Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2 ar hyn o bryd
- Mae chwech ar hyn o bryd yn dilyn Iechyd a Gofal Cymdeithasol Plant a Phobl Ifanc Lefel 3
- Deg yn dilyn Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3 ar hyn o bryd
- Dau yn gwneud Paratoi ar gyfer Rheolaeth mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 4 ar hyn o bryd
- Mae un yn dilyn Rheolaeth mewn Gofal Lefel 5 ar hyn o bryd
- Pump wedi cwblhau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3
- Un wedi cwblhau Paratoi ar gyfer Arweinyddiaeth Lefel 4

- **Diogelu**
  Yn ogystal â'r ddarpariaeth arferol o sesiynau Diogelu Cyffredinol a gynigir i'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol (a fydd bellach yn Grwp B), mae ystod o gyrsiau arbenigol ychwanegol, hefyd, wedi'u hyrwyddo, megis Gofyn a Gweithredu, cam-drin ariannol – amddiffyn oedolion mewn perygl, Deddf Galluedd Meddyliol, Celcio a Chaethwasiaeth Fodern. Mae sesiynau wedi'u teilwra ar gyfer timau penodol, hefyd, wedi'u cyflwyno gan y Tîm Diogelu.



## B. Ein Hadnoddau Ariannol a Sut rydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

**Fel mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi wynebu pwysau ariannol sylweddol yn 2023/24, ond rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaethau yn ystod y cyfnod anodd hwn.**

Ar ddiwedd cyfnod y flwyddyn, adroddodd ein Gwasanaethau Plant a Theuluoedd orwariant o £1,399k ar y Gwasanaethau Plant, tra bod ein Gwasanaethau Oedolion wedi nodi tanwariant o £(519k).

Mae'r gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal wedi gorwario £1,713k. Mae hwn yn wasanaeth sy'n cael ei arwain gan alw ac wrth i ni barhau i ddatblygu ein darpariaeth Cartrefi Clyd bydd angen i ni bob amser gael mynediad at y ddarpariaeth fwy arbenigol. Mae cost wythnosol gyfartalog lleoliadau y tu allan i'r sir wedi cynyddu o £6,326.92 yn 2022-23 i £6,547.85 2023-24.

Mae maes Cymorth i Deuluoedd wedi gorwario £132k, gyda £96k ohono yn ymwneud â 'Pan Fydda i'n Barod', darpariaeth lle mae person ifanc mewn gofal maeth yn aros gyda'u cyn ofalwr maeth y tu hwnt i 18 oed. Mae hwn yn wasanaeth statudol, sy'n cael ei arwain gan alw ac mae'r maes hwn wedi gweld cynnydd yn y galw yn ystod 2023-24.

Roedd tanwariant o £(265k) ar Reolaeth a Chymorth Gwasanaethau Oedolion ar ddiwedd y flwyddyn, mae hyn yn bennaf oherwydd swyddi gwag a chyfraniadau tuag at swyddi a ariennir gan grantiau amrywiol.

Mae Gofal Preswyl i Bobl Hŷn wedi tanwario £(191k) erbyn diwedd y flwyddyn, ac mae Gofal Nyrsio i Bobl Hŷn wedi gorwario £232k erbyn diwedd y flwyddyn.

Anabledd Corfforol – gorwariant o £501k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn ar ôl gwneud cais am £(322k) o'r Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol o £(75k) o'r Gronfa Wrth Gefn Pwysau Gofal Cymdeithasol.

Anableddau Dysgu – gorwariant o £105k erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn ar ôl cymhwyso £(332k) o'r Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol o £(68.7k) o'r Gronfa Wrth Gefn Pwysau Gofal Cymdeithasol. Ac mae gofal preswyl sy'n gysylltiedig ag anableddau dysgu wedi gorwario £236k. Unwaith eto, mae hwn yn wasanaeth sy'n cael ei arwain gan alw ac mae'n bennaf yn lleoliadau cost uchel, nifer isel.



Gyda chwyddiant yn parhau i fod yn uwch na'r disgwyl, mae disgwyl y bydd y Cyflog Byw Gwirioneddol yn codi'n gynt na'r hyn a ragwelwyd yn y cynllun ariannol tymor canolig. Gallai hyn arwain at bwysau ariannol ychwanegol yn 2024/2025 a thu hwnt.

Gan edrych i'r dyfodol rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr Cyllid yn gweithio ar ragamcanu'r galw a'r costau dros y 10 mlynedd nesaf, er mwyn nodi'r galwadau tebygol a gollir a fydd ar yr awdurdod.

Rydym yn bwriadu cynnal ymarfer cyllidebau ar sail sero yn ystod 2024-25, gyda'r nod o gysoni'r cyllidebau cymaint â phosibl. Dylai hyn, ynghyd â chyllideb ychwanegol i fodloni lefel y galw, olygu bod y gwariant gwirioneddol yn cyd-fynd yn agosach â'r gyllideb wrth symud ymlaen.

| Gwasanaethau | Cyllideb £ | Gwirioneddol £ | Gwahaniaeth £ |
|---|---|---|---|
| **GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD** | 13,123 | 14,522 | (1,399) |
| **GWASANAETHAU OEDOLION** | | | |
| • PÔBL HYN | 12,001 | 12,303 | 302 |
| • ANABLEDDAU CORFFOROL | 2,683 | 3,185 | 502 |
| • ANABLEDDAU DYSGU | 8,781 | 8,886 | 105 |
| • IECHYD MEDDWL | 2,773 | 2,836 | 63 |
| • GWASANAETHAU CYMORTH | 1,627 | 1,362 | (265) |
| • UNED DDARPARU (GOFAL MÔN/ GWASANAETHAU ERAILL) | 7,728 | 6,502 | (1,226) |
| **CYFANSWM** | **35,593** | **35,704** | **(519)** |

## C. Gweithio mewn Partneriaeth, ein Harweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Gwaith Llywodraethu a'n Hatebolrwydd

Mae **llywodraethu gwleidyddol** o fewn y Cyngor wedi parhau i fod yn gadarn yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae hi wedi bod yn gyfnod o gydgrynhoi yn dilyn yr etholiadau lleol ym Mai 2022. Mae strwythur y pwyllgorau a phanelau wedi bod yn fodd i roi cefnogaeth glir a chyson i'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd a chraffu penodol ar gynnydd.

| | Anwytho | Datganiadau Ariannol | Cwynion | Rheoli Trysorlys | Deall Cyfrifon Awdurdod Lleol i Gynghorwyr | Sgiliau Cadeirio Effeithiol | Atal Twyll a Llygredd | Rheoli Risg | Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol | Ymwybyddiaeth Seiber[7] | Ymwybyddiaeth Diogelwch Cyffredinol | Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol | Atal** | Caethwasiaeth Fodern** | Cyfanswm Presenoldeb /Cwblhau |
| **Mr Dilwyn Evans (LM)* (Cadeirydd)** | 23/06/22 | 13/07/22 | 09/09/22 | 14/09/22<br>15/09/23 | 22/06/23 | 17/10/23 | 04/12/23 | 13/03/24 | 05/09/22 | 12/05/22 | - | Opsiynol | 12/09/19 | Opsiynol | **92%** |
| **Cyngh Eurfyn Morris (Dirprwy Gadeirydd)** | 23/06/22 | 13/07/22 | 09/09/22 | 14/09/22<br>15/09/23 | - | 11/10/23 | - | - | 07/09/22 | 18/05/22 | 20/09/22 | 12/06/22 | 12/06/22 | 07/09/23 | **79%** |
| **Cyngh Geraint Bebb** | 23/06/22 | 13/07/22 | 09/09/22 | Ymddiheuriadau | 24/08/23 | - | 04/12/23 | - | 16/11/23 | 12/05/22 | 27/11/23 | 29/09/22 | 19/05/24 | 19/05/24 | **79%** |
| **Cyngh Neville Evans** | 23/06/22 | Ymddiheuriadau | 09/09/22 | 14/09/22 | - | - | - | - | 06/09/22 | 11/05/22 | 20/09/22 | Heb ddechrau | Heb ddechrau | Heb ddechrau | **43%** |
| **Cyngh Dyfed Wyn Jones** | 23/06/22 | 13/07/22 | Ymddiheuriadau | Absennol | - | - | - | - | 06/09/22 | 11/05/22 | 26/09/22 | Heb ddechrau | Heb ddechrau | Heb ddechrau | **36%** |
| **Mr William Parry (LM)*** | Ymddiheuriadau | Absennol | 09/09/22 | Absennol | - | 17/10/23 | - | - | - | - | - | Opsiynol | Opsiynol | Opsiynol | **18%** |



[7] Roedd ymwybyddiaeth seibr yn rhan o hyfforddiant rhagarweiniol ar gyfer carfan newydd y Cyngor ym mis Mai 2022.
*Aelodau Lleyg.
**Opsiynol ar gyfer aelodau lleyg.

| | Penodol i'r Pwyllgor | | | | | | | | Mandadol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Anwytho | Datganiadau Ariannol | Cwynion | Rheoli Trysorlys | Deall Cyfrifon Awdurdod Lleol i Gynghorwyr | Sgiliau Cadeirio Effeithiol | Atal Twyll a Llygredd | Rheoli Risg | Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol | Ymwybyddiaeth Seiber[7] | Ymwybyddiaeth Diogelwch Cyffredinol | Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol | Atal** | Caethwasiaeth Fodern** | Cyfanswm Presenoldeb /Cwblhau |
| **Cyngh Keith Roberts** | 23/06/22 | 13/07/22 | 09/09/22 | 14/09/22 | - | - | 04/12/23 | - | 7/09/22 | 11/05/22 | 20/09/22 | Heb ddechrau | Heb ddechrau | Heb ddechrau | **57%** |
| **Cyngh Margaret M. Roberts** | 23/06/22 | Ymddiheuriadau | (21/07/21) | 15/09/23 | - | - | 04/12/23 | - | 15/11/23 | 11/05/22 | 20/09/22 | Heb ddechrau | Heb ddechrau | Heb ddechrau | **50%** |
| **Ms Sharon Warnes (LM)*** | 23/06/22 | 13/07/22 | 09/09/22 | 14/09/22 | - | 17/10/23 | 04/12/23 | 19/03/24 | 19/10/22 | 12/05/22 | - | Opsiynol | Opsiynol | Opsiynol | **82%** |
| **Mr Michael Wilson (LM)*** | 23/06/22 | 13/07/22 | 09/09/22 | 14/09/22<br>15/09/23 | 22/06/23 | 11/10/23 | 04/12/23 | 19/03/24 | 22/02/19 | 12/05/22 | - | 21/12/17 | Opsiynol | Opsiynol | **92%** |
| **Cyngh Liz Wood** | 23/06/22 | 13/07/22 | Absennol | Absennol | - | - | - | 19/03/24 | 16/11/23 | 11/05/22 | 27/11/23 | Heb ddechrau | Heb ddechrau | Heb ddechrau | **43%** |
| **Cyngh Trefor Lloyd Hughes** | 11/05/22 | - | - | - | - | - | - | - | 16/11/23 | 11/05/22 | 27/11/23 | Heb ddechrau | Heb ddechrau | Heb ddechrau | **29%[8]** |
| **Cyngh Ieuan Williams** | 11/05/22 | - | - | - | - | - | 04/12/23 | - | Ymddiheuriadau | 11/05/22 | 20/09/22 | Heb ddechrau | Heb ddechrau | Heb ddechrau | **29%[8]** |
| **Cyfanswm** | **12/13 (92%** | **8/13 (62%)** | **9/13 (69%)** | **7/13 (54%)** | **3/13 (23%)** | **5/13 (39%)** | **7/13 (54%)** | **4/13 (31%)** | **11/13 (85%)** | **12/13 (92%)** | **9/13 (69%)** | **3/13 (23%)** | **3/13 (23%)** | **2/13 (15%)** | |

[8] Ni ymunodd y Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes a Ieuan Williams tan fis Mehefin 2023.

# Atodiad C – Crynodeb o Ganlyniad y Cyfarfod

| Dyddiad | Canlyniad y Cyfarfod |
|---|---|
| **23 Mai 2023** | Etholodd y Pwyllgor Mr Dilwyn Evans yn Gadeirydd a'r Cynghorydd Euryn Morris yn ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. |
| **29 Mehefin 2023** | Trafododd y Pwyllgor naw eitem o bwys.<br><br>Cafwyd diweddariad am gynnydd y Cyngor tuag at gyflawni ei darged sero-net, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddata a gostyngiadau allyriadau carbon. Cyflwynwyd dangosfwrdd allyriadau carbon, gan fanylu ar allyriadau o wahanol ffynonellau fel ysgolion a chyfleusterau'r cyngor. Roedd y trafodaethau'n cynnwys effaith mesurau ynni-effeithlon ac effeithiolrwydd adeiladau newydd y Cyngor o ran cyflawni statws sero-net. Cytunodd y Pwyllgor i dderbyn diweddariadau blynyddol ar gynnydd tuag at sero-net.<br><br>Cyflwynwyd adroddiad hunanasesiad blynyddol y Cyngor ar gyfer 2022/23, a oedd yn tynnu sylw at berfformiad y Cyngor a meysydd i'w gwella. Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth ychwanegol i gymharu â blynyddoedd blaenorol ac enghreifftiau i gefnogi gwybodaeth am berfformiad.<br><br>Nododd y Pwyllgor Gynllun Archwilio Amlinellol Archwilio Cymru ar gyfer 2023 a derbyniodd y wybodaeth ddiweddaraf am eu rhaglen waith. Esboniwyd newidiadau i waith archwilio yn sgil newidiadau i ISA 315, gan effeithio ar weithdrefnau asesu risg cyn archwiliad.<br><br>Trafododd y Pwyllgor ddwy eitem yn ymwneud ag Archwilio Mewnol, gan dderbyn sicrwydd yn dilyn asesiad ansawdd allanol o gydymffurfiaeth y Cyngor â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, yn ogystal â nodi Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2022-23 a oedd yn cynnwys barn flynyddol y Pennaeth Archwilio a Risg ar ddigonolrwydd rheoli risg, llywodraethiant y Cyngor, a'r fframwaith rheoli.<br><br>Roedd Adroddiad Yswiriant Blynyddol yn manylu ar drefniadau yswiriant a thueddiadau hawliadau. Cymeradwyodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2022-23 a thrafododd y trefniadau ar gyfer cynnal hunanasesiad o'i berfformiad i'w hwyluso gan CIPFA.<br><br>Cymeradwyodd y Pwyllgor y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer 2023-24. |
| **27 Gorffennaf 2023** | Trafododd y Pwyllgor bedair eitem o bwys.<br><br>Rhoddodd ystyriaeth i gynllun archwilio manwl Archwilio Cymru ar gyfer 2023 yn ymwneud ag archwilio ariannol a pherfformiad, gwaith ardystio grantiau ac adroddiadau archwilio. Wrth nodi'r adroddiad, cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch y cynnydd yn y ffi archwilio o ganlyniad i ofynion ychwanegol a osodwyd gan y safon archwilio ISA 315.<br><br>Ar ôl ystyried a thrafod cymeradwyodd y Pwyllgor y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2022-23 a fydd yn ffurfio rhan o Ddatganiad Cyfrifon 2022-23.<br><br>Wrth graffu ar Ddatganiad Cyfrifon drafft 2022-23, cyfeiriodd y Pwyllgor at gymhlethdod adroddiadau ariannol a gofynnodd am gynnwys crynodeb o brif bwyntiau'r cyfrifon ar wefan y Cyngor. Roedd trafodaethau hefyd yn canolbwyntio ar dueddiadau ariannol, prisio asedau, rheoli dyledion, ac effaith cyfraddau llog.<br><br>Derbyniodd y Pwyllgor y newidiadau arfaethedig i'w Rhaglen Waith i'r Dyfodol 2023-24. |

| Dyddiad | Canlyniad y Cyfarfod |
|---|---|
| **21 Medi 2023** | Ystyriodd y Pwyllgor wyth eitem o bwys.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i ddau adroddiad yn ymwneud â phryderon a chwynion a wnaed am y Cyngor; Adroddiad Blynyddol Pryderon, Cwynion a Chwythu'r Chwiban 2022-23 a Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) 2022-23. Nododd y Pwyllgor y ddau adroddiad, cefnogwyd y bwriad i weithredu Polisi Enghreifftiol yr OGCC a datblygu asesiad a strategaeth anghenion hyfforddi cwynion, a gofynnodd i'r Tîm Arweinyddiaeth adolygu hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid y Cyngor,<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor ddau adroddiad Archwilio Cymru, gan dderbyn diweddariad am gynnydd gwaith archwilio ariannol a pherfformiad a nododd ganfyddiadau archwiliad Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru yn ogystal ag ymatebion y Cyngor i argymhellion a wnaed o ganlyniad i'r gwaith hwn.<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor Adolygiad Blynyddol Rheoli Trysorlys 2022-23. Wrth wneud hynny, adolygwyd gwaith rheoli trysorlys gan gynnwys rheoli dyledion a buddsoddiadau, derbyniwyd crynodeb o ganlyniadau ariannol a dangosyddion darbodus a thrafodwyd gwariant cyfalaf a chymhlethdodau adroddiadau ariannol. Nododd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad ac fe'i anfonwyd ymlaen i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.<br><br>Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad am waith Archwilio Mewnol yn ogystal â blaenoriaethau'r gwasanaeth yn y dyfodol. Nododd hefyd gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â materion/risgiau sy'n weddill a nodwyd o ganlyniad i waith archwilio mewnol.<br><br>Roedd y Pwyllgor yn fodlon derbyn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y'i cynigiwyd a nododd unrhyw newidiadau. |
| **7 Rhagfyr 2023** | Ystyriodd y Pwyllgor wyth prif eitem.<br><br>Ystyriodd y cynnydd a wnaed gan ysgolion o ran cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, cymeradwywyd Cynllun Diogelu Data Ysgolion a gwnaed cais i gopi o'r ddogfen Canllawiau Diogelu Data i lywodraethwyr ysgol gael ei ddosbarthu i'r holl aelodau etholedig.<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor y Datganiad Cyfrifon terfynol 2022-23 ac Adroddiad ISA 260 Archwilio Allanol. Yn dilyn trafodaethau ynghylch heriau ariannol ar gyfer y blynyddoedd i ddod, gan gynnwys cynnydd posibl yn y gyllideb a goblygiadau materion RAAC, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn Datganiad Terfynol y Cyfrifon, cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a nodi Adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru ar y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2022-23 cyn i'r Cyngor llawn eu derbyn.<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-23 a nododd y gweithgaredd a gyflawnwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd o fewn y Cyngor neu yn ei erbyn. Nododd hefyd adroddiad Canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) a chafwyd sicrwydd fod y Cyngor yn defnyddio data a ddadansoddwyd a ddarperir gan yr NFI i gryfhau ei waith i atal a chanfod twyll.<br><br>Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad am waith Archwilio Mewnol, gan gynnwys ei flaenoriaethau wrth symud ymlaen. Hefyd rhoddodd ystyriaeth i adroddiad yn manylu ar y newidiadau i'r Gofrestr Risg Strategol er mwyn sicrhau ei fod yn fwy cyson â Chynllun newydd y Cyngor 2023-28.<br><br>Nododd y Pwyllgor adroddiad diweddaru chwarterol Archwilio Cymru ar 30 Medi 2023, yn manylu ar gynnydd archwilio ariannol a pherfformiad ac yn cynnwys gwaith gan Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru.<br><br>Roedd yn fodlon derbyn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y'i cynigiwyd, trafodwyd cynnydd gyda'r ymarferion hunanasesu a hwylusir gan CIPFA a gwnaed cais i holiadur asesu anghenion hyfforddi'r Pwyllgor gael ei ddosbarthu i aelodau. |

| Dyddiad | Canlyniad y Cyfarfod |
|---|---|
| **8 Chwefror 2024** | Trafododd y Pwyllgor 11 prif eitem.<br><br>Ystyriodd ddau adroddiad yn ymwneud â llywodraethu gwybodaeth, derbyniwyd adroddiad blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) ar gyfer 2022-23 ac ystyriwyd canlyniadau ymchwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i ddigwyddiad seiber 2021 yn Ysgolion Uwchradd y Cyngor. Derbyniodd y pwyllgor y ddau adroddiad gan gynnwys argymhellion y SIRO ar gyfer asesu risg diogelu data ymhellach wrth weithio mewn partneriaeth a bygythiadau seiber wrth reoli a chaffael contractau.<br><br>Cymeradwyodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2022-23, cefnogwyd y cynllun strategol ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch a gweithredu'r Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Gwnaed cais i gynnwys camau gweithredu ychwanegol ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys ymgorffori data digwyddiadau cyn COVID mewn adroddiadau yn y dyfodol, manylu ar gwympiadau mewn cartrefi gofal ar wahân, a darparu data ar hawliadau a chostau yswiriant.<br><br>Ar ôl eu hystyried, nododd y Pwyllgor ddau adroddiad yn ymwneud â Rheoli Trysorlys; adolygiad canol blwyddyn 2023-24 yn ogystal â Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2024-25.<br><br>Fe'i diweddarwyd am ganlyniad gwaith Archwilio Mewnol yn ogystal ag adroddiad yn amlinellu canlyniadau'r Archwiliad Iechyd Rheoli Risg a gynhaliwyd gan Zurich Resilience Solutions. Penderfynodd y Pwyllgor gymeradwyo'r camau a gynigiwyd i fynd i'r afael ag argymhellion Zurich.<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor ddau adroddiad gan Archwilio Cymru, adolygiad o Strategaeth Ddigidol y Cyngor a'i ddefnydd o Wybodaeth Perfformiad. Nododd y ddau adroddiad a derbyniodd ymateb y Cyngor i'r argymhellion a wnaed.<br><br>Derbyniodd y Pwyllgor y newidiadau arfaethedig i'w Flaenraglen Waith 2023-24.<br><br>Mewn sesiwn breifat, gohiriodd y Cadeirydd roi ystyriaeth i adroddiad Seiberddiogelwch Blynyddol 2023-24, oherwydd fod rhai aelodau'n cael trafferth cyrchu'r adroddiad cyn y cyfarfod. |
| **18 Ebrill 2024** | Trafododd y Pwyllgor 10 prif eitem.<br><br>Trafododd y Pwyllgor bedair eitem yn ymwneud ag Archwilio Mewnol. Roedd Diweddariad Archwilio Mewnol yn canolbwyntio ar archwiliadau a gwblhawyd a rhai'n parhau, gyda thrafodaethau ar faterion yn cynnwys adennill dyledion a gweinyddu grantiau cyfleusterau i'r anabl. Codwyd pryderon am ddiffyg gwybodaeth gyd-destunol mewn adroddiadau archwilio a'r modd yr ymdrinnir â dyled ar fantolen y Cyngor. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad hefyd ar gynnydd o ran gweithredu Materion a Risgiau sy'n weddill ac roedd yn fodlon cymeradwyo'r Strategaeth ar gyfer 2024-25 a'r Siarter cysylltiedig.<br><br>Trafododd y Pwyllgor ganlyniad adolygiad CIPFA o'i effeithiolrwydd a chymeradwyodd y camau a gynigiwyd i fynd i'r afael â 10 argymhelliad CIPFA. Trafododd y Pwyllgor amrywiol bwyntiau, gan gynnwys paratoi logiau gweithredu, gwahaniaethau mewn adroddiadau wedi'u cyfieithu, a'r angen am fwy o adborth ar berfformiad y Pwyllgor o'r rheolwyr.<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rhaglen ar y cynnydd o ran gweithredu argymhellion a wnaed gan Archwilio Cymru yn ystod eu Hadolygiadau Cenedlaethol a gwnaed cais i adroddiadau yn y dyfodol fod yn fwy cryno. |

| Dyddiad | Canlyniad y Cyfarfod |
|---|---|
| | Rhoddodd Archwilio Cymru ddiweddariad ar ei raglen waith a'i amserlen ar gyfer ei waith ariannol a pherfformio, a chanlyniad ei waith a wnaed yn ystod 2023. Gwnaed cais gan y Pwyllgor i gynnwys adroddiad eglurhaol i gyd-fynd ag adroddiadau yn y dyfodol a oedd yn nodi pwrpas pob adroddiad a'r disgwyliadau ar y Pwyllgor sy'n ei ystyried.<br><br>Roedd y Pwyllgor yn fodlon derbyn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y'i cynigiwyd.<br><br>Daeth y cyfarfod i ben gan wahardd y wasg a'r cyhoedd tra thrafodwyd yr adroddiad seiberddiogelwch blynyddol, a oedd yn pwysleisio'r heriau a wynebir a'r camau lliniaru sydd yn eu lle. Gwnaed cais gan y Pwyllgor fod adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys achosion lle ymosodwyd ar ddulliau'r Cyngor i sicrhau diogelwch seiber, ynghyd â'r camau unioni a gymerwyd.<br><br>Yn dilyn y cyfarfod, cyfarfu aelodau'r Pwyllgor yn breifat gydag archwilio mewnol ac allanol, heb i swyddogion fod yn bresennol. Cafwyd trafodaeth fuddiol, a gofynnodd y Pwyllgor i hyn fod yn ddigwyddiad blynyddol yn y dyfodol. |

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 26 Medi 2024 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/2024 |
| **ADRODDIAD GAN:** | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro (est 2568)<br>lbxcs@ynysmon.llyw.cymru |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Cyflwyno adroddiad blynyddol statudol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor Sir |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Mared Wyn Yaxley<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Dirprwy Swyddog Monitro<br>mwycs@ynysmon.llyw.cymru |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Pwyllgor Safonau'n bwyllgor statudol sy'n gyfrifol am hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Gynghorwyr Sir Ynys Môn a'r Cynghorwyr Tref a Chymuned yn yr ardal, gan eu cynorthwyo i ddilyn eu Côd Ymddygiad.

1.2 Mae gofyn statudol i'r Pwyllgor Safonau gyflwyno adroddiad blynyddol cyn gynted â bo modd ar ddiwedd blwyddyn ariannol i'r Cyngor. Rhaid i'r adroddiad egluro sut mae'r Pwyllgor wedi bodloni ei swyddogaethau statudol yn ystod y cyfnod perthnasol.

1.3 Mae'r adroddiad atodol wedi ei chyflwyno a'i chytuno gan y Pwyllgor Safonau.

## 2. Argymhelliad

2.1 Bod Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023-2024 yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Sir i'w gymeradwyo o fewn tri mis o'i dderbyn.

2.2 Bod y Cyngor yn cymeradwyo Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2024/2025 (Atodiad 3 i'r Adroddiad) gan dderbyn y gallai materion ychwanegol gael eu cynnwys, yn unol â'r galw.

# Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Safonau: 2023-2024

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

# CYNNWYS


| Adran | Teitl |
|---|---|
| 1 | Rhagair |
| 2 | Aelodaeth y Pwyllgor |
| 3 | Cyflawniadau'r Pwyllgor yn ystod 2023/2024 |
| 4 | Edrych ymlaen i 2024/2025 |

| ATODIADAU | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Rôl a chyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau |
| Atodiad 2 | Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023-2024 gyda manylion gweithredu wedi eu nodi |
| Atodiad 3 | Rhaglen Waith arfaethedig y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2024-2025 |
| Atodiad 4 | Newyddlen y Pwyllgor Safonau at y Cynghorau Tref a Chymuned – rhifyn 5 (Hydref 2023) |
| Atodiad 5 | Newyddlen y Pwyllgor Safonau at y Cynghorau Tref a Chymuned – rhifyn 6 (Ebrill 2024) |
| Atodiad 6 | Newyddlen y Pwyllgor Safonau at y Cynghowyr Sir – rhifyn 5 (Medi 2023) |
| Atodiad 7 | Newyddlen y Pwyllgor Safonau at y Cynghorwyr Sir – rhifyn 6 (Ebrill 2024) |
| Atodiad 8 | "Cwrdd â'r Pwyllgor Safonau" – Ebrill 2024 |
| Atodiad 9 | Ffurflen Arweinyddion Grwpiau ar gyfer adrodd ynghylch eu dyletswydd fel Arweinydd Grŵp 2023/2024 |


Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

## 1. Rhagair

**Rhys Davies**
**Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (Chwefror 2024)**



Derbyniais y swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor yn Chwefror 2024, yn dilyn bod yn Is-gadeirydd ers Ionawr 2020. Y cyn-Gadeirydd oedd John R Jones ac mae'r diolch am ran helaeth y gwaith gaiff sylw yn yr adroddiad hwn felly'n adlewyrchiad o'i ymroddiad a'i arweiniad o. Hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch, ar ran aelodau'r Pwyllgor, am waith John fel Cadeirydd dros y 4 mlynedd diwethaf. Mae John yn parhau fel aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau ac rydym yn falch iawn o'i gyfraniad gwerthfawr.

Mae 9 aelod ar y Pwyllgor Safonau, a cafwyd sawl newid ar aelodaeth y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

- Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i Celyn Menai Edwards a Sharon Warnes am eu cyfraniadau i waith y Pwyllgor, cyn eu hymddiswyddiadau fel aelodau annibynnol yn Hydref 2023 ac Ionawr 2024.
  Yn dilyn proses recriwtio gan Banel Dethol y Pwyllgor Safonau, a diolchir i'r Panel am ei waith, penodwyd dau aelod annibynnol newydd i'w seddi sef Trefor Owen a Brace Griffiths. Mae Trefor wedi ei benodi'n Is-Gadeirydd y Pwyllgor ers Chwefror 2024 a diolchaf iddo am ei gefnogaeth.
- Diolchaf hefyd i'r Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes am ei fewnbwn o yn rhinwedd ei rôl fel un o gynrychiolwyr Aelodau'r Cyngor Sir ar y Pwyllgor. Enwebwyd Cynghorydd Margaret Murley Roberts fel ei olynydd ym Medi 2023 ac mae eisoes wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr.

Mae gwaith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn wedi bod yn amrywiol a phrysur wrth iddo ateb y gofyn statudol o fod yn gyfrifol am hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Gynghorwyr Sir Ynys Môn a'r Cynghorwyr yn y Cynghorau Tref a Chymuned, yn cynnwys cynorthwyo Aelodau i ddilyn eu Cod Ymddygiad.

Cafwyd 3 cyfarfod ffurfiol ynghyd â 7 cyfarfod anffurfiol. Roedd hyn, wrth gwrs, ar ben nifer o sgyrsiau a gynhaliwyd gydag Arweinyddion Grwpiau, aelodau etholedig, ac aelodau a chlercod yn y Cynghorau Cymuned, ac ystyriaethau o'r Protocol Datrysiad Lleol, yn ogystal â sesiynau hyfforddiant. Bu arsylwi mewn cyfarfodydd a chynnal adolygiadau o gofrestrau diddordebau sampl o aelodau'r Cyngor Sir yn rhan sylweddol o'r gwaith, yn ogystal â sicrhau bod negeseuon pwysig am faterion ymddygiad yn derbyn sylw aelodau drwy gyfarfodydd Arweinyddion Grwpiau, Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned a Newyddlenni. Sicrhawyd bod Ynys Môn yn cael ei gynrychioli ar Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol Cymru hefyd. Ceir trosolwg o waith y Pwyllgor yn yr adroddiad hwn a gobeithir bydd y diwyg newydd ar yr adroddiad yn ei gwneud yn fwy hwylus darllen a deall y gwaith gafodd ei gyflawni gan y Pwyllgor Safonau eleni.

Diolchaf yn fawr i aelodau etholedig a chyfetholedig y Cyngor Sir, a'r aelodau a'r Clercod yn y Cynghorau Tref a Chymuned am eu cydweithrediad gyda materion ymddygiad. Mae'r deg egwyddor bywyd cyhoeddus yn glir a chynnwys y Cod Ymddygiad yn aros yn driw i hyn. Gobeithir bod ymdrechion y Pwyllgor yn golygu bod gofynion y Cod yn eglur ar gyfer aelodau, a hynny yn ei dro yn eu cynorthwyo wrth iddynt weithio dros fuddiannau etholwyr yr ardal.

**Rhys Davies (Cadeirydd)**

# 2. AELODAETH Y PWYLLGOR


Mae’r Pwyllgor Safonau’n bwyllgor statudol sydd â 9 aelod. Ceir gwybodaeth am rôl a chyfrifoldebau’r Pwyllgor yn **Atodiad 1**. Mae manylion am y Pwyllgor a’i aelodaeth ar gael yn y fan yma.

(A) Aelodau Annibynnol: Penodir y pum aelod annibynnol am hyd at ddau dymor o bedair mlynedd. Rhaid penodi'r Cadeirydd a’r Is-Gadeirydd o blith yr aelodau annibynnol. Gwneir y penodiadau am gyfnod o bedair mlynedd. Gall unigolyn ei ail-ethol i’r Gadair/fel Is-Gadeirydd.

(B) Aelodau’r Cynghorau Tref a Chymuned: Penodir dau aelod er mwyn cynrychioli’r cynghorau tref a chymuned yn dilyn etholiadau llywodraeth leol. Bydd y cynrychiolwyr yn eistedd ar y Pwyllgor Safonau tan yr etholiadau llywodraeth leol nesaf neu hyd nes nad yw’r unigolion a benodwyd yn aelodau o’r cyngor cymuned mwyach, pa un bynnag sy’n digwydd gyntaf. Gall aelodau cyngor tref a chymuned gael eu hailbenodi am un tymor arall, gyda chytundeb cynghorau tref a chymuned Ynys Môn.

C) Aelodau’r Cyngor Sir: Gwneir penodiadau am ddau gynrychiolydd drwy benderfyniad y Cyngor.

Ceir dolen at swydd ddisgrifiadau aelodau’r Pwyllgor yma.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
|  | Rhys Davies (Cadeirydd) | Aelod Annibynnol |  | Iorwerth Roberts | Cynrychiolydd y Cynghorau Tref a Chymuned |
|  | Brace Griffiths | Aelod Annibynnol |  | Margaret Murley Roberts | Cynrychiolydd y Cyngor Sir |
|  | John R Jones *(Cadeirydd hyd nes Chwefror 2024)* | Aelod Annibynnol |  | Dafydd Rhys Thomas | Cynrychiolydd y Cyngor Sir |
|  | Gill Murgatroyd | Aelod Annibynnol |  | Margaret Thomas | Cynrychiolydd y Cynghorau Tref a Chymuned |
|  | Trefor Owen (Is-Gadeirydd) | Aelod Annibynnol | | | |

Bu Celyn Menai Edwards a Sharon Warnes yn aelodau annibynnol o’r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, hyd nes eu hymddiswyddiadau yn Hydref 2023 ac Ionawr 2024. Penodwyd Trefor Owen a Brace Griffiths i’w seddi yn Hydref 2023 ac Ionawr 2024.

Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes oedd cynrychiolydd y Cyngor Sir ar y Pwyllgor hyd nes ei ymddiswyddiad a phenodiad Cynghorydd Margaret Murley Roberts ym Medi 2023.

## 3. Cyflawniadau’r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn

Dyma drydydd adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau, wedi ei gwblhau yn unol â gofyniad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021,er bod paratoi adroddiad blynyddol yn arfer yn y Cyngor hwn ers sawl blwyddyn. Mae’n adrodd ar waith y Pwyllgor rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024.

Mae Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023-2024 (fel y cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ym Medi 2023) gyda manylion am weithrediad y Pwyllgor yn erbyn yr amcanion hyn yn ystod y flwyddyn wedi eu nodi yn **Atodiad 2.** Fel blynyddoedd eraill, cododd rhai materion na ragwelwyd yn ystod y flwyddyn, ac mae’r manylion am y rhain hefyd wedi eu cynnwys yn yr Atodiad.

Gellir cael mynediad at Raglenni, Adroddiadau a Chofnodion cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor ar dudalen gartref y Pwyllgor Safonau ar wefan y Cyngor – dolen **yma.**

Tynnir sylw penodol at y materion hyn:

- **Cwynion ynghylch aelodau Cyngor Sir / Cynghorau Tref a Chymuned yn Ynys Môn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Cynghorwyr Sir: Derbyniwyd gohebiaeth am 3 achos lle penderfynodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) beidio ymchwilio. Mae 2 achos cyfredol ble mae’r OGCC yn ymchwilio’r materion. Mae’r 2 achos yn ymwneud â 2 Gynghorydd Sir gwahanol.

Cynghorwyr Tref a Chymuned: Derbyniwyd gohebiaeth am 4 achos lle penderfynodd OGCC beidio ymchwilio. Mae 1 achos cyfredol ble mae’r OGCC yn ymchwilio’r mater. Mae’r achosion hyn oll yn ymwneud ag un Cyngor Cymuned yn Ynys Môn ac mae hyn yn destun pryder ar gyfer y Pwyllgor Safonau.

Tra bod 3 achos yn destun ymchwiliad gan OGCC, nid oes unrhyw adroddiadau neu argymhellion wedi eu gwneud neu eu cyfeirio at y Pwyllgor gan OGCC yn ystod y cyfnod hwn. Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau gan Banel Dyfarnu Cymru yn ystod y cyfnod hwn chwaith.

Bydd OGCC, a Phanel Dyfarnu Cymru, yn cyhoeddi crynodeb o achosion gaiff eu hystyried ganddynt ar gyfer Cymru gyfan ar eu gwefannau. Adroddir ar yr achosion hyn yng nghyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Safonau a rhennir crynodeb o’r wybodaeth o fewn y Newyddlenni a gyhoeddir gan y Pwyllgor Safonau.

- **Gwaith gyda Chynghorau Tref a Chymuned yr Ardal.**

Yn ogystal â gwaith y Pwyllgor gyda’r Protocol Datrysiad Lleol (mwy o wybodaeth isod), roedd yn fwriad o fewn Rhaglen Waith y Pwyllgor, ei fod yn cynnal adolygiadau mewn 2 Gyngor Cymuned lle derbyniodd y Pwyllgor bryderon.

- Er y bwriad i gynnal adolygiad yn un o’r Cynghorau yn Haf 2023, gofynnodd Clerc y Cyngor Cymuned ar i'r adolygiad gael ei ohirio ac nid oes dyddiad wedi ei bennu hyd yma, er i gyswllt pellach gael ei wneud.
- Mewn Cyngor Cymuned arall, gwrthododd y Clerc y cynnig am adolygiad ar ran y Cyngor Cymuned. Nid oes rheidrwydd ar gynghorau tref a chymuned i gydymffurfio gyda chynnal

adolygiad ac felly penderfynodd y Pwyllgor na fyddair y mater hwn yn derbyn sylw pellach, oherwydd bod y cyngor cymuned eisoes wedi tynnu ar adnoddau'r Pwyllgor yn ystod 2022/2023.

Mynychodd ddau aelod o'r Pwyllgor Safonau gyfarfod o Gyngor Cymuned arall ar ddechrau 2023 at bwrpas arsylwi. Darparwyd adborth ac ystyriodd yr aelodau fu'n bresennol bod ymddygiad yn y cyfarfod a arsylwyd yn dderbyniol. Mae'n destun pryder bod pum cwyn wedi eu hanfon at swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch aelodau o'r Cyngor Cymuned hwn ar ddechrau 2024.

Mynychodd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau gyfarfodydd o'r Fforwm Cyngor Tref a Chymuned ar 12 Medi 2023 a 6 Chwefror 2024 a rhannwyd Newyddlenni gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned (dogfennau tebyg i'r hyn a rannwyd gydag aelodau'r Cyngor Sir) yn Hydref 2023 ac Ebrill 2024. Mae'r Newyddlenni a anfonwyd at y Cynghorau Tref a Chymuned ar gael yn **Atodiadau 4 a 5** ; a'r Newyddlenni at Aelodau'r Cyngor Sir (etholedig a chyfetholedig) yn **Atodiadau 6 a 7**. Anfonwyd dogfen ychwanegol gyda'r Newyddlenni a anfonwyd ym mis Ebrill - "Cwrdd ag Aelodau Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn". Mae copi ar gael yn **Atodiad 8**. Anogir Aelodau i ddarllen y Newyddlenni hyn, a gofynnir i Arweinyddion Grwpiau atgyfnerthu'r neges hon pan gyhoeddir y rhain ddwywaith y flwyddyn.

Fel rhan o'r gwaith gyda chynghorau tref a chymuned, derbyniodd Gadeirydd y Pwyllgor a'r Cyfreithiwr (Llywodraethant Corfforaethol) wahoddiad ym mis Ionawr 2024 i gyfarfod rhanbarthol o Un Llais Cymru (y sefydliad cenedlaethol sy'n cynrychioli cynghorau tref a chymuned ledled Cymru) er mwyn darparu cyflwyniad ar rôl y Pwyllgor Safonau a'r Swyddog Monitro.

Bwriedir parhau gyda'r cysylltiad â chyfarfodydd y Fforwm. Parheir i gyhoeddi Newyddlen ar gyfer y cynghorau tref a chymuned yn dilyn cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor (ddwywaith y flwyddyn), ond ystyrir cynnwys y Newyddlenni ar gyfer y dyfodol. Teimla'r Pwyllgor bod eu paratoi yn drwm ar adnoddau'r Pwyllgor a'r swyddogion sy'n cefnogi ac nad oes llawer o ymateb wedi ei dderbyn i geisiadau am bynciau/faterion a godir ynddynt.

Mae hi hefyd yn fwriad trefnu hyfforddiant Cod Ymddygiad ar gyfer y cynghorau tref a chymuned ar gyfer y flwyddyn i ddod. Anogir y 40 cyngor tref a chymuned ar yr Ynys i fynychu. Mae'n deg dweud bod y nifer sy'n cymryd rhan yn siomedig, er bod y Pwyllgor yn ddiolchgar i'r Cynghorau Tref a Chymuned hynny sydd wedi ymgysylltu â digwyddiadau hyfforddi blaenorol.

- **Protocol Datrysiad Lleol:**

<u>Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer Aelodau'r Cyngor Sir:</u>
Tra bod rhai pryderon wedi dod i sylw Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn ystod y flwyddyn, nid oedd cais i Gadeirydd y Pwyllgor weithredu o dan drefniadau'r Protocol. Cafodd materion lefel-isel o bryderon am ymddygiad aelodau eu delio'n fewnol drwy brosesau grŵp gwleidyddol.

Atgoffir aelodau bod y Protocol ar gael, er mai gobaith y Pwyllgor, wrth gwrs ydi na fydd ei angen. Atgoffir aelodau am yr egwyddorion hyn petaent yn bwriadu defnyddio'r Protocol Datrysiad Lleol: bod angen codi pryderon mor fuan â phosib wedi'r digwyddiad dan sylw, a bod angen ymdrin â'r mater fel blaenoriaeth a sicrhau eu bod yn rhoi sylw dyledus i'r broses. Credir a bod hyn yn hanfodol er mwyn rhoi'r cyfle gorau i'r drefn fod yn llwyddiannus.

<u>Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer Aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned:</u>

Fel rhan o waith y Pwyllgor yn ystod 2023-2024, datblygwyd Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned, sy'n ychwanegol at y Protocol sydd wedi ei ddatblygu gan Un Llais Cymru. Ni chafodd y Protocol ei ddefnyddio yn y cyfnod ers ei fabwysiadu.

Trefnwyd hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau ar Gyfryngu yn Ionawr 2024, at bwrpas gweithredu'r Protocolau hyn.

- **Cyngor gan y Pwyllgor ar hyfforddiant i Aelodau ac Arweinwyr Grwpiau**

Cyflwynir adroddiadau gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol yng nghyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Safonau sy'n cynnwys ystyried y cynnwys a'r gweithredu sydd wedi ei gyflawni o fewn Rhaglen Hyfforddi Aelodau'r Cyngor. Rhoddir cyfle i'r Pwyllgor roddi ei fewnbwn ar y Rhaglen wrth iddi gael ei datblygu ac ystyried i ba raddau bydd Aelodau'n cymryd rhan â'r Rhaglen Hyfforddi.

Cafodd materion hyfforddiant sylw yn rhan o sgyrsiau'r Pwyllgor gyda'r Arweinyddion Grwpiau yn Haf 2023 ac roedd materion yn ymddangos ar raglen waith y Pwyllgor am eleni oedd yn deillio o'r sgyrsiau hyn, fel y gwelir yn **Atodiad 2**. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud ar y materion hyn ar gyfer rhaglen waith y flwyddyn i ddod, fel gwelir yn **Atodiad 3**, sy'n cynnwys hyfforddiant "coaching" 1-1 ar gyfer yr Arweinyddion Grwpiau eu hunain, a hyfforddiant ar gyfer cadeiryddion sy'n ymwneud â chadeirio cyfarfodydd anodd.

Mae Hyfforddiant ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau'n rhan o Raglen Waith flynyddol y Pwyllgor.

Mae'r Hyfforddiant a gynhaliwyd ar gyfer yr Aelodau yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn cynnwys :

- ***Caniatadau Arbennig***:

- Un o ddyletswyddau'r Pwyllgor ydi ystyried ceisiadau am ganiatadau arbennig er mwyn galluogi aelodau, na allai gymryd rhan mewn trafodaeth neu benderfyniad oherwydd diddordeb personol (rhagfarnol) sylweddol, i weithredu os yw'n disgyn o fewn amgylchiadau a ddiffinnir gan statud.

- Derbyniwyd un cais am ganiatâd arbennig yn ystod y flwyddyn hon ac ystyriwyd y mater gyda'r cyhoedd a'r wasg wedi eu heithrio. Mae dolen at y Gwrandawiad, a'r Prawf Budd Cyhoeddus, ar gael **yma**. Penderfynwyd darparu caniatâd rhannol ar gyfer yr aelod a fyddai'n galluogi iddo gymryd rhan mewn trafodaethau ar ran y Cyngor Cymuned, yn ei swydd fel Cadeirydd, ond nid i bleidleisio. Cyn ystyried y cais (Hydref 2023) derbyniodd aelodau'r Panel (dau aelod annibynnol ac un cynrychiolydd y cynghorau tref a chymuned) hyfforddiant golywi ar ganiatadau arbennig.

- Darparwyd hyfforddiant cyffredinol ar roddi caniatadau arbennig ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau eto yn Ionawr 2024.

- ***Hyfforddiant Cod Ymddygiad***

- Yn dilyn etholiadau Mai 2022, trefnwyd sesiynau hyfforddiant i aelodau'r Cyngor gan y Pwyllgor Safonau. Tra bod mwyafrif yr aelodau etholedig wedi derbyn yr hyfforddiant ar y pryd, roedd 4 aelod nad oedd wedi gallu bod yn bresennol. Trefnwyd sesiynau hyfforddiant ar gyfer y 4 aelod yma mewn 1 sesiwn Gymraeg ac 1 sesiwn Saesneg yn ystod y flwyddyn.

Cafodd un aelod eu hethol ym Mawrth 2023 a threfnwyd bod yr aelod yma hefyd yn derbyn hyfforddiant Cod Ymddygiad. Mae'r 35 aelod etholedig cyfredol wedi derbyn hyfforddiant cod ymddygiad mewn ystafell ddosbarth.

- Trefnwyd hyfforddiant Cod Ymddygiad ar gyfer 3 aelod cyfetholedig y Pwyllgorau Sgriwtini yn ystod y cyfnod hefyd.

- Fel Pwyllgor, credwn ei bod hi'n hanfodol bod pob Aelod yn derbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ac rydym yn siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod yr argymhelliad yn yr Adroddiad Penn y dylai hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad fod yn orfodol i bob Aelod. Cafodd hyn ei gynnwys yn ymateb y Pwyllgor Safonau i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr Adroddiad Penn ym Mehefin 2023.

▪ **Asesiad y Pwyllgor o sut mae Arweinwyr Grŵp wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr eu grwpiau**

Llynedd oedd y tro cyntaf i'r trefniant hwn fod yn rhan o Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau. Diwygiwyd rhywfaint ar y drefn eleni, gan gynnwys y ffurflen a ddefnyddiwyd gan yr Arweinyddion Grwpiau er mwyn adrodd i'r Pwyllgor, cyn bod cyfarfodydd yn cael eu trefnu rhwng aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau a phob Arweinydd Grŵp yn unigol yn ystod Mai a Mehefin 2024, ar gyfer edrych yn ôl ar y flwyddyn ariannol a fu. Mae copi wag o'r ffurflen a ddefnyddiwyd eleni i'w gweld yn **Atodiad 9**.

Dymuna'r Pwyllgor Safonau ddiolch yn fawr i'r Arweinyddion Grwpiau am eu cydweithrediad a'u parodrwydd i drafod yn y cyfarfodydd hyn, ac yn gyffredinol drwy'r flwyddyn.

Mae'r aelodau annibynnol yn falch o adrodd eu bod yn fodlon gyda'r gwaith a gyflawnwyd gan Arweinyddion Grwpiau o safbwynt eu dyletswyddau ymddygiad yn ystod 2023/24. Maent o'r farn bod yr Arweinyddion Grwpiau, er hefo steil eu hunain o arwain aelodau eu grŵp, i gyd yn cymryd camau rhesymol er mwyn cynnal safonau uchel o ymddygiad ymysg yr aelodau. Maent yn dod i'r casgliad yma ar sail cynnwys yr adroddiadau ysgrifenedig a ddarparwyd gan yr Arweinyddion Grwpiau a'r sgyrsiau a gynhaliwyd.

Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y broses eleni wedi bod yn gadarnhaol gyda'r holl Arweinyddion Grwpiau yn trafod a thystiolaethu esiamplau effeithiol o ddirprwyo dyletswyddau i aelodau eraill o fewn eu grŵp a datblygu aelodau. Mae'r Arweinyddion Grwpiau hefyd yn tystio i'w gwaith yn mentora aelodau eu grwpiau a chynnal cyfarfodydd 1-1 yn rheolaidd gydag aelodau. Cynhaliwyd trafodaeth hefyd gydag Arweinydd Grŵp a gymerodd gamau i ddelio ag ymddygiad sy'n is na'r safon sy'n ofynnol yn rhesymol mewn perthynas ag aelod o'u grŵp.

Bwriedir cynnal proses a threfniadau cyffelyb ar gyfer yr asesiad hwn yn 2024/2025 gyda newidiadau cyfyngedig, fel sydd wedi eu nodi o fewn y Rhaglen Waith (**Atodiad 3**)

Mae gohebiaeth dorfol wedi ei rannu gyda'r Arweinyddion Grwpiau er mwyn eu hysbysu o ganfyddiadau'r Pwyllgor Safonau a'r addasiadau bwriedir ar gyfer y dyfodol.

Anogir Arweinyddion Grwpiau i barhau i gysylltu gyda'i haelodau'n gyson er mwyn bodloni'r gofyn eu bod yn hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad, ac i dderbyn unrhyw wahoddiad am hyfforddiant a dderbynnir ganddynt ynghylch eu rôl fel Arweinyddion Grwpiau yn y dyfodol. Mae

trefnu hyfforddiant penodol yn y maes hwn yn rhan o Raglen Waith y Pwyllgor Safonau yn 2024/2025.

- **Ymyrraeth Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor mewn mater ymddygiad yn y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

Yn dilyn cyfeiriad gan y Swyddog Monitro penderfynodd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor y byddent yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion at bwrpas arsylwi ymddygiad aelodau.  Cychwynnwyd ar y broses arsylwi ym mis Mawrth 2024 ac mae'r gwaith hwn yn parhau ar Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/2025.

Cyfarfu Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau â'r Arweinyddion Grŵp perthnasol i drafod ymddygiad 2 aelod.  Ym marn y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, cymerwyd camau adfer a daeth y ddau fater i ben yn foddhaol.

Bydd rhagor o wybodaeth am waith monitro'r ymddygiad yn y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn cael ei hysbysu ar ddiwedd yr ymarfer, yn adroddiad blynyddol 2024-2025 y Pwyllgor.

- **Adolygiadau o'r tair Cofrestr o Ddiddordebau**

Elfen bwysig o waith y Pwyllgor yn ystod 2023/2024 oedd cynnal adolygiadau o Gofrestrau Diddordebau sampl o aelodau'r Cyngor Sir. Cyflawnwyd y gwaith hwn gan y pum aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau, gyda phob aelod yn adolygu Cofrestrau 4 aelod etholedig, wedi eu dewis ar hap, ar sail cydbwysedd gwleidyddol, a chyda pob arweinydd grŵp yn destun adolygiad. Cwblhawyd yr adolygiadau hyn yn ystod Ionawr 2024 ac mae gweithredu ar y canfyddiadau yn rhan o raglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 yn **Atodiad 3**. Hyderir y bydd rhannu arferion da a gwersi i'w dysgu yn fodd o atgoffa'r aelodau ynghylch gofynion cofrestru o dan y Cod Ymddygiad.

# 4. Edrych ymlaen i 2024/2025

Mae Rhaglen Waith arfaethedig y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2024-2025 wedi ei gynnwys yn **Atodiad 3.**

Mae gofynion statudol ar y Pwyllgor Safonau (gweler **Atodiad 1**). Fodd bynnag, mae penderfynu sut mae gweithredu o fewn y gofynion statudol hynny yn fater o ddewis lleol i raddau helaeth. Ers sawl blwyddyn bellach, datblygwyd model rhyngweithiol gan y Pwyllgor Safonau, gyda'r Pwyllgor yn ymgymryd â gwaith ataliol estynedig.

Mae'r gwaith hwn wedi bod yn effeithiol, gyda nifer y cwynion ynghylch ymddygiad aelodau'r Cyngor Sir a'r Cynghorau Tref a Chymuned yn isel ers sawl blwyddyn. Ni dderbyniodd y Pwyllgor Safonau gyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru / Banel Dyfarnu Cymru ynghylch apêl ers 2016. Yn yr un modd, ers 2016, ni fu'n ofynnol i unrhyw gynghorydd ymddangos gerbron Panel Dyfarnu Cymru.

Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae 3 achos yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Rhagwelir y gellid cyfeirio un neu fwy o'r materion hyn at y Pwyllgor Safonau ar gyfer gwrandawiad. Os bydd hyn yn digwydd, bydd gwrandawiad/gwrandawiadau o'r fath yn dod yn flaenoriaeth i'r Pwyllgor Safonau a'i swyddogion cefnogol. Er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti i gyflawni'r gofyniad statudol sylfaenol hwn, bydd rhaglen waith ataliol y Pwyllgor yn cael ei chwtogi yn ystod y cyfnod hwn. Adlewyrchir hyn yn y rhaglen waith ddrafft. Felly, er enghraifft, ni fydd y Pwyllgor Safonau yn cynnal unrhyw adolygiadau o'r cofrestrau, naill ai'r Cyngor Sir neu'r Cynghorau Tref a Chymuned.

Bydd y Pwyllgor, wrth gwrs, yn blaenoriaethu ei waith ac yn ailgyfeirio ei adnoddau i sicrhau ei fod yn parhau i fodloni ei ofynion statudol a bydd yn parhau i gefnogi Aelodau'r Cyngor Sir a chynghorau tref a chymuned i gydymffurfio â'r gofynion o dan eu Cod Ymddygiad.

# Adroddiad Blynyddol
# Pwyllgor Safonau:
# 2023-2024

# ATODIADAU

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

# ATODIAD 1:

## <u>Rôl a Chyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau:</u>

Mae'n ofyn statudol bod gan y Cyngor Sir Bwyllgor Safonau. Swyddogaethau cyffredinol pwyllgorau safonau yw hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau ac aelodau cyfetholedig o awdurdod perthnasol a'u cynorthwyo i gydymffurfio â Chod Ymddygiad yr aelodau.

I'r perwyl hwn, mae rolau a swyddogaethau statudol y Pwyllgor Safonau, mewn perthynas ag aelodau'r Cyngor Sir (etholedig a chyfetholedig) a Chynghorau Tref/Cymuned yn cynnwys:-

- hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau;
- cynorthwyo aelodau i gadw at eu Cod Ymddygiad;
- cynghori'r awdurdod ynghylch mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau;
- cynghori, hyfforddi, neu drefnu i hyfforddi aelodau ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad;
- monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau;
- ystyried ceisiadau am ganiatâd arbennig;
- ymdrin ag unrhyw atgyfeiriadau oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), neu Banel Dyfarnu Cymru.

Yn ogystal, mae dyletswyddau ychwanegol wedi cael eu rhoi ar y Pwyllgor ers mis Mai 2022, sef:

- Monitro cydymffurfiaeth yr Arweinwyr Grŵp gyda'i dyletswydd i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel gan aelodau'r grŵp a gweithredu â Phwyllgor Safonau'r Cyngor wrth iddo arfer ei swyddogaethau.
  Rhaid i bwyllgor safonau hefyd ddarparu cyngor a hyfforddiant, neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau ar y ddyletswydd newydd. Ar ddechrau pob gweinyddiaeth, dylai hyn ddigwydd o fewn chwe mis i'r etholiad a dylid adolygu hyn bob blwyddyn.

- Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol:
  Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Safonau ddarparu Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad hwn ac unrhyw argymhellion a wneir gan y Pwyllgor Safonau o fewn tri mis o'i dderbyn.
  Fel isafswm, rhaid i'r adroddiad:
  - ddisgrifio sut mae'r Pwyllgor Safonau wedi cyflawni ei swyddogaethau;
  - gadarnhau bod protocol lleol ar waith ar gyfer datrys cwynion, a darparu asesiad o'i effaith;
  - gynnwys dadansoddiad o gwynion. Rhaid i'r dadansoddiad hwn gynnwys gwybodaeth am nifer y cynghorwyr sydd wedi bod yn destun cwyn a gadarnhawyd, ac a oeddent wedi mynychu sesiwn hyfforddi ar y Cod Ymddygiad ai peidio, cyn neu ar ôl i'r gŵyn ddod i law.
  - ddarparu crynodeb o adroddiadau ac argymhellion a wnaed neu a gyfeiriwyd at y pwyllgor gan OGCC yn ymwneud ag ymchwilio i achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad, ac unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y Pwyllgor Safonau;
  - gynnwys crynodeb o'r hysbysiadau a roddwyd i'r pwyllgor gan Banel Dyfarnu Cymru, sy'n ymwneud â phenderfyniadau'r Panel ar achosion posibl o dorri cod ymddygiad yr aelodau;
  - disgrifio'r cyngor y mae wedi'i roi ar hyfforddiant i aelodau ac arweinyddion grwpiau a sut mae'r cyngor hwnnw wedi'i roi ar waith,
  - asesiad o sut y mae'r Pwyllgor wedi gweithio gyda'r cynghorau tref a chymuned yn ei ardal i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad ymysg cynghorwyr tref a chymuned;
  - cynnwys asesiad y Pwyllgor o sut mae Arweinwyr Grŵp wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr eu grwpiau, gan gynnwys y cyngor y mae'r pwyllgor safonau wedi'i ddarparu a'r hyfforddiant y mae wedi'i awgrymu.

**Atodiad 2 –**
**Rhaglen Waith ar gyfer y Pwyllgor Safonau 2023/2024 – (cadarnhawyd gan y Cyngor llawn ar 12.09.2023) ynghyd â manylion am gyflawniadau yn erbyn yr amcanion.**

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| 1 | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor Llawn | • Pwyllgor i ddechrau ystyried yr Adroddiad Blynyddol nesaf, a dechrau gweithio arno, cyn eu cyfarfod ffurfiol ym mis Mehefin 2024.<br>• Pwyllgor i ddechrau datblygu ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2023/2024 (a rhaglen waith arfaethedig ar gyfer 2024/2025) ar ddiwedd tymor 2023/2024.<br>• Bydd angen adolygu'r broses ddefnyddiwyd yn 2022/2023 ar gyfer Arweinyddion Grŵp yn adrodd ar eu cyfrifoldebau dan Deddf 2021. Bydd hyn yn destun trafodaeth bellach gydag aelodau'r Pwyllgor Safonau a'r Arweinyddion Grwpiau.<br><br>Trafodir adroddiad blynyddol drafft mewn cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau yng Ngorffennaf 2024 | • Trafodwyd proses adrodd Arweinyddion Grwpiau ar gyfer 2022/2023 mewn cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau ar 15/11/2023. Gwnaed addasiadau i'r ffurflen adrodd.<br>• Trafodwyd y mater ymhellach mewn cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Safonau ar 13/12/2023 cyn cyflwyno'r ffurflen addasedig i'r Arweinyddion Grwpiau ym mis Ionawr 2024.<br>• Cyflwynwyd fersiwn addasedig o'r ffurflen adrodd gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor i'r Arweinyddion Grwpiau ar 18.1.2024.<br>• Rhannwyd ffurflenni adrodd gyda'r Arweinyddion Grwpiau gyda'r cais i gyflwyno ffurflenni wedi'u cwblhau i'r Swyddog Monitro erbyn 30.4.2024. Derbyniwyd y 4 ffurflen.<br>• Trefnwyd cyfarfodydd rhwng pob Arweinydd Grŵp ac aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau ar gyfer mis Mai a Mehefin 2024.<br>• Gwybodaeth o'r cyfarfodydd gyda'r Arweinyddion Grwpiau wedi ei gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol.<br>• Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Medi 2024. |
| 2 | Adolygu'r Protocol Datrysiad Lleol | • Protocol Datrysiad Lleol diwygiedig ar gyfer aelodau CSYM wedi'i dderbyn gan y Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ar 14.12.22. Eitem wedi'i chynnwys yng Nghylchlythyr y Cyngor Sir.<br>• Mae Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer y cynghorau tref a chymuned, oherwydd y nifer o achosion lle gofynnwyd i'r Pwyllgor Safonau gynorthwyo oherwydd pryderon ymddygiad, yn destun adroddiad yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Safonau ym Mehefin 2023. Caiff ei hyrwyddo gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned ym Medi 2023. | • Anfonwyd Protocol Datrysiad Lleol Cynghorau Tref a Chymuned at y Cynghorau Tref a Chymuned gyda'u newyddlenni ym mis Hydref 203, fel y cytunwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin.<br>• Nifer yr achosion y'u hatgyfeiriwyd dan y Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer CSYM:- Dim<br>• Nifer yr achosion y'u hatgyfeiriwyd dan y Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned:- Dim |
| 3 | Cynnig a Darparu hyfforddiant i arweinwyr grwpiau gwleidyddol. Angen penderfynu:<br>• Pwy fydd yn | • Angen trafod gydag Arweinyddion Grwpiau a'r Gwasanaethau Democrataidd.<br>• Rhaid i'r trefniadau hyn | • Trafodwyd mewn cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau ym mis Tachwedd 2023. Trafodwyd rhestr o bynciau arfaethedig.<br>• Cyflwynwyd y rhestr i'r Arweinyddion Grwpiau ym mis Ionawr 2024. |

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| | darparu'r hyfforddiant<br>• Cyfranogiad aelodau'r pwyllgor safonau<br>• Cynnwys uwch swyddogion? | gael eu gwneud ar ddechrau pob gweinyddiaeth ac o fewn 6 mis i'r etholiadau a rhaid eu hadolygu'n flynyddol o leiaf.<br>• Trafodwyd hyfforddiant ar gyfer Arweinwyr Grŵp yn Fforwm y Pwyllgor Safonau Cenedlaethol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn datblygu hyn. Mae'r Pwyllgor Safonau'n annog Arweinyddion Grwpiau i ymgymryd â'r hyfforddiant hwn pan fydd mwy o wybodaeth ar gael. | • Bydd hyfforddiant ar gyfer Arweinyddion Grwpiau'n cael ei drefnu drwy'r uned Hyfforddiant (AD) fel rhan o'r Cynnig i Aelodau ar gyfer 2024-2025. Mae trafodaethau yn parhau. |
| 4 | Cyfathrebu gydag arweinyddion grwpiau gwleidyddol | • Cadeirydd ac Is-gadeirydd i fynychu cyfarfod yr Arweinwyr Grŵp yn dilyn pob cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Safonau.<br>• Adrodd/cyfathrebu pellach fel bo angen. | • Cyfarfod yr Arweinyddion Grwpiau (cyflwynwyd gan y Cadeirydd ac Is-gadeirydd) ar 12/10/2023 mewn perthynas â'r cyfarfod ffurfiol a'r Newyddlen ym mis Mehefin.<br>• Cyfarfod yr Arweinyddion Grwpiau (cyflwynwyd gan y Cadeirydd ac Is-gadeirydd) ar 18/01/2024 mewn perthynas â'r cyfarfod ffurfiol ym mis Rhagfyr; ffurflen Arweinydd Grŵp ar gyfer adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau a syniadau hyfforddiant ar gyfer Arweinyddion Grwpiau. |
| 5 | Dyletswyddau adrodd Arweinyddion Grwpiau a'r broses sy'n cael ei dilyn | • Adolygu'r broses ddilynwyd ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2022/2023.<br>• Cyfathrebu gyda'r Arweinyddion Grwpiau, a chael eu cytundeb gyda sut bydd y broses wedi esblygu er mwyn mewnbynnu gwybodaeth ar gyfer Adroddiad 2023/2024. Bydd y newidiadau yn cynnwys sicrhau bod y Cod Ymddygiad yn cael ei gynnig o fewn modiwlau hyfforddiant mandadol. | • Gweler eitem 1 uchod.<br>• Canlyniad cyfarfodydd; Materion sydd i'w gweithredu:<br>  • Anfon gohebiaeth gyffredinol at Arweinyddion Grwpiau ynghylch proses 2023/2024<br>  • Addasu'r ffurflen adborth gan Arweinyddion Grwpiau i'r Pwyllgor Safonau;<br>    - i annog AG i gynnwys fwy o dystiolaeth yn bocsus 1-3 (newid fformat, cadarnhau na fydd y ffurflen yn cael ei gyhoeddi)<br>    - i sicrhau cysondeb efo'r wybodaeth hyfforddiant a dderbynnir gan yr AG yn chwarterol.<br>    - Anogir AG i gwblhau adolygiadau datblygu blynyddol ffurfiol gydag Aelodau Grŵp.<br>    - Trefnu'r holl gyfarfodydd unigol rhwng y PS a'r AG ar un diwrnod er mwyn hwyluso trefniadau a chadw costau'n is.<br>    - Gofynnir i AG fynychu'r cyfarfod efo'r PS ar eu pen eu hunain er mwyn darparu awyrgylch agored lle gall y PS a'r AG drafod dyletswydd statudol yr AG. |
| 6 | Cyfarfodydd | • Cyfarfodydd ffurfiol yn ystod Mehefin a Rhagfyr 2023, a fel bo angen.<br>• Efallai y trefnir cyfarfodydd | • 12.05.2023 – cyfarfod anffurfiol<br>• 26/5/2023 – cyfarfod anffurfiol<br>• 14.06.2023 – cyfarfod ffurfiol PS<br>• 28/7/2023 – cyfarfod anffurfiol |

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| | | anffurfiol fel sydd angen. | • 22/8/2023 - cyfarfod anffurfiol<br>• 3/10/2023 – gwrandawiad caniatâd arbennig<br>• 15/11/2023 – cyfarfod anffurfiol<br>• 13/12/2023 – cyfarfod ffurfiol PS<br>• 18/12/2023 – cyfarfod anffurfiol (aelodau annibynnol yn unig)<br>• 23/1/2024 – hyfforddiant cyfryngu (darparwr allanol)<br>• 1/2/2024 – cyfarfod anffurfiol<br>• 15/2/2024 – cyfarfod ffurfiol PS (eithriadol – i benodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd)<br>• 4/3/2024 – hyfforddiant caniatâd arbennig (darpariaeth fewnol gan swyddogion).<br><br>Cynhelir cyfarfodydd ffurfiol ar ffurf hybrid. Fel arfer, cynhelir cyfarfodydd anffurfiol ar ffurf cyfarfodydd o bell yn unig. |
| 7 | Newyddlenni yn dilyn y cyfarfod ffurfiol | • Parhau (a) i anfon Cylchlythyrau at aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig y Cyngor hwn, a (b) chynghorwyr tref a chymuned.<br>• Angen ystyried pynciau perthnasol i'w cynnwys. | • Rhifyn Rhif 5:<br>Anfonwyd at y CTCau ar 6/10/2023<br>Anfonwyd at CSYM ar 10/10/2023<br>[yn cyfeirio at y materion a drafodwyd yng nghyfarfod ffurfiol y PS ym mis Mehefin].<br>• Rhifyn rhif 6:<br>Anfonwyd at CTCau a CSYM ar 12/4/2024<br>[yn cyfeirio at y materion a drafodwyd yng nghyfarfod ffurfiol y PS ym mis Rhagfyr]. |
| 8 | Adrodd am gwynion – Adroddiadau Diweddaru Chwarterol | • Anfonir adroddiadau at aelodau'r Pwyllgor yn chwarterol. Mae'r adroddiadau hefyd wedi'u cynnwys ar Agenda Ffurfiol y Pwyllgor (adrodd ddwywaith y flwyddyn).<br>• Mae'r adroddiad i'r Pwyllgor yn trafod unrhyw duedd benodol o ran ymddygiad gwael, ond gyda'r lefel bresennol o gwynion, nid oes patrwm o'r fath wedi'i adnabod. Angen parhau i adolygu hyn, a sicrhau bod y broses yn cynnal ac yn parchu (unrhyw rai o) ofynion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch cyfrinachedd y materion hyn. | • Chwarter 1 – anfonwyd e-bost ar 4/7/2023<br>• Chwarter 2 – anfonwyd e-bost ar 9/10/2023<br>• Wedi ei gynnwys ar agenda cyfarfod y PS yn Rhagfyr 2023.<br>• Chwarter 3 – anfonwyd e-bost ar 3/1/2024<br>• Chwarter 4 – anfonwyd e-bost ar 2/4/2024<br>• Wedi eu cynnwys ar raglen cyfarfod y PS ym Mehefin 2024. |
| 9 | Hyfforddiant ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau | • Sicrhau bod holl aelodau'r Pwyllgor Safonau wedi cwblhau hyfforddiant mandadol.<br>• Trefnu hyfforddiant cyfryngu.<br>• Trefnu hyfforddiant caniatâd arbennig.<br>• Trefnu unrhyw hyfforddiant pellach sy'n ofynnol, mewn ymgynghoriad gyda'r Rheolwr Hyfforddiant | • Cynigir hyfforddiant i aelodau'r PS yn unol â'r Cynnig Hyfforddiant i aelodau.<br>• Aelod annibynnol newydd wedi cwblhau hyfforddiant Cod Ymddygiad ar 14/11/2023.<br>• Hysbyswyd holl aelodau'r Pwyllgor Safonau o'u hanghenion hyfforddiant ym mis Tachwedd 2023, gyda chais i gwblhau unrhyw hyfforddiant mandadol nad oedd wedi'i gwblhau cyn gynted â phosibl.<br>• Cynhaliwyd hyfforddiant cyfryngu ar 23.01.2024.<br>• Aelod annibynnol arall wedi cwblhau |

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| | | Adnoddau Dynol. | hyfforddiant Cod Ymddygiad ar 26.01.2024.<br>• Cynhaliwyd hyfforddiant caniatâd arbennig ar 04.03.2024. |
| 10 | Sut i Gwyno | • Ystyried sut i hyrwyddo sut i wneud cwyn yn erbyn aelodau unwaith y cytunir ar y broses ar gyfer cwynion 'lefel isel' yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr adolygiad Penn. | • Fideos LlC (gan gynnwys mewn perthynas ag aelodau / cwynion) wedi'u dwyn i sylw CSYM ac aelodau CTCau o fewn eu newyddlenni perthnasol.<br>• Disgwyl manylion gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'u hymgynghoriad ar yr Adolygiad Penn. |
| 11 | Caniatadau Arbennig / Gollyngiadau | • Pan fydd ceisiadau'n codi | • Cais am ganiatâd arbennig wedi'i dderbyn gan Gynghorydd Cymuned. Gwrandawiad wedi'i gynnal ar 3/10/2023. |
| 12 | Adroddiadau blynyddol aelodau | • Pwyllgor Safonau'n parhau i annog yr arferiad o gwblhau adroddiadau blynyddol a gweithio gyda Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ar y mater hwn. | • Wedi'i gynnwys yn y Newyddlen a anfonwyd at aelodau CSYM. |
| 13 | Penodi aelod annibynnol newydd i eistedd ar y Pwyllgor Safonau | • Cynhelir y broses ymgeisio drwy Banel Dethol y Pwyllgor Safonau. | • Wedi'i gwblhau.<br>• Wedi penodi aelod annibynnol newydd. Dechreuodd tymor Mr Trefor Owen fel rhan o'r Pwyllgor Safonau ar 27.10.2023.<br>• Aelod newydd ychwanegol wedi'i benodi yn dilyn rôl wag achlysurol. Dechreuodd tymor Mr Brace Griffiths fel rhan o'r Pwyllgor Safonau ar 22.01.2024. |
| 14 | Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned | • Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn mynychu cyfarfodydd y Fforwm i gyflwyno materion o ddiddordeb gan y Pwyllgor Safonau i'r Cynghorau Tref a Chymuned. | • Is-gadeirydd wedi mynychu cyfarfod y Fforwm ar 12.09.2023.<br>• Cadeirydd a swyddog wedi mynychu cyfarfod rhanbarthol Un Llais Cymru ym mis Ionawr 2024 i gyflwyno gwybodaeth mewn perthynas â rôl y Pwyllgor Safonau a'r Swyddog Monitro.<br>• Is-gadeirydd wedi mynychu cyfarfod y Fforwm ar 06.02.2024. |
| 15 | Fforwm y Pwyllgor Safonau Cenedlaethol | • Cadeirydd y Pwyllgor Safonau angen mynychu cyfarfodydd y Fforwm a darparu adborth i aelodau'r Pwyllgor. | • Cadeirydd wedi mynychu cyfarfod o'r Fforwm ym mis Mehefin 2023. Rhannwyd nodiadau gyda'r Pwyllgor Safonau a chawsant eu trafod mewn cyfarfod anffurfiol ar 28.7.2023.<br>• Is-gadeirydd wedi mynychu cyfarfod o'r Fforwm ym mis Ionawr 2024. Rhannwyd nodiadau gyda'r Pwyllgor Safonau ar 5.3.2024. |
| 16 | Adrodd achosion gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r PDC. Cynnig crynodeb ar y prif bwyntiau dysgu ar gyfer aelodau'r Pwyllgor. | • Darparu adroddiadau ym mhob cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Safonau gan grynhoi'r prif bwyntiau o'r achosion a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r PDC.<br>• Dwyn unrhyw bwyntiau dysgu i sylw'r Cyngor Sir a/neu'r Cynghorau Tref a Chymuned drwy'r Newyddlen. | • Ei gynnwys ar agenda cyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin 2023 a Rhagfyr 2023.<br>• Materion wedi eu crybwyll yn y Newyddlenni a anfonwyd at CTCau ac aelodau CSYM. |
| 17 | Trefniadau hyfforddi gan Gynghorau Tref a Chymuned | • Gwnaed cais gan y Pwyllgor Safonau yn ei | • Mater wedi ei drafod yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin 2023 |

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| | | Newyddlen mis Mawrth 2023 i Gynghorau Tref a Chymuned anfon copi o'u Cynlluniau Hyfforddiant at y Pwyllgor Safonau erbyn diwedd Mai 2023.<br>• Hybu hyfforddiant a gynigir gan Un Llais Cymru. | • Mater wedi'i gynnwys - gyda chais pellach - yn Newyddlen y Cynghorau Tref a Chymuned. Nodyn atgoffa wedi'i anfon ym mis Tachwedd 2023<br>• Y Pwyllgor Safonau wedi trafod y mater yn ei gyfarfod ffurfiol ym mis Rhagfyr 2023 |
| 18 | Adroddiad Penn / ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar faterion moesegol | • Adroddiad Penn wedi'i gyhoeddi.<br>• Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr adroddiad Penn a drafodwyd mewn cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau ar 12.05.2023.<br>• Cyflwynwyd ymatebion drafft o'r ymgynghoriad i'r Arweinyddion Grŵp gan y Cadeirydd ar 08.06.2023.<br>• Eitem ar Raglen cyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Safonau ar 14.06.2023.<br>• Cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad erbyn 23 Mehefin 2023.<br>• Gwaith pellach ei angen pan fydd ymateb Llywodraeth Cymru i'r Ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi. | • Crynodeb Llywodraeth Cymru ar yr ymatebion a dderbyniwyd i'r Ymgynghoriad wedi'i drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 13/12/2023.<br>• Disgwyl manylion pellach. |
| 19 | Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor. | • Tymor y Cadeirydd ac Is-gadeirydd presennol yn dod i ben 05.02.2024 | • Cyfarfod ffurfiol wedi'i gynnal ar 15/2/2024 i benodi Mr Rhys Davies a Mr Trefor Owen fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd. |
| 20 | Cyngor Cymuned B | • Dau aelod o'r Pwyllgor Safonau am gynnal Adolygiad o'r Cofrestr Buddiannau a Chod Ymddygiad sy'n berthnasol i faterion yn y Cyngor, a darparu adborth i'r Cyngor drwy'r Cadeirydd. | • Y bwriad oedd cynnal adolygiad yn ystod tymor yr haf 2023; fodd bynnag, nid yw'r Clerc wedi gallu ymrwymo i hyn yn sgil ymrwymiadau eraill. Ym mis Tachwedd, dywedodd y Clerc na fyddai'n bosibl cynnal adolygiad tan fis Chwefror 2024. Dim dyddiad wedi ei bennu. |
| 21 | Cyngor Cymuned C | • Dau aelod o'r Pwyllgor Safonau am gynnal Adolygiad o'r Cofrestr Buddiannau a Chod Ymddygiad sy'n berthnasol i faterion yn y Cyngor, a darparu adborth i'r Cyngor drwy'r Cadeirydd. (Os bydd y Cyngor yn cytuno). | • Mae'r Cyngor wedi gwrthod y cynnig i gynnal adolygiad. Ni all y Pwyllgor Safonau orfodi, dim ond cynnig. Ni gymerir unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r mater hwn. |
| 22 | Cyngor Cymuned Ch | • Camau i'w cymryd yn dilyn cyfarfod arsylwi ym mis Ebrill 2023. | • Gohebiaeth wedi'i anfon allan at y Cyngor Cymuned yn dilyn y cyfarfod arsylwi ym mis Ebrill 2023. Canlyniad yr ohebiaeth oedd nad oedd gan y Pwyllgor Safonau unrhyw fwriad i gymryd camau pellach. |

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| 23 | Sgyrsiau Blynyddol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau | • Bydd y Cadeirydd yn cyfarfod gyda'r aelodau ac yn adrodd unrhyw allbynnau sydd angen eu trefnu gyda'r Swyddog Monitro.<br>• Bydd y Cadeirydd yn derbyn sgwrs flynyddol gan y Swyddog Monitro. | • Yn sgil blaenoriaethau eraill o fewn y rhaglen waith, a bod y Cadeirydd/Is-gadeirydd newydd wedi'u penodi ym mis Chwefror 2024, ni wnaed unrhyw gynnydd gyda'r mater hwn. Bydd yn cael ei gynnwys yn y rhaglen waith ar gyfer 2024/25. |
| 24 | Adolygiad o sampl o Gofrestrau Diddordebau Aelodau'r Cyngor Sir. | • Cynhelir adolygiad gwaith papur o Gofrestrau Diddordebau sampl gan aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau. | • Mater wedi'i drafod mewn cyfarfod anffurfiol ym mis Tachwedd 2023. Mater wedi'i drafod ymhellach mewn cyfarfod ffurfiol ym mis Rhagfyr 2023.<br>• Cyfarfod anffurfiol wedi'i drefnu ar 18.12.2023, ar gais aelodau annibynnol, er mwyn trafod y broses y dylai aelodau annibynnol ei dilyn wrth gynnal yr adolygiadau.<br>• Adolygiadau ar sampl o Gofrestrau aelodau (20 aelod etholedig, wedi'u dewis ar sail cydbwysedd gwleidyddol, gan gynnwys y 4 arweinydd grŵp) ym mis Ionawr 2024.<br>• Canfyddiadau wedi'u trafod mewn cyfarfod anffurfiol ar 1.2.2024. Gwnaed penderfyniad i:<br>▪ Ysgrifennu'n uniongyrchol at unrhyw Gynghorydd ble roedd anghysondeb yn y wybodaeth a gyhoeddwyd yn eu Cofrestr Diddordebau;<br>▪ Ysgrifennu at Arweinyddion Grŵp lle'r oedd pryderon ynghylch llesiant yn bodoli, gan gynnwys absenoldeb.<br>▪ Ysgrifennu at yr holl aelodau yn cyflwyno adroddiad ar y canfyddiadau cyffredinol er mwyn rhannu arfer da a phwyntiau dysgu.<br>▪ Ysgrifennu at y Prif Weithredwr i godi pryderon corfforaethol/technegol mewn perthynas â phrosesau.<br>• Mae gweithredu'r camau hyn wedi'i gynnwys yn y rhaglen waith ar gyfer 2024/25. |
| 25 | Arsylwi cyfarfodydd y Cyngor a'i Bwyllgorau o bryd i'w gilydd. | • Bydd aelodau'r Pwyllgor Safonau'n mynychu cyfarfodydd y Cyngor Sir neu ei Bwyllgorau at bwrpas arsylwi os bydd angen, ac, os yn briodol, yn darparu adborth ar gyfer y Cadeirydd perthnasol. | • Mynychodd rhai o aelodau'r Pwyllgor Safonau gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ym mis Mawrth 2024 fel goruchwylwyr fel rhan o waith ataliol y Pwyllgor, yn dilyn derbyn cyfeiriad gan y Swyddog Monitro. Gwnaed hyn yn dilyn cyfarfod rhwng Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y PS gyda Chadeirydd y Pwyllgor Cynllunio. Eglurodd y Pwyllgor Safonau y bwriad i oruchwylio cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion am gyfnod o chwe mis a chynnal adolygiad ar ôl tri mis. Bydd y canfyddiadau cyffredinol yn cael eu hadrodd i Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar ddiwedd y cyfnod hwn; bydd unrhyw bryderon brys yn cael eu hadrodd llawer cynt. Mae'r gwaith hwn wedi'i gynnwys yn y rhaglen waith ar gyfer 2024/25 gan y bydd y gwaith goruchwylio yn parhau tan o leiaf mis Ebrill a Mai 2024, cyn adolygu os bydd yr arsylwi'n parhau a'i pheidio. |

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| 26 | Cydweithio gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gyda'i waith ar brofiad y cwsmer / cyfarfodydd hybrid (fel yr adroddodd y Pwyllgor Safonau yn dilyn y broses Arsylwi yn ystod 2022/2023) | • Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wrth iddo ystyried yr argymhellion roddwyd gan y Pwyllgor Safonau. | • Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ei ddiweddariad mewn perthynas â materion yn ymwneud ag Aelodau ym mhob cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Safonau (Mehefin a Rhagfyr 2023).<br>• Cafodd y Protocol ar gyfer cyfarfodydd Hybrid, a gyflwynwyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ym mis Mehefin 2023, ei gyflwyno gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd mewn cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau ym mis Awst 2023 fel testun trafodaeth. Rhannwyd y Protocol ymhlith aelodau ym mis Hydref 2023. |
| 27 | Cefnogi gwaith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wrth hybu llesiant aelodau'r Cyngor Sir. | • Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wrth iddo arwain yn y maes hwn. | • Gohebiaeth wedi'i anfon gan Gadeirydd y PS at aelodau CSYM ar 5/10/2023 mewn perthynas â llesiant / i'w hatgoffa o'r hyfforddiant a chwnsela sydd ar gael.<br>• Cafodd materion llesiant eu hadnabod yn ystod y broses o Adolygu Cofrestrau (gweler uchod) a chawsant eu codi gyda'r Arweinyddion Grŵp.<br>• Mae'r mater hwn yn cael ei adrodd gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn ei adroddiadau arferol a gyflwynir yng nghyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Safonau. |
| 28 | Mynediad at wybodaeth ynghylch y Pwyllgor Safonau ar wefan y Cyngor Sir. | • Cymryd camau er mwyn sicrhau fod mynediad rhwydd at wybodaeth ynghylch y Pwyllgor Safonau ar wefan y Cyngor. | • Yn sgil blaenoriaethau eraill yn y rhaglen waith, a bod y Cadeirydd/Is-gadeirydd newydd wedi'u penodi ym mis Chwefror 2024, ni wnaed unrhyw gynnydd gyda'r mater hwn. Bydd yn cael ei gynnwys yn y rhaglen waith ar gyfer 2024/25. |
| 29 | Materion yn codi o drafodaethau gydag Arweinyddion y Grwpiau wrth baratoi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor llawn.<br><br>Materion hyfforddiant yn cael eu trafod gyda'r swyddogion o fewn adran Adnoddau Dynol, yn cynnwys:<br>- Darparu rhestr o hyfforddiant mandadol aelodau ar ffurf sy'n haws i'r Arweinyddion Grwpiau adnabod pa aelodau sydd angen eu hannog i gwblhau pa fodiwl. Rhennir y wybodaeth hon yn chwarterol.<br>- Hyfforddiant TG ar gyfer aelodau, sy'n cynnwys cynnig argymhelliad i'r Arweinyddion Grwpiau bod cwblhau hyfforddiant | • Materion i gael eu trafod gyda'r swyddogion perthnasol er mwyn canfod datrysiad. | • Adran AD(Hyfforddiant)/swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn rhannu gwybodaeth ynghylch hyfforddiant gydag Arweinyddion Grwpiau bob chwarter.<br>• Arweinyddion Grwpiau wedi cytuno i wneud hyfforddiant TG yn gwrs mandadol i aelodau ei gwblhau cyn pen 6 mis o gael eu hethol. |

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| | - TG o fewn 6 mis o Gynghorwyr yn cael eu hethol yn fandadol.<br>- Cadarnhau pa mor aml sydd angen i aelodau gwblhau modiwlau hyfforddiant mandadol. Awgrymir gan y Pwyllgor Safonau bod y Cod Ymddygiad a Seiberddiogelwch yn cael eu cynnal o fewn 6 mis (a TG yn ddibynnol ar yr uchod); gyda'r materion mandadol eraill yn cael eu cynnal o fewn 12 mis o etholiad.<br><br>Materion sy'n cael eu trafod gyda'r Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd:<br>- Trefn fel bod aelodau yn cael eu hatgoffa am yr angen i gwblhau, diweddaru ac adolygu eu Cofrestrau diddordebau'n rheolaidd;<br>- Symleiddio'r broses ar gyfer cofrestru diddordebau gan aelodau;<br>- Darparu canllaw ar y rôl o fod yn Arweinydd Grŵp.<br><br>Materion eraill â godwyd gan y Pwyllgor Safonau:<br>Cynnwys nodyn ar dudalen bywgraffiad aelodau sydd ddim yn cwblhau Adroddiad Blynyddol yn nodi nad oes Adroddiad Blynyddol wedi ei chwblhau gan yr aelod yna. | | • Mae Arweinyddion Grwp wedi cytuno gyda'r cynnig bod:<br>  • Cod Ymddygiad, TGCh a Seiberddiogelwch yn cael eu cwblhau cyn pen 6 mis o ddechrau swydd; a<br>  • Diogelu, Prosesu Gwybodaeth a Chydraddoldeb yn cael eu cwblhau cyn pen 12 mis.<br>• Bydd y rhain yn cael eu cwblhau unwaith bob tymor.<br><br>• Gohebiaeth wedi'i anfon allan gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Pwyllgor Safonau hefyd wedi anfon gohebiaeth cyn Adolygu'r Cofrestrau.<br><br>• Wedi'i godi gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. i'w ystyried ymhellach yn dilyn adolygiad ar Gofrestrau.<br><br>• Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wedi cyflwyno hyn yng nghyfarfod ffurfiol y PS ar 12/2023.<br><br>• Wedi'i gynnwys ar y wefan. |
| | **MATERION YCHWANEGOL:** | | |
| 30. | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynnal archwiliad mewn perthynas â Chynghorydd Sir. | • Casglu gwybodaeth i'w rhannu gyda swyddfa'r Ombwdsmon. (Medi 2023 a Chwefror 2024) | • Mater yn cael ei archwilio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Yn disgwyl cadarnhad. Wedi'i gynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer 2024/25. |
| 31 | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynnal archwiliad mewn perthynas â Chynghorydd Sir. | • Casglu gwybodaeth i'w rhannu gyda swyddfa'r Ombwdsmon. (Chwefror 2024) | • Mater yn cael ei archwilio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Wedi'i gynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer 2024/25. |
| 32 | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynnal | • Casglu gwybodaeth i'w rhannu gyda swyddfa'r | • Mater yn cael ei archwilio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Yn |

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| | archwiliad mewn perthynas â Chynghorydd Cymuned. | Ombwdsmon. (Chwefror 2024) | disgwyl cadarnhad. Wedi'i gynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer 2024/25. |

**Atodiad 3 –**
**Rhaglen Waith arfaethedig ar gyfer y Pwyllgor Safonau 2024/2025**

| Rhif | Eitem | Camau |
|---|---|---|
| 1 | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor Llawn | • Pwyllgor i ddechrau ystyried yr Adroddiad Blynyddol nesaf, a dechrau gweithio arno, cyn eu cyfarfod ffurfiol ym mis Mehefin 2025.<br>• Bydd y Pwyllgor yn datblygu ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2024/2025 (a rhaglen waith arfaethedig ar gyfer 2025/2026) ar ddiwedd tymor 2024/2025.<br>• Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag Arweinyddion Grwpiau mewn perthynas â'r cyfrifoldebau adrodd dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a'r proses y dylid ei dilyn ymhlith Arweinyddion Grwpiau a'r Pwyllgor Safonau. |
| 2 | Gweithredu Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned. | • Pan fo'n ofynnol / yn unol â disgresiwn y Cadeirydd. |
| 3 | Cynnig a Darparu hyfforddiant i arweinwyr grwpiau gwleidyddol. Angen penderfynu:<br>• Pwy fydd yn darparu'r hyfforddiant<br>• Cyfranogiad aelodau'r pwyllgor safonau<br>• Cynnwys uwch swyddogion? | • Rhaid i'r trefniadau hyn gael eu gwneud ar ddechrau pob gweinyddiaeth ac o fewn 6 mis i'r etholiadau a rhaid eu hadolygu'n flynyddol o leiaf.<br>• Bydd y Pwyllgor Safonau'n annog Arweinyddion Grwpiau i gwblhau hyfforddiant sy'n cael ei ddatblygu dan ymbarél Fforwm y Pwyllgor Safonau Cenedlaethol a/neu drwy CLlLC.<br>• Yn lleol, mae'r Pwyllgor Safonau'n gweithio gyda'r adran Hyfforddiant (AD) i drefnu Hyfforddiant 1 – 1 ar gyfer Arweinyddion Grwpiau i'w cefnogi yn eu rôl statudol fel arweinydd grŵp ar faterion sy'n berthnasol ar gyfer AG lleol. |
| 4 | Cyfathrebu gydag arweinyddion grwpiau gwleidyddol gan gynnwys mewn perthynas â dyletswyddau arweinyddion grwpiau o ran ymddygiad eu haelodau | • Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn mynychu cyfarfod yr Arweinyddion Grŵp yn dilyn pob cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Safonau, gan gyflwyno newyddlen arfaethedig.<br>• Adrodd/cyfathrebu ymhellach fel bo angen.<br>• Unrhyw waith sy'n ofynnol fel rhan o ddyletswydd y Pwyllgor Safonau i asesu'r ffordd mae arweinyddion grwpiau yn cyflawni eu dyletswyddau statudol. |
| 5 | Cyfathrebu gydag aelodau CSYM/cynghorau tref a chymuned | • Bydd newyddlenni'n cael eu hanfon allan yn dilyn cyfarfodydd ffurfiol. |
| 6 | Cyfarfodydd | • Cyfarfodydd ffurfiol ym mis Mehefin a Rhagfyr 2024, ac fel y bo angen.<br>• Efallai y bydd cyfarfodydd anffurfiol hefyd yn cael eu trefnu pan fo'n ofynnol. |
| 7 | Adrodd am gwynion – Adroddiadau Diweddaru Chwarterol | • Mae adroddiadau wedi'u cynnwys ar Agenda Ffurfiol y Pwyllgor (adrodd ddwywaith y flwyddyn).<br>• Mae'r adroddiad i'r Pwyllgor Safonau yn trafod unrhyw duedd benodol o ran ymddygiad gwael. Angen parhau i adolygu hyn, a sicrhau bod y broses yn cynnal ac yn parchu (unrhyw rai o) ofynion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch cyfrinachedd y materion hyn. |
| 8 | Hyfforddiant ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau | • Annog holl aelodau'r Pwyllgor Safonau i gwblhau pob hyfforddiant mandadol.<br>• Trefnu unrhyw hyfforddiant pellach sy'n ofynnol, mewn ymgynghoriad gyda'r Rheolwr Hyfforddiant Adnoddau Dynol. |
| 9 | Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr Tref a Chymuned (hyfforddiant gloywi canol tymor) | • Trefnu, mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Hyfforddiant AD, hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad fydd yn cael ei gynnig i Gynghorau Tref a Chymuned yn ystod tymor yr Hydref 2024. |
| 10 | Hyfforddiant Cadeirio – Herio Ymddygiad | • Bydd y Cadeirydd/Is-gadeirydd yn mynychu hyfforddiant sydd wedi'i drefnu gan y Rheolwr Hyfforddiant AD mewn perthynas â delio gydag ymddygiad heriol ymhlith aelodau a/neu'r cyhoedd. |

| Rhif | Eitem | Camau |
|---|---|---|
| 11 | Sut i Gwyno | • Ystyried sut i hyrwyddo sut i wneud cwyn yn erbyn aelodau unwaith y cytunir ar y broses ar gyfer cwynion ‘lefel isel’ yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr adolygiad Penn. |
| 12 | Caniatadau Arbennig / Gollyngiadau | • Pan fydd ceisiadau’n codi |
| 13 | Adroddiadau blynyddol aelodau | • Pwyllgor Safonau’n parhau i annog yr arferiad o gwblhau adroddiadau blynyddol a gweithio gyda’r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar y mater hwn, gan gofio bod gan bob Cynghorydd yr hawl i ddewis cwblhau adroddiad blynyddol neu beidio. |
| 14 | Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned | • Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn mynychu cyfarfodydd y Fforwm i gyflwyno materion o ddiddordeb gan y Pwyllgor Safonau i’r Cynghorau Tref a Chymuned ar newyddlenni. |
| 15 | Fforwm y Pwyllgor Safonau Cenedlaethol | • Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn mynychu cyfarfodydd y Fforwm a darparu adborth i aelodau’r Pwyllgor Safonau. |
| 16 | Adrodd achosion gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a’r PDC. Cynnig dolenni ar gyfer aelodau’r PS. | • Darparu adroddiadau ym mhob cyfarfod ffurfiol o’r Pwyllgor Safonau gan gyfeirio at yr achosion a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a’r PDC. |
| 17 | Adroddiad Penn / ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar faterion moesegol | • Adroddiad Penn wedi’i gyhoeddi. Ymgynghoriad LlC wedi dod i ben ar 23.06.2023.<br>• Cyhoeddwyd ymatebion i’r Ymgynghoriad gan LlC ym mis Tachwedd 2023.<br>• Gwaith pellach ei angen pan fydd ymateb Llywodraeth Cymru i’r Ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi. Dim amserlen ar hyn o bryd. |
| 18 | Sgyrsiau Blynyddol ar gyfer aelodau’r Pwyllgor Safonau | • Bydd y Cadeirydd yn cyfarfod gyda’r aelodau ac yn adrodd unrhyw allbynnau sydd angen eu trefnu gyda’r Swyddog Monitro.<br>• Bydd y Cadeirydd yn derbyn sgwrs flynyddol gan y Swyddog Monitro. |
| 19 | Arsylwi’r Cyngor a chyfarfodydd ei bwyllgorau o bryd i’w gilydd. | • Bydd aelodau’r Pwyllgor Safonau’n mynychu cyfarfodydd y Cyngor Sir neu ei Bwyllgorau at bwrpas arsylwi os bydd angen, ac, os yn briodol, yn darparu adborth ar gyfer y Cadeirydd perthnasol.<br>• Yn dilyn ymlaen o waith yn 2023-2024, bydd y Pwyllgor Safonau’n parhau i oruchwylio cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Y bwriad gwreiddiol yw bod dau aelod annibynnol yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor am chwe mis (gan ddechrau ym mis Mawrth 2024), gan gynnal adolygiad ar ôl tri mis (Mai); efallai y bydd yr ymarferiad yn cael ei gwtogi neu ei ymestyn, fel y bo’n briodol. Bydd y canfyddiadau cyffredinol yn cael eu bwydo’n ôl i Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a gorchmynion ar ddiwedd yr ymarferion; bydd unrhyw bryderon brys yn cael eu hadrodd yn gynt. |
| 20 | Cefnogi gwaith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wrth hybu llesiant aelodau’r Cyngor Sir. | • Cynorthwyo’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wrth iddo arwain yn y maes hwn. |
| 21 | Y gofrestr rhoddion a lletygarwch – cynyddu gwerth y gofrestr i £25 | • Yn dilyn trafodaeth ar lefel genedlaethol yn Fforwm y Pwyllgor Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cymru i safoni’r lefel ble mae’n rhaid cofrestru rhoddion a lletygarwch ym mhob awdurdod yng Nghymru, penderfynwyd mewn egwyddor gan y Cyngor hwn y byddai lefel arfaethedig o £25 yn cael ei gweithredu yn yr awdurdod hwn, yn hytrach na’r cyfyngiad presennol o £20. Fodd bynnag, mae angen newid Cyfansoddiad y Cyngor cyn y gellir gweithredu’r lefel hon. Gwnaed argymhelliad fod yr adroddiad perthnasol nesaf fydd yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Gwaith / Cyngor llawn yn cynnwys yr argymhelliad hwn. Nid yw’r cyfle wedi codi’i ben hyd yma. Mae hyn yn parhau yn fwriad gan y Pwyllgor. |
| 22 | Materion oedd yn codi o’r adolygiadau ar gofrestrau buddiannau aelodau etholedig gan aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau. | • Cwblhawyd yr adolygiadau ym mis Ionawr 2024. Cafodd y canfyddiadau eu trafod mewn cyfarfod anffurfiol ar 1.2.2024. Mae gwaith yn parhau i sicrhau bod y canfyddiadau a wnaed yn ystod yr adolygiad yn cael eu rhannu gyda (a) cynghorwyr lleol, (b) arweinyddion grŵp, (c) swyddogion a (d) yr holl aelodau. |
| 23 | Mynediad at wybodaeth ynghylch y Pwyllgor Safonau | • Cafodd y mater hwn ei gynnwys yn rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/2024 ond, oherwydd ymrwymiadau gwaith eraill, ni weithredwyd |

| Rhif | Eitem | Camau |
|---|---|---|
| | ar wefan y Cyngor Sir. | arno.<br>• Mae'r wefan yn cael ei datblygu'n sylweddol a byddai'n amserol cymryd camau i sicrhau bod mynediad rhwydd at wybodaeth am y Pwyllgor Safonau ar wefan y Cyngor. |
| 24 | Ymateb i'r ceisiadau a wnaed mewn perthynas â'r archwiliadau oedd yn cael eu cynnal gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o ganlyniad i gwynion yn erbyn Cynghorwyr Sir/Cynghorwyr Cymunedol. | • Ar hyn o bryd, mae'r Ombwdsmon yn archwilio cwynion mewn perthynas â 2 Gynghorydd Sir ac 1 Cynghorydd Cymunedol.<br>• Cymryd unrhyw gamau priodol mewn perthynas â'r materion hyn ac unrhyw fater arall sy'n codi yn ystod y flwyddyn. |
| 25 | Materion yn codi o drafodaethau gydag Arweinyddion Grwpiau wrth baratoi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer y Cyngor llawn. | • Materion sydd i'w gweithredu:<br>  • Anfon gohebiaeth gyffredinol at Arweinyddion Grwpiau ynghylch proses 2023/2024<br>  • Addasu'r ffurflen adborth gan Arweinyddion Grwpiau i'r Pwyllgor Safonau;<br>    - i annog AG i gynnwys fwy o dystiolaeth yn bocsys 1-3 (newid fformat, cadarnhau na fydd y ffurflen yn cael ei gyhoeddi)<br>    - i sicrhau cysondeb efo'r wybodaeth hyfforddiant a dderbynnir gan yr AG yn chwarterol.<br>    - Anogir AG i gwblhau adolygiadau datblygu blynyddol ffurfiol gydag Aelodau Grŵp.<br>    - Trefnu'r holl gyfarfodydd unigol rhwng y PS a'r AG ar un diwrnod er mwyn hwyluso trefniadau a chadw costau'n is.<br>    - Gofynnir i AG fynychu'r cyfarfod efo'r PS ar eu pen eu hunain er mwyn darparu awyrgylch agored lle gall y PS a'r AG drafod dyletswydd statudol yr AG. |
| 26 | Cyngor Cymuned B | Yn dilyn ymlaen o waith yn 2023-2024, bwriedir cytuno ar ddyddiad adolygiad gyda'r Cyngor Cymuned hwn, os dymunir. |

# NEWYDDLEN Y PWYLLGOR SAFONAU CYNGHORWYR TREF A CHYMUNED

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

ATODIAD 4

Medi 2023 - Rhifyn 5

## CYFLWYNIAD

Mae'r Pwyllgor Safonau (PS) yma i'ch cynorthwyo i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan eich Cyngor Tref neu Gymuned (CTC). Fel y gwyddoch, mae cynnal y lefel uchaf o ymddygiad moesegol yn rhan hanfodol o'ch rôl o gynrychioli'r cyhoedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ychydig o fideos mewn perthynas â rôl Aelod a'r safonau ymddygiad disgwyliedig:
Safonau ymddygiad ar gyfer cynghorwyr yng Nghymru - YouTube
Cyngor ar sut i gwyno am gynghorydd yng Nghymru - YouTube
Sut dylai cynghorwyr ymddwyn ac ymwneud â phobl - YouTube

## ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PS I'R CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad statudol y PS i'r Cyngor llawn ar 12/09/2023. Mae'r adroddiad yn cynnig trosolwg o waith y PS yn ystod 2022/2023 ac mae'n cynnwys manylion am Raglen Waith y PS ar gyfer 2023-2024.

## CANIATÂD ARBENNIG

Mae'n bosib i Aelodau dderbyn caniatâd arbennig gan y PS i gymryd rhan mewn penderfyniadau hyd yn oed os oes gan yr Aelod hwnnw ddiddordeb sy'n rhagfarnu o dan y Cod Ymddygiad. Mae eich Clercod wedi derbyn canllawiau lleol ar sut i wneud cais am ganiatâd arbennig*. Cysylltwch â'r Swyddog Monitro am gyngor a chymorth mewn perthynas ag unrhyw gais y dymunwch ei wneud.

* Byddai'r Swyddog Monitro'n hapus i ddarparu copi pellach ar gais.

## FFORWM CENEDLAETHOL PWYLLGORAU SAFONAU CYMRU

Mae Cadeirydd y PS wedi mynychu'r ddau gyfarfod o'r Fforwm Cymru-gyfan ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau (Ionawr a Mehefin 2023). Bydd cyfarfodydd yn parhau i gael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn ac mae'n cynnig cyfle i'r 28 awdurdod sy'n aelodau o'r Fforwm rannu arfer dda a datrys problemau.

## AELODAU ETHOLEDIG CSYM:

Cred y PS fod perthynas gadarnhaol rhwng y Cynghorau Tref a Chymuned ac aelodau etholedig CSYM yn cynorthwyo'r naill a'r llall gyda'u rolau ac, er y cydnabyddir fod nifer o Gynghorwyr Sir eisoes yn mynychu cyfarfodydd CTC yn eu wardiau, mae'r PS yn annog Cynghorwyr Sir nad ydynt yn gwneud hynny'n barod i fynychu o hyn ymlaen.

## UN LLAIS CYMRU

Mae'r PS yn manteisio ar y cyfle hwn i annog pob CTC i ystyried ymaelodi ag Un Llais Cymru. Un Llais Cymru yw'r corff cenedlaethol sy'n cynrychioli CTCau yng Nghymru ac mae'n darparu ystod o wasanaethau i gefnogi eu gwaith, gan gynnwys gwasanaethau gwybodaeth a chynghori, cymorth gyda pholisïau a gweithdrefnau, gwasanaethau hyfforddi a datblygu, gwasanaethau ymgynghorol, a chynrychioli a hyrwyddo'r sector.

## DATRYSIAD LLEOL

Yn ddiweddar mae'r PS wedi datblygu a diwygio Protocol Datrysiad Lleol (PDLl) ar gyfer Aelodau'r Cyngor Sir, yn unol â chais OGCC am broses leol i ddelio gydag anghydfod lefel isel. Mae'r OGCC ac Un Llais Cymru (ULlC) wedi llunio a chyhoeddi PDLl i'w ddefnyddio gan y CTCau. Mae copi ar gael yma. Mae ULlC hefyd yn cynnig hyfforddiant i gynorthwyo Aelodau/Clercod gyda'u rolau o dan y PDLl.
Mae'r PS yn annog pob CTC i fabwysiadu PDLl.
Mae'r PS wedi datblygu PDLl i'w ddefnyddio gan y CTC mewn rhai amgylchiadau prin os nad yw PDLl ULlC ar gael. Mae copi o'r PDLl wedi ei atodi i'r newyddlen. Mae'n nodi y bydd y PS yn ystyried pob mater ar sail ei ffeithiau ei hun a bydd yn ymyrryd dim ond os yw Cadeirydd y PS, sydd â disgresiwn llwyr, o'r farn (a) y gallai'r ymyrraeth gan y PS fod o fudd; (b) bod gan y PS yr adnoddau/capasiti i gynorthwyo; a (c) bod y mater yn berthnasol i gylch gwaith y PS, a'i fod yn ymwneud ag ymddygiad. Gall y Cadeirydd, y Clerc neu'r CTC ei hun ofyn am gymorth gan Gadeirydd y PS o dan y broses wirfoddol hon.

## CYNLLUNIAU HYFFORDDI

Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae bellach angen i bob CTC gynhyrchu cynllun hyfforddi blynyddol ar gyfer cynghorwyr a'i staff; roedd angen paratoi'r cynllun cyntaf o fewn 6 mis i'r etholiad llywodraeth leol a gynhaliwyd ar 5 Mai 2022.
Yn y cylchlythyr a anfonwyd at y CTCau ym Mawrth 2023, gofynnodd y PS am gael gweld copi o Gynllun Hyfforddi pob CTC.
Diolch i Gynghorau Cymuned Bryngwran, Llanddyfnan, Llangristiolus, Pentraeth a Threwalchmai am eu hymatebion. Roedd y PS yn siomedig mai dim ond pump o'r pedwar deg CTC a ymatebodd i'w gais am y wybodaeth hon.
A fyddai pob CTC yn cysylltu â'r PS i gadarnhau fod ganddynt Gynllun Hyfforddi (nid oes angen anfon copi o'r Cynllun ei hun; mae cadarnhad fod y Cynllun wedi'i lunio'n ddigon) trwy anfon e-bost at cyfraith@ynysmon.llyw.cymru
Nid oes angen i'r Cynghorau Cymuned a enwir uchod gysylltu â'r PS eto.

## CWYNION LLEOL

Mae'r PS yn falch o'r nifer isel o gwynion sy'n cael eu hanfon at OGCC mewn perthynas â honiadau o dorri'r Cod Ymddygiad.

## ACHOSION OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (OGCC) A PHANEL DYFARNU CYMRU (PDC)

Mae OGCC yn ymchwilio i honiadau o dorri'r Cod Ymddygiad. Mae OGCC yn cyhoeddi ychydig o wybodaeth ar ei wefan am yr achosion sy'n cael eu cyfeirio i swyddfa'r Ombwdsmon. Bydd OGCC yn cyfeirio'r achosion mwyaf difrifol i'w penderfynu gan PDC .
Mae adroddiadau llawn ar yr achosion hyn i'w gweld ar wefan OGCC, ac maent ar gael yma, ac ar wefan PDC, ac maent ar gael yma.
Mae'r PS yn derbyn crynodebau o'r achosion hyn ac mae'r ddolen i grynodeb o achosion OGCC a ystyriwyd gan y PS yma a dolen i grynodeb o achosion PDC a ystyriwyd gan y PS yma.
Mae themâu allweddol sy'n cael eu hamlygu yn cynnwys:
- Mae OGCC yn parhau i ddefnyddio'r prawf dau gam wrth ystyried honiadau fod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad: (1) A oes tystiolaeth o dorri'r cod? a (2) A yw ymchwilio i'r mater er budd y cyhoedd?
- Pwysigrwydd cwblhau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad, i aelodau a Chlercod yn y Cynghorau Tref a Chymuned.
- Mae'n rhaid i aelodau lynu at amserlenni caeth, yn arbennig wrth apelio penderfyniad a wnaed gan y PS gyda PDC.

## YN OLAF......

Cynhaliodd y PS gyfarfod ffurfiol ar 14/06/2023 ac, os ydych yn dymuno edrych ar yr eitemau/adroddiadau a ystyriwyd yn y cyfarfod hwnnw, dilynwch y ddolen yma.

**A oes unrhyw beth y dymunwch iddo gael ei gynnwys yn y Newyddlen nesaf?**
**Anfonwch eich awgrymiadau i sylw Cadeirydd y PS ar cyfraith@ynysmon.llyw.cymru**

# CYLCHLYTHYR Y PWYLLGOR SAFONAU

## CYNGHORWYR TREF A CHYMUNED

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Ebrill 2024 - Rhifyn 6

### CYFLWYNIAD

Mae'r Pwyllgor Safonau (PS) yma i'ch cefnogi i gydymffurfio gyda'r Cod Ymddygiad â fabwysiadwyd gan eich Cyngor. Fel y gwyddoch, mae cynnal y lefel uchaf o ymddygiad moesegol yn rhan hanfodol o'ch rôl o ran cynrychioli'r cyhoedd.

### LLYWODRAETHU A MATERION GWEITHDREFNOL CYFFREDINOL

Nid yw llywodraethu a materion gweithdrefnol cyffredinol yn y CTCau yn dod o dan gylch gorchwyl y PS. Mae'r PS yn cynorthwyo mewn perthynas â materion ymddygiad gan gynnwys y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau. Fodd bynnag, mae'n dod yn batrwm yn ddiweddar, lle bo diffygion mewn materion llywodraethiant a gweithdrefnol, gall hyn fod yn gatalydd ar gyfer gwaethygu materion fel bod ymddygiad aelodau yn dirywio a/neu fod cysylltiadau rhwng aelodau a/neu glercod o fewn CTCau yn anodd.

Er mwyn osgoi materion o'r fath, mae'r PS yn annog pob CTC i ystyried eu prosesau ar gyfer materion fel cyhoeddi'r hysbysiad/rhaglenni/cofnodion cyfarfodydd; cyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfodydd; a threfniadau cyfarfodydd gan gynnwys y model hybrid.

Ar y sail hon, mae'r PS yn annog pob CTC i ystyried dod yn aelodau o Un Llais Cymru. ULlC yw'r corff cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer CTCau yng Nghymru ac mae'n darparu ystod o wasanaethau i gefnogi eu gwaith.

### CANIATADAU ARBENNIG

Mae'n bosibl i aelodau gael caniatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau i gymryd rhan mewn penderfyniadau hyd yn oed pan fydd gan yr aelod hwnnw diddordeb sy'n rhagfarnu o dan y cod ymddygiad. Mae canllawiau lleol ar sut i wneud cais am ganiatâd arbennig wedi'i roi i'ch Clerc*. Cysylltwch â'r Swyddog Monitro am gyngor a chymorth mewn perthynas ag unrhyw gais yr hoffech ei wneud.

* Byddai'r Swyddog Monitro yn falch o ddarparu copi pellach ar gais.

### CYNLLUNIAU HYFFORDDI

Mae llunio cynllun hyfforddi blynyddol ar gyfer cynghorwyr a staff bellach yn ofyniad ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021; roedd angen y cynllun cyntaf o fewn 6 mis i etholiadau llywodraeth leol ar 5 Mai 2022.

Cysylltodd y Pwyllgor Safonau â phob CTC ym mis Mawrth, Medi a Thachwedd 2023, i ganfod faint o CTCau oedd wedi cyhoeddi cynllun hyfforddi ar gyfer y flwyddyn. Wrth gwrs, mae gan y Pwyllgor Safonau ddiddordeb arbennig mewn adolygu a yw'r Cod Ymddygiad yn cael ei gynnwys fel rhan o ystyriaethau'r CTC wrth drefnu hyfforddiant.

Mae'r Pwyllgor Safonau yn achub ar y cyfle i ddiolch i'r CTCau canlynol am eu hymatebion a'u llongyfarch ar gyhoeddi Cynllun Hyfforddiant:

**AMLWCH, BODORGAN, BRYNGWRAN, CAERGYBI, CWM CADNANT, LLANBADRIG, LLANDDANIEL-FAB, LLANDDYFNAN, LLANEILIAN, LLANERCHYMEDD, LLANFAELOG, LLANFAIR YN NEUBWLL, LLANFIHANGELESCEIFIOG, LLANGEFNI, LLANGOED A PHENMON, LLANGRISTIOLUS, MECHELL, MOELFRE, PENMYNYDD A STAR, PENTRAETH, PORTHAETHWY, RHOSCOLYN, TREARDDUR, TREWALCHMAI, Y FALI.**

Mae'r Pwyllgor Safonau yn angerddol bod hyfforddiant yn eich dysgu ac yn eich grymuso fel y gellir osgoi problemau yn y lle cyntaf ac felly mae'n annog y CTCau sydd ddim wedi cyhoeddi Cynllun Hyfforddi i wneud hynny yn unol â'r gofynion deddfwriaethol.

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) a Phanel Dyfarnu Cymru (PDC) hefyd yn annog aelodau a chlercod i ymgymryd â hyfforddiant Cod Ymddygiad. Pe baech yn torri'r Cod, byddai methu â bod wedi ymgymryd â hyfforddiant ar y Cod yn cael ei ystyried yn ffactor gwaethygol pan fydd y Pwyllgor Safonau neu PDC yn ystyried y mater o gosb.

### PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL

Fel y gwyddoch, mae Un Llais Cymru (ULlC) wedi datblygu a chyhoeddi Protocol Datrysiad Lleol (PDLl) i'w ddefnyddio gan CTCau. Mae copi ar gael yma. Mae ULlC hefyd yn cynnig hyfforddiant i gynorthwyo Aelodau/Clercod yn eu rolau o dan y PDLl. Mae'r PS yn annog pob CTC i fabwysiadu PDLl.

Mae'r PS hefyd wedi datblygu PDLl i'w ddefnyddio gan CTCau mewn amgylchiadau cyfyngedig pe na bai PDLl ULlC ar gael. Rhannwyd copi o'r PDLl hwn gyda chi o dan glawr y Cylchlythyr blaenorol*. Mae'n nodi y bydd y PS yn ystyried pob mater yn seiliedig ar ei ffeithiau ei hun a dim ond os bydd Cadeirydd y PS, sydd â disgresiwn absoliwt, o'r farn (a) y gallai cyfranogiad y PS fod yn fuddiol; (b) bod gan y PS yr adnoddau/gallu i gynorthwyo; a (c) bod y mater o bryder yn dod o fewn cylch gorchwyl y PS, ac yn ymwneud ag ymddygiad. Gall y Cadeirydd, y Clerc neu'r CTC ei hun ofyn am gymorth Cadeirydd y PS o dan y broses wirfoddol hon.

* Byddai'r Swyddog Monitro yn falch o ddarparu copi pellach ar gais.

### ADRODDIAD BLYNYDDOL GAN Y CTCau

Rhannwyd Adroddiad Blynyddol a gyhoeddwyd gan Gyngor Cymuned y Fali gyda'r PS yn ddiweddar ac ystyriwyd bod ei gynnwys a'i arddull yn wybodus ac yn enghraifft o arfer da. Mae'n ddigon posibl bod CTCau eraill yn cynhyrchu adroddiadau blynyddol tebyg ac mae'r PS yn cymeradwyo hyn a byddai'n annog pob CTC i ystyried cynnwys ei adroddiad blynyddol, y cyflwyniad, sut bydd y CTC yn ymgysylltu â'r cyhoedd a bod yn sicrhau cyhoeddusrwydd ar gyfer eu hadroddiadau blynyddol.

### ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Mae gofyn statudol i'r PS gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2022-2023 i'r Cyngor llawn ym mis Medi 2023 a gellir ei weld yma. Mae'n cynnwys manylion am waith gorffenedig y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn ac mae'n cyflwyno blaenraglen waith y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn i ddod. Bydd yr adroddiad ar gyfer 2023-2024 yn cael ei thrafod yng nghyfarfod nesaf y PS ym mis Mehefin 2024.

### AC YN OLAF:

Cynhaliwyd cyfarfod ffurfiol diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 13/12/2023 ac os hoffech edrych ar yr eitemau/adroddiadau a ystyriwyd yn y cyfarfod hwnnw, dilynwch y ddolen hon.

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch, neu ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Swyddog Monitro ar lynnball@ynysmon.llyw.cymru

# NEWYDDLEN Y PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR SIR YNYS MÔN

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Medi 2023 - Rhifyn 5

## CYFLWYNIAD

**Mae'r Pwyllgor Safonau (PS) yma i'ch cynorthwyo i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad i aelodau.**
**Fel y gwyddoch, mae cynnal y lefel uchaf o ymddygiad moesegol yn rhan hanfodol o'ch rôl o gynrychioli'r cyhoedd.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ychydig o fideos mewn perthynas â rôl Aelod a'r safonau ymddygiad disgwyliedig:
Safonau ymddygiad ar gyfer cynghorwyr yng Nghymru - YouTube
Cyngor ar sut i gwyno am gynghorydd yng Nghymru - YouTube
Sut dylai cynghorwyr ymddwyn ac ymwneud â phobl - YouTube

## ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU

Mae'r PS yn annog pob aelod etholedig i gwblhau Adroddiad Blynyddol ac mae'n cefnogi'r gwaith y mae'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei wneud i sicrhau fod y broses mor rhwydd ac effeithlon â phosib. Cyflwynodd 24 o Gynghorwyr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y cyfnod rhwng 01.04.22 a 31.03.23; mae'r PS wedi gofyn i Arweinyddion Grwpiau am eu cymorth i annog pob un o'r 35 Cynghorydd i gwblhau Adroddiad Blynyddol yn 2024.

## ACHOSION OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (OGCC) A PHANEL DYFARNU CYMRU (PDC)

Mae OGCC yn ymchwilio i honiadau o dorri'r Cod Ymddygiad. Mae OGCC yn cyhoeddi ychydig o wybodaeth ar ei wefan am yr achosion sy'n cael eu cyfeirio i swyddfa'r Ombwdsmon. Bydd OGCC yn cyfeirio'r achosion mwyaf difrifol i'w penderfynu gan Banel Dyfarnu Cymru.
Mae adroddiadau llawn ar yr achosion hyn i'w gweld ar wefan OGCC, ac maent ar gael yma, ac ar wefan PDC, ac maent ar gael yma.
Mae'r PS yn derbyn crynodebau o'r achosion hyn ac mae'r ddolen i grynodeb o achosion OGCC a ystyriwyd gan y PS yma a dolen i grynodeb o achosion PDC a ystyriwyd gan y PS yma.
Mae themâu allweddol sy'n cael eu hamlygu yn cynnwys:
- Mae OGCC yn parhau i ddefnyddio'r prawf dau gam wrth ystyried honiadau fod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad: (1) A oes tystiolaeth o dorri'r cod? a (2) A yw ymchwilio i'r mater er budd y cyhoedd?
- Pwysigrwydd cwblhau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad, i aelodau a Chlercod yn y Cynghorau Tref a Chymuned.
- Mae'n rhaid i aelodau lynu at amserlenni caeth, yn arbennig wrth apelio penderfyniad a wnaed gan y PS gyda PDC.

## YMGYNGHORIAD AR ADRODDIAD PENN

Yn ystod y Gwanwyn, 2023 cynhaliodd Llywodraeth Cymru (LlC) ymgynghoriad, yn seiliedig ar yr argymhellion yn adroddiad Richard Penn yn 2021, pan gomisiynwyd ef i gynnal adolygiad annibynnol o'r fframwaith safonau moesegol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Ymatebodd y PS i'r ymgynghoriad, ar ran CSYM, a thrafodwyd yr ymateb arfaethedig gydag Arweinyddion Grwpiau (AG) cyn ei gyflwyno. Os derbynnir unrhyw ddogfennau/gwybodaeth wedi i Lywodraeth Cymru ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad bydd y PS yn hysbysu/ymgynghori ymhellach ag AG.

## ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU I'R CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad statudol y PS i'r Cyngor llawn ar 12/09/2023. Mae'r adroddiad yn cynnig trosolwg o waith y PS yn ystod 2022/2023 ac mae'r PS yn dymuno diolch i bob Aelod am eu cydweithrediad gyda'r PS wrth iddo wireddu ei ddyheadau ar gyfer y flwyddyn.
Ers cyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae disgwyl i'r PS gyflawni dyletswyddau ychwanegol, gan gynnwys monitro cydymffurfiaeth Arweinyddion Grwpiau â'u cyfrifoldebau newydd o dan Ddeddf 2021, sef cymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau eu grŵp, ac adrodd ar hynny yn ei adroddiad blynyddol. Mae'r PS yn ategu ei werthfawrogiad o gydweithrediad yr Arweinyddion Grwpiau yn y broses a roddwyd ar waith i fodloni'r gofyn hwn.
Mae Rhaglen Waith y PS ar gyfer 2023-24 wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hefyd.

## PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL

Os yw Aelodau'n dymuno cymryd rhan mewn proses datrysiad lleol, dymuna'r PS eich atgoffa fod rhaid i chi godi'r mater gyda Chadeirydd y PS cyn gynted â phosib a chymryd pob cam rhesymol i fod yn rhagweithiol o fewn y broses. Nid yw gohirio'r broses yn cynorthwyo'r amcan cyffredinol o gymodi'n gyflym.

## HYFFORDDIANT AR GYFER AELODAU

Anogir Aelodau i gwblhau unrhyw hyfforddiant a fyddai'n eu cynorthwyo yn eu rôl fel aelodau o CSYM; pwrpas hyfforddiant yw arwain a dysgu aelodau er mwyn eu grymuso. Mae rhai cyrsiau hyfforddiant hefyd yn cael eu hystyried yn fandadol.
Bydd Arweinyddion Grwpiau'n derbyn adroddiadau hyfforddiant chwarterol yn rhestru'r hyfforddiant a gwblhawyd gan bob Aelod o'u Grŵp; byddant yn annog Aelodau i gwblhau hyfforddiant mandadol o leiaf.
Mae'r holl fodiwlau ar gael ar y Gronfa Ddysgu, ac mae'r ddolen yma. Am gyfarwyddiadau ar sut i gael mynediad i'r Gronfa Ddysgu dilynwch y ddolen yma.
Ar ôl cwblhau unrhyw hyfforddiant yn eich rôl fel aelod, cofiwch gynnwys manylion yr hyfforddiant hwnnw ar eich tudalen proffil ar y wefan. I gael manylion am sut i wneud hynny dilynwch y ddolen yma.

## PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL AR GYFER Y CYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Mae'r Pwyllgor Safonau'n annog pob Cyngor Tref a Chymuned i fabwysiadu Protocol Datrysiad Lleol (PDLl) ac mae'n awgrymu eu bod yn defnyddio'r PDLl a ddatblygwyd gan Un Llais Cymru (ULlC) sydd ar gael yma. Serch hynny, mae'r PS wedi datblygu proses i'w defnyddio mewn achosion prin, lle gall Cadeiryddion, Clercod neu Gynghorau Cymuned eu hunain ofyn am gymorth anffurfiol gan gadeirydd y PS. Bydd y PDLl hwn yn cael ei hyrwyddo yn y CTCau yn ystod yr Hydref 2023.
Cred y PS fod perthynas gadarnhaol rhwng y CTCau ac aelodau etholedig CSYM yn cynorthwyo'r naill a'r llall gyda'u rolau ac, er y cydnabyddir fod nifer o aelodau etholedig eisoes yn mynychu cyfarfodydd CTCau yn eu wardiau, mae'r PS yn annog aelodau etholedig nad ydynt yn gwneud hynny'n barod i fynychu cyfarfodydd.

## AELOD ETHOLEDIG AR Y PWYLLGOR SAFONAU

Dymuna'r Pwyllgor Safonau ddiolch i'r Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes am ei waith fel cynrychiolydd y Cyngor Sir ar y Pwyllgor Safonau. Yn dilyn ei ymddiswyddiad fel aelod o'r PS, enwebwyd y Cynghorydd Margaret Murley Roberts yn dilyn pleidlais yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Medi 2023 ac mae'r PS yn manteisio ar y cyfle i'w groesawu ef/hi.

## YN OLAF:

**Cynhaliodd y PS gyfarfod ffurfiol ar 14/06/2023**
**ac, os ydych yn dymuno edrych ar yr eitemau/adroddiadau a ystyriwyd yn y cyfarfod hwnnw, dilynwch y ddolen yma.**

**A oes unrhyw beth y dymunwch iddo gael ei gynnwys yn y newyddlen nesaf? Anfonwch eich awgrymiadau i sylw Cadeirydd y PS ar cyfraith@ynysmon.llyw.cymru**

ATODIAD 7

# CYLCHLYTHYR Y PWYLLGOR SAFONAU

## CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Ebrill 2024 Rhifyn 6

### CYFLWYNIAD

Mae'r Pwyllgor Safonau (PS) yma i'ch cefnogi i gydymffurfio gyda’r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau etholedig. Fel y gwyddoch, mae cynnal y lefel uchaf o ymddygiad moesegol yn rhan hanfodol o'ch rôl o ran cynrychioli'r cyhoedd.

### HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD

Mae'r PS yn angerddol bod hyfforddiant yn eich dysgu ac yn eich grymuso fel y gellir osgoi problemau yn y lle cyntaf.
LLONGYFARCHIADAU i'r holl aelodau am gwblhau'r modiwl hyfforddiant Cod Ymddygiad, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad lleol ar gyfer Aelodau.
O'r adroddiadau diweddar a gyflwynwyd i'r PS, mae'n ymddangos bod rhai cyrsiau mandadol eraill nad yw aelodau wedi eu cwblhau hyd yn hyn. Byddai'r PS yn annog yn gryf yr aelodau hynny nad ydynt eto wedi cwblhau eu hyfforddiant mandadol, neu unrhyw hyfforddiant arall sy'n cael ei ystyried yn ddefnyddiol i chi yn eich rôl fel aelodau etholedig, i wneud hynny.

### ADOLYGU COFRESTRAU DIDDORDEBAU AELODAU

Mae'r PS wedi cynnal adolygiad desg o'r Cofrestrau Diddordebau ar gyfer sampl o aelodau etholedig yn y Cyngor Sir. Cynhaliwyd yr adolygiad gan aelodau annibynnol o'r PS a dewiswyd y sampl trwy 'gydbwysedd gwleidyddol'. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i gysylltu â rhai Aelodau lle mae angen sylw ar eu Cofrestrau. Mae cyswllt hefyd yn cael ei wneud gyda rhai Arweinwyr Grŵp, yn unol â'u dyletswydd diweddar i annog lefelau ymddygiad da ymhlith aelodau eu grŵp. Bydd adroddiad canfyddiadau cyffredinol yn cael ei gyflwyno i Arweinwyr Grwpiau a'i ddosbarthu i'r holl aelodau maes o law; ni fydd yr adroddiad hwn yn nodi unrhyw enwau.

### POLISI INDEMNIADAU

Cyflwynwyd adroddiad a gyflwynwyd yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, mewn perthynas â Pholisi Indemniadau'r Cyngor, i'r PS yn ddiweddar. Mae'r Polisi yn rhoi disgresiwn eang i'r Is-bwyllgor Indemniadau (sy'n cynnwys 5 aelod etholedig) roi indemniad mewn achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau; er bod y Polisi hefyd yn rhoi arwydd ac arweiniad ar y materion y dylai’r Is-bwyllgor Indemniadau eu cadw mewn cof ac o amodau a chyfyngiadau posibl i'w gosod ar unrhyw indemniad o'r fath. Mewn achosion lle canfyddir bod aelod etholedig wedi torri'r Cod a'i fod yn destun cosb o ataliad neu anghymhwyso, yna mae'r gyfraith yn mynnu bod yn rhaid ad-dalu unrhyw indemniad a ganiateir. Pan fo'r gosb a osodir yn llai difrifol nag ataliad yna mae'r gofyniad i ad-dalu yn dibynnu ar benderfyniad gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor.
Anogir aelodau i ystyried gwneud cais am Indemniad am eu costau wrth amddiffyn unrhyw achos a ddygir yn eu herbyn am dorri Cod Ymddygiad y Cyngor.
Dylech gysylltu â'r Swyddog Monitro os oes gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r Polisi hwn / y broses i'w dilyn.

### ACHOSION OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (OGCC) A PANEL DYFARNU CYMRU (PDC)

Mae'r OGCC yn ymchwilio i honiadau o dorri'r Cod Ymddygiad. Mae'r OGCC yn cyhoeddi gwybodaeth gyfyngedig am yr achosion sy'n cael eu cyfeirio at y swyddfa ar ei wefan. Yn y materion mwyaf difrifol, bydd OGCC yn cyfeirio achosion i'w penderfynu gan y PS lleol neu'r PDC. Mae'r achosion hyn yn cael eu hadrodd yn llawn ar wefan OGCC ac maent ar gael yma, ac ar wefan PDC ac ar gael yma. Mae fersiynau cryno o'r achosion hyn yn cael eu hadrodd i'r PS ac mae'r ddolen i'r crynodeb OGCC a ystyriwyd gan y PS yma ac mae crynodeb PDC a ystyriwyd gan y PS yma.
Mae'r prif themâu sy'n codi yn cynnwys:

- Atgoffir aelodau i fod yn ystyriol wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Mae Protocol Cyfryngau Cymdeithasol yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac mae hyn yn gweithredu fel canllaw i Aelodau.
- Mae'r prawf dau gam yn parhau i gael ei weithredu gan OGCC wrth ystyried honiadau o dorri'r cod ymddygiad gan aelodau: (1.) A oes tystiolaeth o dorri'r cod? (2.) A yw ymchwilio i'r mater er budd y cyhoedd?
- Anogir aelodau i ofyn am gyngor a mynychu hyfforddiant, yn ôl yr angen (gweler "Hyfforddiant a Datblygiad")

### ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Mae gofyniad statudol i'r Pwyllgor Safonau gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2022-2023 i'r Cyngor llawn ym mis Medi 2023 a gellir ei weld yma. Mae'n cynnwys manylion am waith gorffenedig y Pwyllgor am y flwyddyn, gan gynnwys unrhyw ddatrysiad lleol y bu'n ymwneud ag ef a'i ganfyddiad o gydymffurfiad yr Arweinwyr Grŵp â'u dyletswydd newydd mewn perthynas ag ymddygiad aelodau'r grŵp. Mae hefyd yn cyflwyno blaenraglen waith y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae Cadeirydd ac Is-gadeirydd y PS eisoes wedi cyfarfod ag Arweinwyr Grwpiau i drafod y drefn a'r amseriad ar gyfer adrodd ar eu dyletswyddau ar gyfer adroddiad PS yn 2023-2024. Mae'r ffurflen adrodd a ddefnyddiwyd y llynedd wedi'i haddasu a'i dosbarthu i bob AG gyda chais i ffurflenni sydd wedi'u cwblhau gael eu dychwelyd erbyn 30 Ebrill. Bydd aelodau annibynnol y PS yn cwrdd â phob AG yn unigol yn ystod mis Mai. Bydd adroddiad blynyddol drafft y PS ar gyfer 2023/2024 yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y PS ym mis Mehefin 2023 a'i gyflwyno i'r Cyngor llawn cyn gynted â phosibl ar ôl hyn.

### CANIATADAU ARBENNIG

Mae'n bosibl i aelodau gael caniatâd arbennig gan y PS i gymryd rhan mewn penderfyniadau hyd yn oed pan fydd gan yr aelod hwnnw ddiddordeb sy'n rhagfarnu o dan y cod ymddygiad. Mae canllawiau lleol ar sut i wneud cais am ganiatâd arbennig ar gael yma. Cysylltwch â'r Swyddog Monitro am gyngor a chymorth mewn perthynas ag unrhyw gais yr hoffech ei wneud.

### AC YN OLAF:

Cynhaliodd y PS gyfarfod ffurfiol ar 13/12/2023 ac os hoffech edrych ar yr eitemau/adroddiadau a ystyriwyd yn y cyfarfod hwnnw, dilynwch y ddolen hon.

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch, neu ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Swyddog Monitro ar lynnball@ynysmon.llyw.cymru

# CWRDD AG AELODAU PWYLLGOR SAFONAU

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL



**Penodwyd tri aelod newydd i'r Pwyllgor Safonau yn ddiweddar; wrth eu cyflwyno nhw mae hefyd yn gyfle addas i rannu gwybodaeth gyda chi am yr holl aelodau sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn – i chi gael rhoi wyneb i'r rheiny sy'n gyfrifol am Newyddlenni'r Pwyllgor Safonau a gyhoeddir ddwywaith y flwyddyn. Cewch gyfarfod y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd newydd hefyd.**

**Mae gan y Pwyllgor Safonau naw o aelodau: mae pump ohonynt yn aelodau annibynnol sydd wedi cael eu cyfethol yn dilyn proses statudol; mae dau aelod yn cael eu hethol gan y cynghorwyr tref a chymuned lleol fel cynrychiolwyr cynghorau tref a chymuned; ac mae dau aelod yn cael eu dewis o blith aelodau etholedig y Cyngor Sir.**

### RHYS DAVIES
### Aelod Annibynnol



Cafodd y Cadeirydd, Rhys, ei benodi i'r Pwyllgor Safonau yn 2019 a'i benodi yn Is-Gadeirydd yn 2020. Ar ôl astudio deintyddiaeth yng Nghaerdydd, daeth adref i'w ynys enedigol, Ynys Môn, i weithio fel deintydd am dros 30 mlynedd, nes iddo ymddeol yn 2015.
"Rydw i wedi mwynhau'r profiadau a gefais ers dod yn aelod o'r Pwyllgor Safonau. Byddaf yn hapus i ymroi a chyfrannu at y gwaith o gynorthwyo aelodau i gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan y Côd Ymddygiad er mwyn sicrhau fod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd dryloyw a bod aelodau'n gweithredu gydag uniondeb".
Gallwch gysylltu â'r Cadeirydd ar RhysDavies@ynysmon.llyw.cymru

### TREFOR OWEN
### Aelod Annibynnol



Cafodd Trefor ei ethol yn Is-Gadeirydd yn ddiweddar, ychydig fisoedd wedi iddo gael ei benodi i'r Pwyllgor Safonau. Mae Trefor yn Gymrawd o Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig gyda bron i 40 mlynedd o brofiad fel gwas sifil yn y maes coedwigaeth.
"Edrychaf ymlaen at gefnogi gwaith y Cadeirydd wrth i'r Pwyllgor barhau i gydweithio hefo aelodau etholedig a chyfetholedig y Cyngor Sir, yn ogystal â'r Chynghorwyr Tref a Chymuned, i gynnal y safonau ymddygiad uchaf posib."

### MARGARET MURLEY ROBERTS
### Cynrychiolydd Cyngor Sir



Mae Margaret yn aelod o Blaid Cymru ac mae'n cynrychioli ward Lligwy ar y Cyngor Sir. Cafodd ei phenodi i'r Pwyllgor Safonau ym Medi 2023. Mae Margaret hefyd yn Gadeirydd y Cyngor Sir.

### DAFYDD RHYS THOMAS
### Cynrychiolydd Cyngor Sir



Mae Dafydd yn aelod o'r Grŵp Annibynnol. Penodwyd Dafydd i'r Pwyllgor Safonau yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2022; hwn fydd ei ail dymor ar y Pwyllgor Safonau ac mae'n cynrychioli Ynys Cybi ar y Cyngor Sir.

### JOHN ROBERT JONES
### Aelod Annibynnol



Cafodd John, ei gyfethol i'r Pwyllgor Safonau yn 2017, blwyddyn ar ôl iddo ymddeol fel Prif Swyddog Medrwn Môn, yr asiantaeth annibynnol sy'n darparu cyngor a chymorth i sefydliadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol.
Mae John yn siaradwr Cymraeg a chafodd ei eni a'i fagu ar Ynys Môn ac mae'n dal i fyw ar yr ynys gyda'i deulu. Bu'n Gadeirydd ar y Pwyllgor Safonau rhwng 2020-2024

### GILL MURGATROYD
### Aelod Annibynnol



Mae Gill yn Gymrawd y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu ac, ar hyn o bryd, mae'n Gyfarwyddwr ar ei busnes Ymgynghoriaeth Adnoddau Dynol ac yn datblygu ac yn rhedeg sefydliadau o'i chartref yn Llandudno, Gogledd Cymru. Mae'n aelod o'r Pwyllgor Safonau ers Rhagfyr 2019.

### BRACE GRIFFITHS
### Aelod Annibynnol



Aelod mwyaf newydd y Pwyllgor ydi Brace, sy'n Aelod Siartredig o'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu a a chyn ymddeol cafodd brofiad o weithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae ganddo hefyd brofiad o wirfoddoli gyda Llais a Chyf.

### MARGARET THOMAS
### Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned



Mae Margaret wedi bod yn aelod o Gyngor Tref Llangefni am 23 mlynedd a bu'n Faer y Dref bum gwaith yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'n cynrychioli'r Cyngor Tref yng nghyfarfodydd Rhanbarthol Un Llais Cymru a'r pwyllgor ardal.
Mae hi wedi byw ar Ynys Môn gydol ei hoes ac mae'n dal i fyw ar y fferm deuluol, gan olynu ei rhieni. Penodwyd Margaret i'r Pwyllgor Safonau ym mis Rhagfyr 2022.

### IORWERTH ROBERTS
### Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned



Mae Iorwerth yn aelod o Gyngor Cymuned Bryngwran ers 1997 ac, yn ystod y 22 mlynedd diwethaf, mae o wedi bod yn Gadeirydd ar y Cyngor Cymuned.
Bu'n gweithio yn y diwydiant adeiladu am dros 30 mlynedd, gan gynnwys fel tiwtor ac asesydd achredediig. Penodwyd Iorwerth i'r Pwyllgor Safonau am y tro cyntaf yn 2017 a chafodd ei benodi am ail dymor yn Rhagfyr 2022

**Mae'r Pwyllgor Safonau yma i'ch cynorthwyo i gadw at y Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan eich Cyngor. Fel y gwyddoch, mae cynnal y lefel uchaf o ymddygiad moesegol yn rhan hanfodol o'ch rôl wrth gynrychioli'r cyhoedd.**



**Am ragor o wybodaeth am waith y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn, gweler y Rhaglen Waith ar gyfer 2023/2024 yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.**
**Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am waith y Pwyllgor Safonau, cysylltwch â'r Swyddog Monitro ar lynnball@ynysmon.llyw.cymru**

# Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau a dyletswydd newydd yr Arweinyddion Grwpiau

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

1. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, erbyn hyn mae gan Arweinyddion Grwpiau ddyletswyddau mewn perthynas â safonau ymddygiad. Rhaid i arweinydd grŵp gwleidyddol (a) gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel gan aelodau'r grŵp a (b) gweithredu â Phwyllgor Safonau'r Cyngor wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

2. Mae'n bosib y gallai arweinydd grŵp gwleidyddol sy'n methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd newydd mewn ffordd ystyrlon gael eu hystyried i fod yn dwyn anfri ar ei swydd, a'i bod yn debygol eu bod yn torri'r Cod Ymddygiad i Aelodau.

3. Hefyd, mae Deddf 2021 yn gosod dyletswydd ar Bwyllgorau Safonau i lunio adroddiad blynyddol i'r cyngor cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol (1 Ebrill- 31 Mawrth). Rhaid i'r adroddiad gael ei ystyried gan y cyngor perthnasol o fewn tri mis i'w dderbyn.

4. Rhaid i adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau gynnwys asesiad y Pwyllgor o sut y mae Arweinwyr Grwpiau gwleidyddol wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd (paragraff 1 uchod). Bydd rhaid i'r Arweinyddion Grwpiau ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Safonau i'w alluogi i wneud hyn.

5. Ar ôl ystyried gofynion Deddf 2021, lluniwyd adroddiad templed drafft i gynorthwyo'r Arweinyddion Grwpiau ac i'w hatgoffa o'r wybodaeth y mae'n rhaid iddynt ei ddarparu yn eu hadroddiad i'r Pwyllgor Safonau. Mae'r templed ar gael yn **Atodiad 1**.

6. Nid yw'r templed yn gofyn am, ac ni ddylid cynnwys, manylion achosion unigol. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y math o gamau a gymerwyd mewn perthynas â phob mater.

7. Gofynnir i Arweinyddion Grwpiau gynhyrchu'r adroddiadau hyn unwaith y flwyddyn; fodd bynnag, os bydd materion o bwys yn codi yn ystod y flwyddyn, gofynnir i'r Arweinyddion Grwpiau ymgynghori â'r Swyddog Monitro, a fydd yn rhoi gwybod i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

8. Ar ôl eu cwblhau dylai'r Arweinyddion Grwpiau anfon y ffurflenni at y Swyddog Monitro erbyn **30 Ebrill**. Bydd y Swyddog Monitro'n adrodd wrth y Pwyllgor Safonau.

9. Bydd aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau'n trefnu i gwrdd â phob Arweinydd Grŵp yn breifat **yn ystod mis Mai** i drafod yr adroddiad.

10. Bydd y Pwyllgor Safonau'n cynnwys gwybodaeth addas o adroddiadau'r Arweinyddion Grwpiau o fewn ei adroddiad blynyddol i'r Cyngor. Bydd adroddiad blynyddol y Pwyllgor yn cynnwys crynodeb o'r camau a gymerwyd i gyflawni'r ddyletswydd, barn y Pwyllgor ynghylch a yw'r camau a gymerwyd yn ddigonol ac unrhyw ddarnau o waith y gellid eu cyflawni yn y dyfodol ayb.

11. Bydd y Pwyllgor Safonau'n trafod ei adroddiad blynyddol drafft ar gyfer y Cyngor yn ei gyfarfod ffurfiol ym Mehefin. Yn ystod y cyfarfod hwn, bydd y Pwyllgor Safonau'n cytuno ar ei ganfyddiadau o adroddiadau'r Arweinyddion Grwpiau a bydd hefyd yn adnabod, o fewn y fforwm cyhoeddus yma, unrhyw Arweinydd Grŵp sydd wedi methu â chyflwyno adroddiad.

12. Bydd adroddiad blynyddol y Pwyllgor yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn yn y cyfarfod llawn nesaf sydd ar gael yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin.

13. Os yn berthnasol, bydd rhaid briffio aelodau di-gysylltiad (sydd ddim yn perthyn i grŵp) yn yr un modd â'r Arweinyddion Grwpiau er mwyn sicrhau bod safonau ymddygiad uchel yn cael eu cynnal gan bob aelod, er na fydd disgwyl iddynt gynhyrchu adroddiad yn y modd hwn.



DRAFT

**Adroddiad gan Arweinydd Grŵp (AG) i'r Pwyllgor Safonau mewn perthynas â'i ddyletswydd fel AG:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adroddiad gan:** | (enw'r AG) | **Grŵp Gwleidyddol:** | (enw'r Grŵp) |
| **Y cyfnod y mae'r adroddiad yn ymdrin ag o ('y Cyfnod'):** | 1 Ebrill 20___ hyd nes 30 Mawrth 20___ | **Nifer o aelodau yn y grŵp:** | |

**Camau a gymerwyd gan yr AG i hybu cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad:**

*Mae **Atodiad 2** yn cynnwys y math o faterion mae'r Pwyllgor Safonau yn disgwyl i Arweinyddion Grwpiau roddi sylw iddynt a'r trothwy a ddefnyddir gan y Pwyllgor wrth ystyried â ydych chi wedi gweithredu eich dyletswydd fel Arweinydd y Grŵp. Dylech ystyried y materion hyn a'r 10 egwyddor ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus a nodir yn **Atodiad 3** wrth baratoi eich ymateb, os gwelwch yn dda.*

➔ **Ymrwymiad personol**

| Dylech gwblhau'r darn yma yn eich geiriau eich hun. Gweler **Atodiad 2** am fwy o wybodaeth. |
|---|
| |

➔ **Annog aelodau**

| Dylech gwblhau'r darn yma yn eich geiriau eich hun. Gweler **Atodiad 2** am fwy o wybodaeth. |
|---|
| |

➔ **Cydweithrediad gyda'r Pwyllgor Safonau ac Arweinyddion Grwpiau eraill**

| Dylech gwblhau'r darn yma yn eich geiriau eich hun. Gweler **Atodiad 2** am fwy o wybodaeth. |
|---|
| |

**Os gwelwch yn dda, a wnewch chi atodi unrhyw dystiolaeth berthnasol sydd gennych o'r camau rydych wedi eu cymryd o safbwynt y materion uchod.**



DRAFT

**Hyfforddiant Modiwlau Mandadol yn ystod y Cyfnod:**

Gweler y rhestr o Hyfforddiant Mandadol sydd wedi ei gynnwys yn **Atodiad 4.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Nifer o fodiwlau hyfforddiant mandadol sydd angen eu cwblhau gan holl aelodau'r Grŵp:** | | **Nifer o fodiwlau sydd wedi eu cwblhau:** | |
| **Nifer o aelodau o fewn y grŵp sydd wedi cwblhau'r holl fodiwlau mandadol gofynnol:** | | | |
| **Nifer yr aelodau sydd wedi derbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn benodol:** | | | |

**Cyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp yn ystod y Cyfnod:**

| | |
|---|---|
| **Nifer o gyfarfodydd Grŵp sydd wedi eu cynnal ar gyfer holl aelodau'r Grŵp:** | |

**Adolygiad blynyddol rhwng aelodau a'r Arweinydd Grŵp yn ystod y Cyfnod:**

| | |
|---|---|
| **Nifer yr aelodau sydd wedi cael cynnig adolygiad blynyddol gyda'r AG:** | |
| **Nifer yr aelodau sydd wedi derbyn y cynnig uchod gyda'r AG:** | |
| **Nifer yr aelodau sydd wedi mynychu cyfarfod adolygiad blynyddol gyda'r AG:** | |

**Adroddiadau Blynyddol, sy'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor fel arfer dda, ar gyfer y Cyfnod:**

| | |
|---|---|
| **Nifer yr aelodau sydd wedi cyflwyno adroddiad blynyddol:** | |

**Cofrestr Sefydlog o Ddiddordebau Personol:**

| | |
|---|---|
| **Nifer yr aelodau sydd wedi adolygu eu Cofrestr Sefydlog o Ddiddordebau Personol:** | |

**Cwynion:**

| **Cwyn gan:** | **Y camau a gyrhaeddwyd:** | | |
|---|---|---|---|
| (nodwch y niferoedd) | **Anffurfiol** | **Protocol Datrysiad Lleol** | **OGGC** |
| aelod o'r cyhoedd | | | |
| swyddog | | | |
| aelod o'r un grŵp gwleidyddol | | | |
| aelod o wahanol grŵp gwleidyddol / ddim mewn grŵp gwleidyddol | | | |

**Cyfarfodydd cefnogi:**

| | |
|---|---|
| **Nifer yr aelodau sydd wedi cael cynnig cyfarfod cefnogi gan yr AG:** | |
| **Nifer yr aelodau sydd wedi derbyn y cynnig am gyfarfod cefnogi gan yr AG:** | |

**Ystyriaeth o eleni o gymharu gyda'r llynedd:**

| |
|---|
| Mae copi o'r ffurflen a dderbyniwyd gennych y llynedd wedi ei atodi.<br>Eglurwch isod, os gwelwch yn dda, pa faterion rydych yn ystyried eu bod wedi **gwella** eleni? |
| |

| |
|---|
| Mae copi o'r ffurflen a dderbyniwyd gennych y llynedd wedi ei atodi.<br>Eglurwch isod, os gwelwch yn dda, pa faterion rydych yn ystyried sydd **angen sylw** ar gyfer y flwyddyn nesaf gennych? |
| |

***Anfonwch eich adroddiad, os gwelwch yn dda, at y Swyddog Monitro drwy ebostio LynnBall@ynysmon.llyw.cymru***

***Arwyddwyd gan yr AG:***_________________________________________ ***Dyddiad:*** __________________

DRAFT



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

**Camau a gymerwyd gan yr Arweinydd Grŵp i hybu cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad:**

Dylid cwblhau'r rhan yma o'r adroddiad yn eich geiriau eich hun.

**Nid oes angen cynnwys yr holl wybodaeth a sonir amdano isod**. Mae'r materion sy'n dilyn wedi eu cynnwys fel esiamplau o'r math o wybodaeth y gellid ystyried ei gynnwys fel rhan o'ch ymateb ac yn seiliedig ar y Canllaw Statudol sydd wedi ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Ymrwymiad personol:
- Wedi dangos ymrwymiad personol i ddatblygu drwy fynychu hyfforddiant perthnasol mewn perthynas â chydraddoldeb a safonau, gan gynnwys y Cod Ymddygiad;
- Wedi gosod esiampl drwy ddangos egwyddorion ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus yn cynnwys moesgarwch a pharch yn benodol;
- Wedi defnyddio eich dylanwad i hybu diwylliant cadarnhaol;
- Wedi hybu diwylliant sy'n cefnogi safonau ymddygiad uchel ac uniondeb o fewn y grŵp;
- Wedi delio â phroblemau yn syth;
- Wedi hybu cwrteisi a pharch wrth gyfathrebu â'r grŵp ac yn ystod cyfarfodydd o'r grŵp ac yn ystod cyfarfodydd ffurfiol o'r cyngor;
- Wedi gweithio er mwyn gweithredu unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Safonau ynghylch gwella safonau;

Annog aelodau'r grŵp:
- wedi annog aelodau'r grŵp i ddatblygu a mynychu hyfforddiant perthnasol mewn perthynas â chydraddoldeb a safonau, gan gynnwys y Cod Ymddygiad;
- wedi sicrhau bod y rhai a enwebir i bwyllgorau wedi derbyn yr hyfforddiant a argymhellir ar gyfer y pwyllgor hwnnw;

Cydweithio gydag eraill:
- wedi hybu datrysiadau anffurfiol yn y cyngor, a gweithio gyda'r pwyllgor safonau a swyddog monitro i ddatrys materion yn lleol;
- gweithio gyda'r pwyllgor safonau i adnabod patrymau ymddwyn amhriodol, eu hystyried, a mynd i'r afael â nhw e.e. drwy awgrymu neu ofyn am hyfforddiant briodol, gofyn am ddileu negeseuon amhriodol oddi ar wefannau cymdeithasol neu gofyn i ystyried ymddiheuro;
- wedi mynychu cyfarfod o bwyllgor safonau'r cyngor ar gais i drafod materion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad;
- wedi mynychu cyfarfodydd gyda'r Swyddog Monitro a/neu Arweinyddion Grŵp eraill i drafod materion yn ymwneud ag ymddygiad yn ôl y galw;
- wedi gweithio gyda'r Arweinyddion Grwpiau eraill o fewn rheswm, i gefnogi cynnal safonau ymddygiad uchel ar y cyd o fewn y cyngor.

Materion eraill allai fod yn berthnasol:
- Rydych wedi adolygu Canllaw yr Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad yn ystod y flwyddyn. Rydych wedi annog aelodau eich Grŵp i wneud yr un modd.
- Rydych wedi ystyried Newyddlenni y Pwyllgor Safonau yn ystod y flwyddyn. Rydych wedi annog aelodau eich Grŵp i wneud yr un modd.

Gofynnir wrthych am atodi tystiolaeth berthnasol. Yn unol â'r Canllaw Statudol gan Lywodraeth Cymru, awgrymir bod tystiolaeth yn gallu cynnwys nodiadau cyfarfodydd, copiau o ohebiaeth, archwiliadau hyfforddiant aelodau ar faterion megis cydraddoldeb a'r Cod Ymddygiad, a chamau a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn yr hyfforddiant hwnnw.



DRAFT

## 10 Egwyddor Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus statudol yng Nghymru

- Bod yn anhunanol
- Gonestrwydd
- Uniondeb a Phriodoldeb
- Dyletswydd I hybu’r gyfraith
- Gwarchod
- Gwrthrychedd wrth wneud Penderfyniadau
- Cydradoldeb a pharch
- Bod yn Agored
- Atebolrwydd
- Arwain

DRAFFT


Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

**Modiwlau Hyfforddiant Mandadol**

- **Cod Ymddygiad ***
- **Diogelwch Seibr ***
- **Diogelu #**
- **Prosesu Gwybodaeth (GDPR) #**
- **Cydraddoldebau #**
- **Technoleg Gwybodaeth ***

*** = yn ofynnol o fewn 6 mis i aelod gael eu hethol**
**# = yn ofynnol o fewn 12 mis i aelod gael eu hethol**

**Yn ogystal â:**

- **Ar gyfer holl Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Cyngor a'i Bwyllgorau:**
    - **Cadeirio Cyfarfodydd Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion**
      **Yn ofynnol ar ethol yn Gadeirydd / Is-Gadeirydd ac yna pob dwy flynedd os ail-etholir.**

- **Yr Hyfforddiant perthnasol ar gyfer aelod o Bwyllgor penodol, yn cynnwys:**
    - **Pwyllgor Cynllunio**
    - **Pwyllgor Trwyddedu**
    - **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant**
    - **Pwyllgor Apwyntio**

**Mae gofyn i Aelodau gwblhau ac ail-adrodd yr hyfforddiant mandadol gofynnol yn unol â'r manylion â gyhoeddir gan y Cyngor.**

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Dyddiad: | 26ain Medi 2024 |
| Pwnc: | Cais am Gynllun Dirprwyo mewn perthynas â'r Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau statudol mewn cysylltiad a unrhyw ddatblygiad sydd yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Cynghorydd Gary Prichard – Dirprwy Arweinydd<br>Cynghorydd Robin Williams - Dirprwy Arweinydd<br>Cynghorydd Nicola Roberts – Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd<br>Cynghorydd Carwyn Jones – Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball - Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br><br>Christian Branch - Pennaeth y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| Awdur yr Adroddiad: | Angharad Crump - Rheolwr Cyflawni Rhaglen Ynys Ynni |
| Aelodau Lleol: | Yn berthnasol i'r holl Aelodau Etholedig |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau**

1. **I ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, mewn ymgynghoriad a'r Arweinydd (neu pa bynnag wedi ei ddirprwyo i Ddeilydd Portffolio a enwebwyd gan yr Arweinydd), i gyflawni holl swyddogaethau statudol y Cyngor mewn cysylltiad ag unrhyw ddatblygiad sydd yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) ac sy'n gofyn am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) fel y'i diffinnir o dan Ddeddf Cynllunio 2008 fel y diwygiwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.**


2. **Y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd), i ddiweddaru adran 3.5.3.10 o'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r dirprwyaethau a roddwyd gan y penderfyniad.**

3. **Caniatâd i wyro oddi wrth ofynion Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor er mwyn galluogi i gyfieithiad Cymraeg o sylwadau'r Cyngor gael ei hanfon at yr Arolygaeth Gynllunio yn dilyn eu cyflwyno yn y Saesneg. (Mae'r eithriad ei angen oherwydd nad yw amserlen archwiliad NSIP yn caniatáu amser digonol i sylwadau'r Cyngor gael eu cyfieithu erbyn y dyddiad cyflwyno).**

| A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau |
|---|
| **Rhesymau:**<br><br>**Trosolwg o broses archwilio'r NSIP**<br><br>Mae Deddf Cynllunio 2008 (a'r Deddfau Seneddol dilynol sydd wedi diwygio ei chynnwys, megis Deddf Lleoliaeth 2011) yn darparu'r drefn gydsynio ar gyfer rhoi caniatâd cynllunio a chaniatâd arall ar gyfer Phrosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP). Mae prosiectau NSIP yn ddatblygiadau ar raddfa fawr sy'n cynnwys gorsafoedd cynhyrchu ynni, llinellau trydan, cyfleusterau harbwr y mae Llywodraeth y DU o'r farn eu bod mor bwysig fel bod angen i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol gadarnhau ar lefel genedlaethol ganiatâd i'w hadeiladu a'u gweithredu.<br><br>Cyflwynwyd y broses NSIP er mwyn mireinio'r broses gwneud penderfyniadau am brosiectau seilwaith mawr, gan ei gwneud yn decach ac yn gyflymach i gymunedau ac ymgeiswyr fel ei gilydd. I bob pwrpas, mae'r amserlen yn rhagnodi bod yn rhaid i benderfyniad gael ei gadarnhau gan yr Ysgrifennydd Gwladol tua 12 – 15 mis ar ôl cyflwyno'r cais.<br><br>Mae proses yr NSIP yn broses dechrau dwys lle mae gofyn i'r datblygwr ymgynghori ar brosiect arfaethedig cyn cyflwyno cais i'r Arolygiaeth Gynllunio.<br><br>Ar ôl i'r cais gael ei dderbyn, bydd arolygydd/panel o arolygwyr, a elwir yn Awdurdod Archwilio, yn ei archwilio.<br><br>Ar ôl cwblhau'r archwiliad, bydd yr Awdurdod Archwilio yn cyflwyno adroddiad argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol, fydd yn penderfynu a ddylid rhoi caniatâd datblygu.<br><br>Pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu rhoi caniatâd ar gyfer prosiect, bydd hyn yn digwydd trwy Orchymyn Cydsynio Datblygiad (GCD). Bydd un GCD a awdurdodwyd yn briodol yn rhoi'r holl gydsyniadau /pwerau angenrheidiol fel bod modd bwrw ymlaen â'r cynllun, ynghyd â'r caniatâd cynllunio, pwerau prynu gorfodol, awdurdod ar gyfer gwaith priffyrdd a strydoedd, caniatâd adeilad rhestredig ac ati.<br><br>**Rhaglen Ynys Ynni'r Cyngor**<br><br>Trwy ei Raglen Ynys Ynni, mae'r Cyngor, yn ymgysylltu ag amrywiaeth o ddatblygwyr sydd â diddordeb mewn adeiladu a gweithredu ar ddatblygiadau carbon isel ar yr Ynys.<br><br>Felly, byddid yn gwneud cais am ystod y datblygiadau arfaethedig o ran cynhyrchu allbwn a chaniatâd o dan wahanol gyfundrefnau cynllunio.<br>O ran y datblygiadau arfaethedig y mae'r Rhaglen Ynys Ynni yn ymwneud â nhw ar hyn o bryd, byddai'r isod, oherwydd eu hallbwn cynhyrchu, yn creu NSIP a byddai'n |

| A – Argymhelliad/Argymhellion a’r Rheswm/Rhesymau |
|---|
| ofynnol cael GCD gan yr Ysgrifennydd Gwladol;<br><br>- Fferm Wynt Mona (1,500MW) (EnbW) – wedi’i chyflwyno i'w harchwilio<br>- Fferm Solar Maen Hir (dros 350MW) (Lightsource BP) – yn y cam cyn ymgeisio – cyflwyniad Ch1 2025<br>- Byddai datblygiad niwclear newydd yn Wylfa hefyd yn NSIP a byddai angen y cyfryw Orchymyn ar ei gyfer.<br><br>Bydd holl swyddogaethau statudol y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw brosiect NSIP yn cael eu harwain gan y Rhaglen Ynys Ynni sy’n rhan o’r Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd. Defnyddir y dull hwn i sicrhau y gall y Cyngor ddarparu'r adnoddau a'r capasiti arbenigol sydd eu hangen i ymateb i alwadau a gofynion y broses mewn modd effeithiol ac amserol o ran ei swyddogaethau statudol ac anstatudol. Mae’r dull hwn, hefyd, yn sicrhau nad yw ymgysylltiad y Cyngor ag NSIP yn ymyrryd â swyddogaeth Gynllunio’r Cyngor.<br><br>Sicrheir adnoddau a chapasiti’r Cyngor i ymdrin â phrosiectau NSIP trwy ddarparu Cytundeb Perfformiad Cynllunio y ceir cytundeb y Cyngor a’r datblygwr iddo. Fel arfer, cytunir ar y Cytundeb Perfformiad Cynllunio fesul cam, rhywbeth sy’n fodd i’r Cynghorau ymgysylltu ag NSIP penodol ar gyfer y cam cyn ymgeisio, archwilio ac ôl-gydsynio. Fel hyn, mae modd i’r Cyngor ymgysylltu, dylanwadu a chyflawni ei ddyletswyddau statudol ac anstatudol ar bob cam o'r prosiect. Mae'r Cytundeb yn fodd i ni ddefnyddio ein contractwyr fframwaith ar gyfer cymorth, sy'n cynnwys cymorth amlddisgyblaethol a chyfreithiol.<br><br>Arweiniodd y Rhaglen Ynys Ynni ar ymatebion y Cyngor i brosiect Niwclear Newydd Wylfa Newydd, oedd yn brosiect NSIP, ac mae wedi arwain ar nifer o gynlluniau eraill a nodir yn Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac sy’n cael eu harchwilio gan Lywodraeth Cymru. Mae’r Rhaglen Ynys Ynni, felly, yn brofiadol ac yn gyfarwydd â’r broses gydsynio NSIP.<br><br>**Rôl statudol y Cyngor mewn perthynas â phrosiect NSIP**<br><br>Mae'r Arolygiaeth yn annog awdurdodau lleol i sicrhau bod ganddynt ddigon o ddirprwyaethau ar waith gan fod cam archwilio proses yr NSIP yn cymryd llawer o amser ac adnoddau ac, oherwydd mai’r Arolygiaeth sy’n pennu’r amserlen archwilio, nid yw'n bosibl cysoni'r terfynau amser fel bod y Cyngor yn cyflwyno sylwadau a thystiolaeth gyda chylch pwyllgorau'r Cynghorau.<br><br>Mae gan y Cyngor rôl allweddol a statudol fel yr awdurdod lletyol lleol, yr awdurdod cynllunio lleol a'r awdurdod priffyrdd lleol, drwy gydol y broses fel y nodir isod; |

## A – Argymhelliad/Argymhellion a’r Rheswm/Rhesymau




Yn ystod y cyfnod archwilio bydd nifer o derfynau amser i'r Cyngor fel yr Awdurdod Lletyol Lleol gyflwyno cyflwyniadau a thystiolaeth. Yn eu plith, mae’r isod;

- Adroddiad ar yr Effaith yn Lleol
- Sylwadau Ysgrifenedig
- Ymrwymiad Cynllunio (A106)
- Datganiad Tir Cyffredin
- Ymateb i gwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio
- Ymateb i gais yr Awdurdod Archwilio am wybodaeth
- Gofynnir i'r Cyngor hefyd gymryd rhan yn ngwrandawiadau a sesiynau’r ymchwiliad.

Yr Arolygiaeth Gynllunio sy’n pennu dyddiad cau cyflwyno’r dogfennau hyn ac, felly, nid yw’n bosibl eu cysoni â chylch pwyllgorau’r Cyngor i’r rhain gael eu cymeradwyo.

Tra bod angen y Cynllun Dirprwyo i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol, cadarnheir y gwneir pob ymdrech ar bob cam i sicrhau cymaint o fewnbwn

| A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau |
| --- |

gwleidyddol â phosibl drwy'r trefniadau llywodraethu a ganlyn, sydd eisoes ar waith.

| | |
| --- | --- |
| Lefel 1 | Arweinydd<br>Prif Weithredwr<br>(Uwch-berchennog Cyfrifol Rhaglen Ynys Ynni) |
| Lefel 2 | Arweinydd<br>Dirprwy Arweinwyr<br>Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd,<br>Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Pennaeth Rheoleiddio Gwasanaeth a Datblygu Economaidd |
| Lefel 3 | Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth – 'Arweinwyr Eithriadol'<br>Rheolwr Cyflawni Rhaglen Ynys Ynni |
| Lefel 4 | Arweinwyr Pwnc Arbenigol (yn fewnol ac allanol (darperir allanol ar y Cytundeb Fframwaith ac fe'i hariennir dan ddarpariaeth Cytundeb Perfformiad Cynllunio)) |

Caiff swyddogion Lefel 1 eu briffio'n rheolaidd o ran ymgysylltiad y Rhaglen Ynys Ynni â phrosiect penodol a byddant, hefyd, yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r swyddog cyfatebol er mwyn i'r prosiect gymryd rhan mewn trafodaethau strategol.

Defnyddir y cyfarfodydd Lefel 2 rheolaidd i;

- rhannu gwybodaeth mewn perthynas â'r cynnig;
- ystyried a thrafod safbwynt y Cyngor mewn perthynas â'r cynnig;
- trafod yr effeithiau posibl a sut y caiff y rhain eu dileu neu eu lliniaru;
- trafod sut y gellir manteisio i'r eithaf ar fuddion lleol a'u sicrhau'n briodol;
- trafodaeth ynghylch cynigion iawndal gan gynnwys y rhai a sicrhawyd drwy A106.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd hefyd ar Lefel 3 a Lefel 4 i sicrhau bod materion a chyfarwyddiadau strategol yn cael eu rhaeadru i lawr yn ogystal â bod yn fforwm ar gyfer trosglwyddo'n uwch broblemau ac anawsterau a gafwyd wrth ymwneud â phrosiect o'r maint hwn.

Mae Lefel 3 a Lefel 4 yn swyddogion sy'n ymwneud â manylion technegol prosiect penodol.

Trefnir Sesiynau Briffio Aelodau Penodol, hefyd, gan y Rhaglen Ynys Ynni sy'n fodd i aelodau etholedig y wardiau hynny, y mae NSIP penodol a'r datblygwyr yn effeithio arnynt, ymgysylltu uniongyrchol â'i gilydd. Mae hyn yn cynnwys cyfle i aelodau gael gwybodaeth lawn am y prosiect a chael cyfle i ofyn cwestiynau.

**A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau**

Bydd copïau o'r holl gyflwyniadau ffurfiol i'r archwiliad hefyd yn cael eu rhannu â swyddogion L2 ac aelodau etholedig perthnasol y wardiau y bydd y prosiectau'n cael effaith arnynt.

Bydd Datganiad Sefyllfa Cyngor Cyfan yn cael ei baratoi ar gyfer unrhyw brosiect NSIP. Mae'r Datganiad hwn yn ddogfen strategol allweddol sy'n ateb y diben a ganlyn;

- cadarnhau safbwynt y Cyngor cyfan mewn perthynas â phrosiect NSIP penodol
- dylanwadu ar yr hyn a ystyrir yn dderbyniol ac annerbyniol i'r Cyngor yn y cyflwyniad GCD a'i lywio;
- siapio holl sylwadau ysgrifenedig dilynol y Cyngor a chyflwyniadau i'r Archwiliad GCD;
- fframio'r hyn a geisir gan y Cyngor o ran lliniaru a buddion, er mwyn cyflawni ei amcanion a gofynion polisi cyffredinol; yn ogystal â
- sefydlu'r paramedrau ar gyfer gwneud penderfyniadau, yn unol â chynllun Dirprwyo'r Cyngor Sir

Cadarnheir bod cynllun dirprwyo wedi'i roi ar waith i'r Cyngor ymdrin â Phrosiect Wylfa Newydd oedd yn gyfystyr ag NSIP a bod y Pwyllgor Gwaith eisoes wedi cytuno ar Gynllun Dirprwyo. Gwneir hynny mewn perthynas â'r Cyngor yn cyflawni ei swyddogaeth statudol ar gyfer pob prosiect sy'n gyfystyr â Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol, sy'n cynnwys Prosiect Fferm Solar Traffwll a archwiliwyd yn ddiweddar.

Cadarnhaodd ymwneud y Cyngor yng ngwaith archwilio'r ddau brosiect hyn fod angen cael cynllun dirprwyo ar waith i sicrhau y gallai'r Cyngor gyflawni ei ddyletswyddau statudol yn effeithiol o ran ymgysylltu â phrosiect o'r maint hwn, cyflwyno'i gyflwyniadau o fewn y terfynau amser a ragnodwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio a chymryd rhan yn y broses archwilio, naill ai drwy wrandawiadau neu ymholiadau.

Cadarnhaodd ein hymwneud yn y ddau archwiliad hyn, hefyd, fod ein dull gweithredu o ran cael Datganiad Sefyllfa Gorfforaethol yn ei le i lywio ein safbwynt mewn perthynas â phrosiect, wedi sicrhau bod safbwynt y Cynghorau, fel y'i nodwyd yn ein cyflwyniadau a'n tystiolaeth i'r archwiliad, yn gyson â'r sefyllfa gorfforaethol y cytunwyd arni.

Am y rheswm hwn gofynnir fod y Cyngor yn cefnogi rhoi cynllun dirprwyo ar waith sy'n caniatáu i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd gyflawni holl swyddogaethau statudol y Cyngor.

Argymhellir, hefyd fod y Cyngor yn cytuno, o ran y dirprwyaethau a gynigir, y gall unrhyw gamau a gymerir oddi tanynt gael eu dirprwyo ymhellach i unrhyw un o swyddogion y Cyngor gan y swyddog penodedig. Mae angen y gallu i ddirprwyo ymhellach fel bod modd i swyddogion gynrychioli'r Cyngor yn effeithiol mewn gwrandawiadau ac ymchwiliadau a chytuno ar faterion yn ystod archwiliad o'r fath.

| A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau |
|---|
| - **Cyflwyno fersiynau wedi'u cyfieithu o gyflwyniadau'r Cyngor**<br><br>O ran cyflwyno fersiynau dwyieithog o sylwadau a thystiolaeth y Cyngor i'r archwiliad, nid yw'r amserlen archwilio a ddarperir gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn caniatáu digon o amser i gyfieithu cyflwyniadau'r Cyngor erbyn y dyddiad cyflwyno. Gofynnir felly am ganiatâd i wyro oddi wrth ofynion polisi Iaith Gymraeg y Cyngor i ganiatáu ar gyfer cyfieithiad Cymraeg o gyflwyniadau'r Cyngor gael ei cyflwyno i'r broses archwilio ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno. Cadarnheir y gofynnir am hyn fel eithriad oherwydd gofynion y broses ac y darperir fersiwn Gymraeg o gyflwyniad y Cyngor bob amser.<br><br>Ni fydd y mesur hwn yn cael effaith ar y Cyngor yn cydymffurfio â safonau darparu gwasanaeth statudol, sy'n sicrhau gohebiaeth Gymraeg/ddwyieithog gyda'r cyhoedd a phersonau eraill yng Nghymru. Nid yw'r safonau hyn yn rhagnodi bod yn rhaid cyfathrebu â chyrff y tu allan i Gymru, megis Llywodraeth y DU, yn Gymraeg/dwyieithog. Bydd gohebiaethau/dogfennau perthnasol ar gael yn Gymraeg cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Ni chaiff unrhyw ddogfennau eu cyhoeddi na'u cyhoeddi'n gyhoeddus hyd nes y bydd cyfieithiad Cymraeg ar gael. |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Yr opsiwn arall a ystyriwyd oedd peidio â cheisio'r dirprwyaethau y gofynnwyd amdanynt. Byddai hyn yn golygu y byddai angen i'r Pwyllgor Gwaith a/neu'r Cyngor Llawn gymeradwyo holl sylwadau a thystiolaeth y Cyngor ar archwiliad NSIP.<br><br>Gwrthodwyd yr opsiwn hwn gan na fyddai'n bosibl cysoni'r amserlen archwilio a ragnodwyd gan yr Arolygiaeth â chylch pwyllgorau'r Cyngor. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu na fyddai'r Cyngor yn gallu cyflwyno ei sylwadau a'i dystiolaeth i'r archwiliad ar amser ac, felly, ni fyddai'n cymryd rhan lawn yn yr archwiliad nac yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol.<br><br>Fel yr awdurdod lletyol lleol, awdurdod cynllunio lleol ac awdurdod priffyrdd lleol, mae gan y Cyngor rôl bwysig i'w chwarae wrth archwilio cais NSIP.<br><br>Oherwydd dull rhagnodedig amserlen archwiliadau NSIP, nid oes cyfleoedd i wneud cais i ymestyn terfynau amser.<br><br>Ystyrir bod y dirprwyaethau a geisir yn gydbwysedd priodol rhwng cael Aelodau yn ymgysylltu â cheisiadau NSIP a chaniatáu i Swyddogion baratoi a chyflwyno sylwadau i'r archwiliad, sy'n fodd i'r Cyngor gyflawni ei ddyletswyddau statudol yn llawn ac o fewn yr amserlenni archwilio a bennir gan yr Arolygaeth. |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| O ran gallu cyflwyno fersiynau dwyieithog o gyflwyniad a thystiolaeth y Cyngor adeg y cyflwyno, unwaith eto, nid yw'r amserlen a bennwyd gan yr Arolygiaeth yn rhoi digon o amser i ddrafftio a sicrhau y caiff y gwaith cyfieithu ei wneud cyn y dyddiad cyflwyno. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Bwriedir gwneud newidiadau i gyfansoddiad y Cyngor. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn? |
|---|
| Mae'r Cyngor eisoes wedi cymeradwyo math tebyg o ddirprwyaeth mewn perthynas â swyddogaethau statudol y Cyngor mewn cysylltiad ag archwilio Prosiect Wylfa Newydd, oedd yn brosiect NSIP. Mae hyn, hefyd, mewn perthynas â swyddogaethau statudol y Cyngor ar gyfer pob prosiect sy'n gyfystyr â Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol, sy'n cynnwys Prosiect Fferm Solar Traffwll a archwiliwyd yn ddiweddar.<br><br>Cadarnhaodd cyfranogiad y Cyngor ar gyfer archwiliad y ddau brosiect yma fod angen cael cynllun dirprwyo yn ei le i sicrhau y gallai'r Cyngor gyflawni ei ddyletswyddau statudol yn effeithiol o ran ymgysylltu â phrosiect o'r maint hwn, cyflwyno'i gyflwyniadau o fewn y terfynau amser a ragnodwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio a chymryd rhan yn y broses archwilio, naill ai drwy wrandawiadau neu ymholiadau. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Nid yw'n ofynnol cael cyllideb. |

| Dd – Asesu'r effaith posibl: (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Bydd y penderfyniad hwn yn fodd i'r Cyngor gyfrannu'n llawn at archwilio ar amser unrhyw ddatblygiad sy'n gyfystyr â Phrosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol |

| Dd – Asesu’r effaith posibl: (os yw’n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 3 | A ydym wedi bod yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill i ddod i’r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod â phwy. | Amherthnasol |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai y mae’r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Eglurwch sut. | Nac ydynt |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei chael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai’r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | Byddai'r penderfyniad hwn yn sicrhau bod sylwadau'r Cyngor ar waith archwilio unrhyw gais NSIP yn cael eu cyflwyno'n ddwyieithog. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch-dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Yn gefnogol o argymhellion |
| 2 | Cyllid/Adran 151 (gorfodol) | - |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro | Yn gefnogol o argymhellion |
| 4 | Adnoddau Dynol | - |
| 5 | Eiddo | - |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | - |
| 7 | Caffael | - |
| 8 | Sgriwtini | - |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
| --- |
| Amherthnasol |

| Ff – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
| --- |
| Amherthnasol |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **Pwyllgor Gwaith - 24/9/2024**<br>**Cyngor - 26/9/2024** |
| Pwnc / Testun: | **Newid y Cyfansoddiad – Polisi Pryderon a Chwynion a Rheolau Gweithdrefn Contractau** |
| Aelod(au) Portffolio: | **Carwyn Jones**<br>**Aelod Portffolio – Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer**<br><br>**Robin Williams**<br>**Aelod Portffolio – Dirprwy Arweinydd a Chyllid** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br><br>**Marc Jones**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>Ebost: | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr Llywodraethu Corfforaethol a Chontractau**<br>**01248 752566**<br>**maredyaxley@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Perthnasol i bob aelod** |

## A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

**Argymhellion**

1. Tynnu'r canlynol o'r Cyfansoddiad:

   - Polisi Pryderon a Chwynion
   - Rheolau Gweithdrefn Contractau a
   - dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro i wneud unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r penderfyniadau hyn.

2. Bod y Polisi Pryderon a Chwynion, a'r Rheolau Gweithdrefn Contractau (ynghyd â'r holl ddogfennau ategol perthnasol) ar gael yn rhwydd ar wefan y Cyngor.

3. Ni fydd y Cyngor llawn bellach yn gyfrifol am gymeradwyo unrhyw newidiadau i'r Polisi Pryderon a Chwynion a Rheolau Gweithdrefn Contractau, a byddant yn cael eu cymeradwyo gan:

   - y Pwyllgor Gwaith; neu gan

- y Swyddog Monitro*, o dan bwerau dirprwyedig, os nad yw'r newidiadau'n darparu dewis lleol, neu'n fân newidiadau

  *Bydd unrhyw newidiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Contractau bob amser yn cael eu trafod â'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

**Cefndir / Trefniadau Presennol yn gysylltiedig â'r Polisi Pryderon a Chwynion**

Mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi Polisi Pryderon a Chwynion (PPCh) sy'n cyd-fynd â'r polisi enghreifftiol a ddarparwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ac sy'n dilyn safonau a chanllawiau arfer da Awdurdod Safonau Cwynion yr Ombwdsmon.

Mae PPCh y Cyngor yn cydymffurfio â'r disgwyliadau hyn.

Mae disgwyl i OGCC adolygu ei pholisi enghreifftiol yn ystod 2024/2025. Fel ac y mae pethau ar hyn o bryd, bydd rhaid i unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r adolygiad hwnnw gael eu mabwysiadu gan y Cyngor llawn ar ôl cael eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Wedi hynny, bydd rhaid i unrhyw newidiadau sylweddol ddilyn yr un broses.

**Cefndir / Trefniadau Presennol yn gysylltiedig â'r Rheolau Gweithdrefn Contractau**

Bu newidiadau sylweddol ym maes caffael nwyddau a gwasanaethau yn y sector cyhoeddus. Bydd Deddf Caffael 2023 yn dod i rym yn fuan yn awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr. Bydd Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2024 yn dod i rym yn awdurdodaeth Cymru yn unig. Ynghyd â llu o ddogfennau a phrosesau eraill i gydymffurfio a'r ddeddfwriaeth uchod mae Rheolau Gweithdrefnau Contractau newydd wedi cael eu llunio ac maent yn destun ymgynghoriad mewnol ar hyn o bryd.

O dan y trefniadau llywodraethu presennol, bydd rhaid i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r RhGCau, wedi iddynt gael eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Yn y dyfodol bydd rhaid dilyn yr un broses gymeradwyo ar gyfer pob newid sylweddol. Gan fod y ddeddfwriaeth newydd mor gymhleth, mae'r gyfraith ac ymarfer cyfreithiol yn y maes yn debygol o ddatblygu ac felly mae'n bosib y bydd angen rhagor o newidiadau wrth i'r ddeddfwriaeth ddod i gysylltiad â'r "byd go iawn".

**Y Newid Arfaethedig**

Mae'r rhain yn ymddangos ym mharagraffau 1 – 3 yn yr **Argymhellion** uchod. Yn gryno, mae'r cynnig yn golygu tynnu'r PPCh a'r RhGCau o'r Cyfansoddiad a chaniatáu i unrhyw newidiadau sylweddol yn y dyfodol gael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith. Bydd y PPCh a'r RhGCau, ynghyd ag unrhyw ddogfennau ategol, ar gael mewn lle amlwg ar wefan y Cyngor.

**Ffactorau Perthnasol y dylid eu Hystyried**

1. Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i gynnwys y PCCh/RhGCau yn y Cyfansoddiad, ac nid yw hynny'n ddisgwyliedig gan reoleiddwyr y Cyngor chwaith.

2. Ni waeth pwy fydd yn gyfrifol am ddiwygio'r PCCh/RhGCau, y Cyngor neu'r Pwyllgor Gwaith, bydd yr un faint o dryloywder ac atebolrwydd. Felly bydd agendau / adroddiadau / cyfarfodydd cyhoeddus / cofnod o benderfyniadau / cofnodion / gweddarllediadau boed yn gyfrifoldeb i'r Cyngor neu'r Pwyllgor Gwaith. Os bydd y rôl yn cael ei chyflawni gan y Pwyllgor Gwaith yna bydd modd i'r penderfyniadau gael eu galw i mewn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, a'u huwchgyfeirio i'r Cyngor os yw'r Pwyllgor yn penderfynu gwneud hynny. Hefyd, mae'n bosib y bydd Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn dymuno adolygu'r newidiadau cyn i'r Pwyllgor Gwaith wneud penderfyniad.

**Rhan 5 – CWMPAS Y CYNLLUN CYNNWYS CYMUNEDAU**

5.1 Cyflwyniad
5.2 Amcanion ac egwyddorion y Cynllun Cynnwys Cymunedau
5.3 Darparwyr mewnbwn disgwyliedig
5.4 Cyfranogiad y gymuned a Rhanddeiliaid Allweddol
5.5 Dulliau Ymgysylltu, Ymgynghori a Chyfranogi
5.6 Cydbwyllgor Corfforaethol a threfniadau gweithio ar y cyd
5.7 Cynnwys Aelodau Etholedig
5.8 Cynnwys swyddogion y Cyngor
5.9 Argaeledd dogfennau ac adborth
5.10 Defnydd o'r Gymraeg ac ieithoedd eraill
5.11 Disgwyliadau cymunedau a budd-ddeiliaid allweddol
5.12 Cofrestr safleoedd posibl

DRAFT

**ATODIADAU**

Atodiad 1: Profion cadernid
Atodiad 2: Camau allweddol ym mhroses paratoi'r CDLl a chyfleoedd cyfranogi
Atodiad 3: Prosesau adrodd a gwneud penderfyniadau ar gyfer camau allweddol y CDLl
Atodiad 4: Risgiau posib a dulliau ymateb
Atodiad 5: Cynnwys ac Ymgynghori â'r Gymuned

DRAFT

# ADRAN A – CYTUNDEB CYFLAWNI

## Rhan 1 – CYD-DESTUN

### 1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru i baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer eu hardaloedd. Mae'r Cytundeb Cyflawni (CC) drafft hwn wedi'i baratoi gan Gyngor Sir Ynys Môn (CSYM) i ddylanwadu a llywio'r gwaith o baratoi CDLl newydd. Yn dilyn ei fabwysiadu fe fydd y CDLl newydd yn disodli'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd, y cynllun cyfredol). Mae'r map ar y dudalen nesaf yn dangos ardal y CDLl.

**1.1.2 Mae Cynllun Datblygu Lleol yn agwedd allweddol o'r system gynllunio. Pwrpas Cynllun Datblygu Lleol yw i hysbysu penderfyniadau ar gynigion datblygu yn y dyfodol ac hefyd i gyfarch anghenion a chyfleuon yr ardal. Dylai'r Cynllun Datblygu Lleol gyfrannu tuag at wireddu datblygiad cynaladwy a bod yn gyson ac egwyddorion a pholisiau cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol. Pwrpas Cynllun Datblygu Lleol yw cynnig arweiniad ar y mathau o ddatblygiadau sy'n addas mewn gwahanol leoliadau. Mae'r ddeddfwriaeth yn egluro dylai penderfyniadau cynllunio gael eu gwneud yn unol a'r polisiau a'u cynwysir yn y Cynllun Datblygu Lleol os nad oes ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill yn gymhwys.**

1.1.3 Mae'n rhaid paratoi CC cyn y gellir symud ymlaen i'r broses ffurfiol o baratoi'r CDLl. Mae'r CC ar ei ffurf derfynol yn rhan bwysig a chyfreithiol o'r broses o lunio'r CDLl ac mae'n ffurfio cytundeb swyddogol rhwng CSYM a Llywodraeth Cymru. Yn ystod Archwiliad Cyhoeddus o'r CDLl. Fe fydd unrhyw wyriadau oddi wrth y CC na chafodd eu cytuno iddynt gan Lywodraeth Cymru yn ffurfio prawf pwysig o gadernid y CDLl. Mae cynnwys y CC, ei gydymffurfiaeth a'i ddarpariaeth yn hanfodol i fabwysiadu CDLl newydd.

1.1.4 Yn unol â rheoliadau 6, 8 a 9 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd) a'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, mae'r CC drafft hwn wedi'i rannu'n ddwy ran:

- Yr amserlen sydd yn gosod allan dyddiadau pendant ar gyfer y camau o baratoi'r CDLl hyd at y cyfnod Cynllun Adnau gyda dyddiadau dangosol hyd at fabwysiadau.
- Y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC) a fydd yn amlinellu:
    - gyda phwy fydd y Cyngor Sir yn cysylltu wrth baratoi'r CDLl;
    - sut a phryd y gall swyddogion y Cyngor, Aelodau Etholedig, y cyhoedd, grwpiau sydd â diddordeb yn yr ardal, a datblygwyr gyfrannu at y broses gyfan; a
    - beth fydd yn digwydd i sylwadau a dderbynnir gan grwpiau o'r fath.

DRAFT

1.1.5 Mae CC hefyd yn gosod allan sut y bydd y CDLl newydd yn cael ei asesu yn unol â gofynion y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2020) trwy’r Arfarniad Cynaladwyedd ag Asesiadau Effaith Integredig yn cynnwys Asesiad Effaith y Cynllun ar yr iaith Gymraeg. Mae diagram 1 isod yn crynhoi cyfnodau allweddol y broses o baratoi'r cynllun, ynghyd â'r ystyriaethau allweddol.





*Diagram 1: Cyfnodau allweddol paratoi Cynllun Datblygu Lleol*




*Diagram 2: Ardal CDLl*

## 1.2 Y sefyllfa bresennol

1.2.1 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn datgan bod rhaid adolygu Cynllun Datblygu Lleol ar ôl cyfnod o 4 blynedd yn dilyn ei fabwysiadu. Yn dilyn adolygiad o'r fath yn 2021, daethpwyd i'r casgliad, er nad oedd unrhyw faterion sylweddol wedi'u hamlygu yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol, bod newidiadau cyd-destunol a materion y tu hwnt i reolaeth y CDLl ar y Cyd, yn golygu bod angen cynnal Adolygiad Cynllun Llawn. Ers i'r Adroddiad Adolygu gael ei baratoi mae penderfyniad wedi cael ei wneud gan CSYM a Chyngor Gwynedd i ddod a'r cytundeb cyd weithio i ben a pharatoi Cynlluniau Datblygu Lleol ar gyfer yr Awdurdodau Cynllunio Lleol Unigol.

1.2.2 Er ei fod yn CDLl newydd, mi fydd y Cynllun yn adeiladu ar waith y CDLl ar y Cyd presennol (lle yn berthnasol) a lle, er enghraifft mae materion, amcanion, tystiolaeth sylfaenol, polisïau neu gynigion, yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfredol yn dilyn eu hail-asesu'n drylwyr, gellir parhau a hwy yn y CDLl newydd.

## 1.3 Paratoi'r Cytundeb Cyflawni

1.3.1 Bydd y CC drafft hwn yn destun ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid a thrigolion allweddol. Rhoddir ystyriaeth ddyledus i bob safbwynt ac fe gaiff y CC ei ddiwygio lle ystyrir ei bod yn briodol. Ar ôl i'r Cyngor Llawn ystyried a

mabwysiadu'r CC yn ffurfiol, caiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gytuno. Mae'r siart llif isod yn arddangos y broses sy'n rhaid ei ddilyn wrth baratoi'r CC. Bydd yn rhaid i CSYM fonitro cynnydd y broses datblygu cynllun yn erbyn cynnwys y Cytundeb Cyflenwi a phe bai unrhyw ddiwygiad yn cael ei ystyried yn angenrheidiol, bydd y rhain yn destun yr un broses.





*Diagram 3: Proses y Cytundeb Cyflawni*

## 1.4 Profion Cadernid

1.4.1 Rhaid i'r CDLl basio'r prawf "cadernid" h.y. mae rhaid i CSYM sicrhau fod y Cynllun yn cael ei baratoi yn gywir ag yn bodloni'r 3 prawf cadernid fel y sefydlwyd yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 3 (Mawrth 2020). Sef:

- a yw'r Cynllun yn addas? (A yw'n glir bod y CDLl yn gyson â chynlluniau eraill?)
- a yw'r Cynllun yn briodol? (A yw'r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal o ystyried y dystiolaeth?)
- a fydd y Cynllun yn Cyflawni? (A yw'r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal o ystyried y dystiolaeth?)

Bydd Arolygydd, a benodir gan Lywodraeth Cymru/Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru, yn llywyddu Archwiliad Cyhoeddus y Cynllun i bennu ei gadernid ai peidio. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn **Atodiad 1** y Cytundeb hwn.

## 1.5 Cynaladwyedd ac Asesiadau Effeithiau Inteegredig

1.5.1 Ar gyfer y CDLl, rhaid i'r Cyngor ystyried sefydlu gwaelodlin yr Asesiad Cynaliadwyedd (AC), sy'n cynnwys gofynion yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ac ailystyried dilysrwydd fframwaith AC ar gyfer y CDLl ar y Cyd. Bydd rhannau o'r fframwaith AC ar gyfer y CDLl ar y Cyd cyfredol sy'n parhau'n berthnasol yn cael eu diweddaru ar gyfer y CDLl newydd.

1.5.2 Mae canllawiau cenedlaethol yn darparu y gall Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig (ISA) fod yn briodol i asesu effaith y CDLl ar rai materion gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, effeithiau ar iechyd, effaith ar y Gymraeg ac effaith ar gydraddoldeb. Bydd adroddiad cwmpasu yn cael ei baratoi ac ymgynghorir arno yn gynnar yn y broses o baratoi'r cynllun a thrwy hynny sicrhau bod y fframwaith a ddefnyddir yn briodol.

1.5.3 Unwaith y bydd wedi'i gwmpasu, bydd yr AC/ISA yn cael ei ddefnyddio i arfarnu polisïau a chynigion a ddatblygwyd ac a gyflwynir fel rhan o'r Cynllun. Cyhoeddir adroddiadau ochr yn ochr â chamau penodol y broses o baratoi'r CDLl, a fydd yn dogfennu'r asesiad o'r camau a gymerwyd hyd at y pwynt hwnnw. Bydd yr asesiadau a wneir yn rhan o'r ymgynghoriadau ar y camau penodol (a amlinellir yn **Atodiad 2**). Bydd yr AC/ISA yn rhan annatod o'r asesiad o Safleoedd Ymgeisiol a gynhyrchir gan y broses galw am safleoedd.

1.5.4 Bydd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) hefyd yn cael ei gynnal ond fel sy'n ofynnol gan y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, caiff ei baratoi ar wahân ac ni chaiff ei integreiddio â'r AC. Serch hynny, dylai'r AC grynhoi canfyddiadau'r ARhC fel rhan o'i asesiad o effeithiau ar fioamrywiaeth. Bydd yr ARhC yn cynorthwyo gyda pharatoi strategaeth, polisïau a dyraniadau tir y CDLl trwy nodi eu potensial i effeithio ar gynefinoedd amgylcheddol a ddynodwyd yn genedlaethol, sef Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a safleoedd Ramsar. Os oes gan unrhyw bolisi neu ddyraniad y potensial i effeithio'n sylweddol ar safle dynodedig, bydd hyn yn gofyn am Asesiad Priodol manwl i werthuso'r effeithiau posibl a phenderfynu a ellir eu lliniaru'n briodol.

## 1.6 Gweithio ar y Cyd

1.6.1 Mae awdurdodau cyfagos wedi cyrraedd y camau a nodir yn y tabl isod mewn perthynas â'u Cynlluniau Datblygu Lleol:

| Awdurdod | Cam |
|---|---|
| Cyngor Gwynedd | Cytundeb Cyflawni |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Cynllun Adnau |
| Parc Cenedlaethol Eryri | Adolygiad o gynllun 2016-31 |

*Tabl 1: Dilyniant cynllun datblygu mewn ACLlau cyfagos*

1.6.2 Mae ymrwymiad a bwriad i gydweithio a pharhau i gydweithio lle bo'n briodol wrth baratoi'r Cynllun a sicrhau bod y Cynllun yn gydnaws â Chynlluniau'r awdurdodau hynny lle bo modd. Ymhellach, a ble fo'n briodol, fe all fod yna gyfleoedd i gynnal astudiaethau/datblygu sail tystiolaeth ar y cyd.

## 1.7 Cynllun Datblygu Strategol (CDS)

1.7.1 Mae hierarchaeth cynlluniau datblygu Cymru yn cynnwys system dair haen lle mae Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 ar yr haen uchaf gyda Chynlluniau Datblygu Strategol yn meddiannu'r haen ganol a CDLlau yn darparu'r lefel leol, is.

1.7.2 Hyd yma, nid oes tîm rhanbarthol i symud y CDS yn ei flaen wedi ei sefydlu eto ac o ystyried y diffyg Cytundeb Cyflawni yn hyn o beth, nid oes amserlen ddiffiniedig yn amlinellu'r amserlen ar gyfer cyflawni elfen polisi rhanbarthol yr hierarchaeth. Beth bynnag am hyn, mae'n rhaid i waith ar baratoi'r CDLl barhau a thrwy hynny sicrhau bod cwmpas polisi lleol yn parhau i fod yn gyfredol ac yn berthnasol.

1.7.3 O ran cadernid a hierarchaeth, bydd y CDLl yn cael ei ddatblygu i fod mor gyson â phosibl â'r fframwaith cenedlaethol a'r cynllun datblygu strategol (unwaith y caiff ei fabwysiadu).

## 1.8 Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)

1.8.1 Pwrpas CCA ydi:

DRAFT

- cynorthwyo ymgeiswyr a'u hasiantau wrth baratoi eu cynigion cynllunio ac i'w harwain mewn trafodaethau gyda swyddogion cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio;
- cynorthwyo swyddogion i asesu ceisiadau cynllunio a swyddogion a chynghorwyr i wneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio; a
- helpu Arolygwyr Cynllunio i wneud penderfyniadau ar apeliadau.

Y nod cyffredinol yw gwella ansawdd datblygiad newydd a hwyluso dull cyson a thryloyw o wneud penderfyniadau.

1.8.2 Cefnogir y Cynllun presennol gan gyfres o CCA, rhai ohonynt wedi eu mabwysiadu cyn y cyfnod o gydweithio gyda Chyngor Gwynedd gyda'r gweddill yn cael eu paratoi a'u mabwysiadu ar y cyd. Rhestrir y CCA cyfredol isod.

| Teitl CCA | Mabwysiadu |
|---|---|
| Sefydliadau Prydau Bwyd Poeth | 1993 |
| Canllawiau Cynllunio Atodol GC | 2002 |
| Llety Gwyliau | 2007 |
| Safonau Parcio | 2008 |
| Canllaw Dylunio ar Gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig | 2008 |
| AC/AAS Tyrbinau Ynni Gwynt ar y Tir | 2013 |
| Ynni Gwynt ar y Tir | 2013 |
| Sgrinio ARhC Tyrbin Gwynt ar y Tir | 2013 |
| Cymysgedd Tai | 2018 |
| Wylfa Newydd | 2018 |
| Llecynnau Agored mewn Datblygiadau Tai Newydd | 2019 |
| Tai Marchnad Leol | 2019 |
| Tai Fforddiadwy | 2019 |
| Ail-adeiladu Tai a Throsi yng Nghefn Gwlad | 2019 |
| Rhwymedigaethau Cynllunio | 2019 |
| Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy | 2019 |
| Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu | 2021 |
| Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid | 2021 |

*Tabl 2: CCA mewn grym ar hyn o bryd*

1.8.3 Fel rhan o baratoi'r CDLl bydd angen adolygu'r canllaw presennol i sicrhau eu bod yn parhau yn ddilys ac yn cefnogi'r polisïau sydd yn cael eu paratoi fel rhan o'r CDLl. Mi fydd hefyd angen rhoi ystyriaeth i'r angen i baratoi unrhyw CCA newydd i gefnogi polisïau CDLl. Os bydd angen paratoi CCA newydd bydd hyn yn cael ei nodi wrth i'r broses o baratoi'r Cynllun fynd yn ei flaen. Mi fydd unrhyw CCA newydd yn destun ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid perthnasol.

## RHAN 2 – ADNODDAU AC AMSERLEN

### 2.0 Cyflwyniad



DRAFT

Mae'r amserlen ar gyfer y gwahanol gamau yn y broses o baratoi CDLl, sut gaiff y broses ei reoli a gwybodaeth am yr adnoddau (staffio ac ariannol) sy'n angenrheidiol ar ei gyfer oll yn rhannau allweddol o'r CC.

## 2.1 Yr adnodd staff

2.1.1 Bydd CSYM yn ymrwymo'r adnoddau staffio priodol i gymryd y camau gwahanol sydd eu hangen yn y broses o baratoi'r cynllun. Cydnabyddir bod yr ymrwymiad hwn yn cael ei wneud yn ystod cyfnod ariannol heriol ac ansicr.

2.1.2 O ystyried bod y trefniadau cydweithio gyda Chyngor Gwynedd wedi dod i ben yn ddiweddar, mae Tîm Polisi newydd wedi ei greu o fewn y Swyddogaeth Gynllunio. Mae'r tîm newydd yn cynnwys y canlynol:

| Teitl swydd | Nifer y swyddogion | Time allocated to LDP work |
|---|---|---|
| Rheolwr Polisi Cynllunio | 1 | 75% |
| Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio | 1 | 85% |
| Swyddog Polisi Cynllunio | 2 | 85% |
| Cynorthwyydd Polisi Cynllunio | 1 | 90% |

*Tabl 3: Adnodd staffio*

2.1.3 Mae grŵp swyddogion traws-wasanaeth wedi'i sefydlu i gefnogi, dylanwadu a llywio'r broses o baratoi'r cynllun. Mae'r tabl isod yn dangos yr aelodaeth gychwynnol:

| Swyddog | Rôl |
|---|---|
| Prif Weithredwr | Cadeirydd y Grŵp |
| Dirprwy Brif Weithredwr | Dirprwy Gadeirydd |
| Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | Aelod |
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol | Aelod |
| Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Aelod |
| Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Aelod |
| Pennaeth Tai | Aelod |
| Prif Swyddog Cynllunio | Aelod |
| Rheolwr Polisi Cynllunio | Aelod |

*Tabl 4: Aelodaeth grŵp swyddogion traws-wasanaeth*

2.1.4 Bydd cymorth arbenigol allanol hefyd yn cael ei ddefnyddio yn ôl yr angen i gefnogi'r tîm polisi cynllunio.

## 2.2 Yr adnodd ariannol

2.2.1 Cynhelir asesiad o'r adnoddau ariannol sydd eu hangen i gyflawni'r cynllun a bydd cymeradwyaeth ffurfiol i'r gyllideb yn dilyn proses gymeradwy CSYM ar gyfer mabwysiadu'r gyllideb derfynol. Mae'r angen am yr adnoddau ariannol ychwanegol wedi'i gydnabod gan CSYM ac mae £226,949 wedi'i neilltuo fel cronfa wrth gefn a glustnodwyd fel cyfraniad at y gost gyffredinol.

## 2.3 The timetable

2.3.1 Mae'r tabl isod yn nodi'r camau allweddol wrth baratoi'r CDLl ac mae'n nodi'r amserlen fras arfaethedig ar gyfer cwblhau'r camau hynny. Mae'r amserlen yn adlewyrchu'r adnoddau sydd ar gael ac y cyfeirir atynt uchod. Mae'n adlewyrchu'r canllawiau yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2020) ac wedi'i rannu'n ddwy ran sy'n dangos y camau diffiniol a dangosol. Mae amserlen fanylach, sydd hefyd yn crynhoi'r cyfleoedd ar gyfer cynnwys y gymuned, i'w gweld yn **Atodiad 3**.

| Rhif y cam | Cam | Amserlen | Cyfnodau Ymgynghoriad Allweddol |
|---|---|---|---|
| **Diffiniol** | | | |
| 1 | Cytundeb Cyflawni<br>- Paratoi<br>- Ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol<br>- Cyflwyno | Ebrill 2024 – Medi 2024 | Ymgynghoriad Cyhoeddus Mehefin/Gorffennaf 2024<br><br>Cymeradwyaeth gan y Cyngor Medi 2024<br><br>Cyflwyno i Lywodraeth Cymru Hydref 2024 |
| 2 | Cyn adneuo – paratoi, cynnwys ag ymgynghori<br><br>- Papur Gweledigaeth ag opsiynau strategol<br>- Galw am safleoedd<br><br>Angen Papurau Cefndir Penodol | Rhagfyr 2024 – Mai 2026 | Galw am safleoedd Rhagfyr 2024 am o leiaf 6 wythnos<br><br>Mawrth 2025 – Ebrill 2025 |
| 3 | Ymgynghoriad Cyn-adneuo Hoff Strategaeth Asesiadau Effaith AC/AAS a ARhC | Rhagfyr 2024 – Mai 2025 | Rhagfyr 2025 i Ionawr 2026 |
| 4 | Cynllun Adnau | Mehefin 2026 – Mai 2027 | Ymgynghoriad Cyhoeddus Medi/Hydref 2026 |
| **Mynegol** | | | |
| 5 | Cyflwyno | Mehefin 2027 | amh |
| 6 | Archwiliad | 11 mis o gyflwyno (targed) | Gellir fod ymgynghoriad pellach yn dilyn yr archwiliad |
| 7 | Adroddiad yr Arolygydd | Ebrill 2028 | |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8 | Mabwysiadu | Mai 2028 (rhaid mabwysiadau o fewn o fewn 8 wythnos o dderbyn yr adroddiad) | amh |

*Tabl 5: Amserlen y broses fynegol*

## RHAN 3 – RHEOLI RISG

### 3.1 Gwneud penderfyniadau

3.1.1 Ar ol ystyried yr holl dystiolaeth cyfrifoldeb y Pwyllgor Polisi Cynllunio fydd gwneud penderfyniadau am gynnwys y dogfennau yn gynnar yn y broses o baratoi'r CDLl e.e. Cytundeb Cyflawni a'r Dogfennau Cyn-Adneuo. Bydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio yn gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth lawn o ystyriaethau am gynnwys dogfennau ar wahân i'r adegau lle mae angen awdurdod y Cyngor Llawn fel rhan o'r broses statudol (h.y. Cytundeb Cyflawni a Mabwysiadau'r Cynllun yn derfynol). Mae'r tabl yn **Atodiad 3** yn nodi rôl y gwahanol bwyllgorau.

### 3.2 Prosesau sy'n dylanwadu ar y broses

3.2.1 Mae'r Cyngor o'r farn fod yr amserlen a nodwyd yn realistig ac yn un y gellir ei chyflawni. Gwneir pob ymdrech i gadw at yr amserlen honno. Er hynny, nodwyd rhai materion lle mae yna risg a allai arwain at wyriad oddi wrth yr amserlen a nodwyd yn y CC yma. Ceir mwy o fanylion am y risgiau a'r camau a fwriedir eu cymryd er mwyn cwrdd/lleihau'r risgiau yma yn **Atodiad 4**.

## RHAN 4 – MONITRO AC ADOLYGU

### 4.1 Monitro ac adolygu yn erbyn amcanion y CC

4.1.1 Bydd y Cyngor sir yn monitro ac adolygu cynnydd yn erbyn y CC trwy gydol y cynllun, er mwyn sicrhau bod pob cam unigol yn cael ei gyflawni'n unol â'r amserlen a gynigiwyd. Gall yr achosion lle gallai fod angen adolygu a newid y CC gynnwys y canlynol:

- Os yw'r broses gryn dipyn ar ei hôl hi o ran yr amserlen (3 mis neu fwy);
- Os oes angen unrhyw newidiadau sylweddol i'r Cynllun Cynnwys Cymunedau;
- Os oes newidiadau sylweddol o ran yr adnoddau sydd ar gael i CSYM;

- Os bydd deddfwriaeth, rheoliadau neu arweiniad newydd yn y DU neu Lywodraeth Cymru yn gofyn bod gweithdrefnau neu dasgau newydd yn cael eu rhoi ar waith; ac
- Os bydd unrhyw newidiadau eraill i amgylchedd yn effeithio'n faterol ar gyflwyno'r cynllun yn unol â'r CC.

4.1.2 Os bydd CSYM yn nodi angen am adolygu'r CC bydd angen trafod eilwaith gyda'r cyrff ymgynghori penodol a cheisio cytundeb gyda Llywodraeth Cymru yn unol â Rheoliadau'r CDLl.

## 4.2 Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMB)

4.2.1 Mae Rheoliadau 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i ACLl gynhyrchu a chyhoeddi ei adroddiad monitro blynyddol (AMB) ar ei wefan a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar neu cyn dyddiad penodol. Mae'r Rheoliadau'n parhau bod yn rhaid i unrhyw bolisi sydd wedi'i gynnwys mewn CDLl ac nad yw'n cael ei weithredu gael ei nodi a rhaid i'r AMB gynnwys datganiad yn nodi:

- Y rhesymau pam nad yw'r polisi yn cael ei weithredu;
- Y camau y bwriedir eu cymryd gan yr ACLl i sicrhau bod y polisi'n cael ei roi ar waith; a
- A fwriedir paratoi fersiwn ddiwygiedig o'r CDLl i ddisodli neu ddiwygio'r polisi hwnnw.

Yn ogystal, rhaid i'r AMB nodi:

- Y tir cyflenwad tai a gymerwyd o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai gyfredol; a
- Nifer (os o gwbl) yr anheddau fforddiadwy a marchnad gyffredinol ychwanegol net a adeiladwyd yn ardal yr ACLl.

Rhaid i'r gofynion olaf fod ar gyfer y cyfnod y gwneir yr adroddiad ar ei gyfer a'r cyfnod ers mabwysiadu'r ACLl am y tro cyntaf. Mae'r Llawlyfr CDLl yn nodi bod monitro yn broses barhaus ac nad yw'n dod i ben pan gaiff cynllun ei fabwysiadu. O'r herwydd, dylai monitro ac adolygu fod yn swyddogaeth barhaus sy'n sail i lunio polisïau ar sail tystiolaeth.

## 4.3 Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol

4.3.1 Yn ogystal â'r angen i gynhyrchu AMB, rhaid i'r ACLl gynnal adolygiad llawn o'i CDLl bob pedair blynedd o'r dyddiad y'i mabwysiadwyd yn wreiddiol. Yn yr un modd â'r Adroddiad Monitro Blynyddol, dylai adolygiadau o CDLlau mabwysiedig gael eu crynhoi mewn Adroddiad Adolygu a dylid adrodd ar

ganfyddiadau eu canfyddiadau i Lywodraeth Cymru. Rhaid cyhoeddi Adroddiad yr Adolygiad o fewn chwe mis i gychwyn adolygiad.

# RHAN B – CYNLLUN CYNNWYS CYMUNEDAU

## RHAN 5 – CWMPAS Y CYNLLUN CYNNWYS CYMUNEDAU (CCC)

### 5.1 Cyflwyniad

5.1.1 Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (Rheoliadau CDLl) yn mynnu bod CSYM yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a'r gymuned yn gynnar yn y broses o baratoi'r CDLl. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi cyflwyno saith nod llesiant i helpu sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, o Gymru gynaliadwy ac yn pennu'r 'Pum Ffordd o Weithio', y mae angen i gyrff cyhoeddus ddangos wrth ymgymryd â'u dyletswydd datblygu gynaliadwy. Un o'r negeseuon allweddol yw "cynnwys" yn hytrach nag "ymgynghori". Mae ystyried y 5 ffordd o weithio isod yn rhan bwysig o'r system Cynlluniau Datblygu Lleol.

| | |
|---|---|
| **Hirdymor** | Ystyried sut y gall y pethau a wnawn yn awr effeithio ar gymunedau a gwasanaethau yn y dyfodol |
| **Atal** | Gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu |
| **Integreiddio** | Ystyried sut mae'r amcanion llesiant yn cyfrannu at bob un o'r nodau llesiant ac yn effeithio ar amcanion eraill, neu amcanion cyrff cyhoeddus eraill |
| **Cydweithio** | Gweithio gydag eraill i gyflawni'r amcan llesiant |
| **Cynnwys** | Cynnwys pobl yn y gwaith o gyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth cymunedau lleol |

*Tabl 6: Y pum ffordd o weithio*

5.1.2 Un o amcanion allweddol y system Cynlluniau Datblygu ydi y dylai Cynlluniau fod yn seiliedig ar gynnwys cymunedau yn gynnar, yn effeithiol ac yn ystyrlon er mwyn deall ac ystyried amrywiaeth eang o safbwyntiau (Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Mawrth 2020). Mae'r CC yn nodi sut, a phryd y bydd cymunedau yn cael

eu cynnwys yn y broses CDLl er mwyn rhoi'r cyfle i gymunedau helpu llunio a dylanwadau ar y cynnwys yn effeithiol.

5.1.3 Mae'r CCC yn nodi'r hyn y mae CSYM yn bwriadu ei wneud pan fo amser yn caniatáu. Os oes angen, gall y Cyngor Sir ddarparu cyfnodau ymgysylltu ychwanegol.

## 5.2 Amcanion ac egwyddorion y CCC

5.2.1 Pwrpas cyfranogiad cyhoeddus yw cael ystod eang o gymunedau, unigolion sydd â diddordeb a chyrff ymgynghorol penodol yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am gynnwys y CDLl. Gwneir hynny trwy annog trafodaeth a rhannu gwybodaeth berthnasol. Mae CSYM o'r farn bod cynnwys cymunedau yn gynnar ym mhroses y CDLl yn hanfodol i sicrhau perchnogaeth leol a chyfreithlondeb polisïau a fydd yn pennu datblygiad yr ardal i'r dyfodol.

5.2.2 Dylai'r dull hwn leihau'r amser a gymerir i fabwysiadu'r cynllun trwy leihau nifer y gwrthwynebiadau i bolisïau yn y CDLl adnau ac felly leihau'r amser a dreulir yng nghyfnodau diweddarach y broses o baratoi'r cynllun. Cynorthwyir y broses o greu consensws trwy sefydlu a rhannu sylfaen gyffredin o wybodaeth ar gyfer y materion allweddol o ddechrau'r broses. Mae'r dull yma o weithio yn cael ei atgyfnerthu wrth ystyried arweiniad yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu sydd yn gosod allan y pwysigrwydd o ymgynghori yn gynnar yn y broses o baratoi Cynllun i sicrhau fod dealltwriaeth ag ystyried amrywiaeth eang o safbwyntiau, gyda'r nod o adeiladu consensws eang ar y strategaeth ofodol, polisïau a chynigion.

5.2.3 Mi fydd yn bwysig i'r rhai sydd efo diddordeb yn y cynllun gymryd rhan ym mhob cam o'r broses, gan gynnwys y camau cychwynnol lle mae'r cyfleoedd i helpu i siapio a dylanwadu ar y cynllun. Mae CSYM yn ystyried bod y CCC yma yn gosod allan yr amgylchiadau i wneud hyn yn bosib.

5.2.4 Bydd y CCC yn darparu dealltwriaeth o'r canlynol:

- Y cyfnodau pryd y gall cymunedau fod yn rhan o'r broses ac i ba raddau;
- Yr ystod o ddulliau a'r technegau posib a ddefnyddir i sicrhau y gall cymunedau gymryd rhan yn y broses.

Mae'r tabl isod yn gosod allan amcanion ar gyfer Cyfranogiad Cymunedol.

| | |
|---|---|
| Gallu cael gafael ar wybodaeth | Er mwyn i gymunedau a budd-ddeiliaid allu gwneud dewisiadau cywir a deall cyd-destun y CDLl, fe fydd gwybodaeth briodol yn cael ei ddarparu'n amserol, ac ar ffurf hawdd i'w gael a dealladwy. |
| Cymryd rhan yn fuan | Sicrhau bod cymunedau a budd-ddeiliaid yn cael pob cyfle i gymryd rhan a chyfranogi o'r cam cyntaf yn y broses o baratoi'r CDLl. Bydd CSYM yn annog cyfraniadau ar yr adegau penodol |

| | |
|---|---|
| | yn ystod gwaith paratoi'r CDLl pryd y gall syniadau ddylanwadu orau ar y broses. |
| Addasrwydd yr wybodaeth | Bydd yr wybodaeth a fydd ar gael yn annog ymglymiad a chyfranogiad drwy gydol y broses ac fe fydd yn addas a pherthnasol i bob grwp penodol, yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir ac anghenion a phrofiad y cymunedau a'r budd-ddeiliaid |
| Adborth rheolaidd | Darparu adborth rheolaidd fel y gall y cymunedau a'r budd-ddeiliaid weld sut bydd syniadau'n datblygu neu wybod pam nad all syniadau gael eu datblygu ymhellach. |
| Tryloywder | Bod yn glir o'r cychwyn ynglŷn â phwy fydd yn cymryd rhan a pha bryd yn ogystal â'u rôl yn ystod pob cam. |
| Rhannu Gwybodaeth | Sicrhau y bydd cyfraniadau gan gymunedau yn cael eu bwydo i waith ar gynlluniau a strategaethau allweddol eraill. |

*Tabl 7: Amcanion cynhwysedd cymunedol*

## 5.3 Pwy fydd disgwyl i roi mewnbwn?

5.3.1 Bydd y ffocws ar gael mewnbwn gan y canlynol:

*<u>Y Cyhoedd</u>*
Yr aelodau unigol sydd yn byw, gweithio neu aros yn ardal y CDLl. Mae hyn yn cynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd er enghraifft, pobl ifanc, yr henoed, Sipsiwn a Theithwyr, unigolion anabl ac unigolion sy'n dioddef oherwydd amddifadedd economaidd a chymdeithasol. Bydd gan bartneriaethau presennol rôl i chwarae i gyrraedd rhai o'r rhain. Fe fydd gan rhai o'r cyrff ymgynghori cyffredinol a gyfeirir ato isod le i chwarae hefyd.

*<u>Busnesau, tirfeddianwyr, datblygwyr a'u hasiantau</u>*
Bydd gan ambell gorff ymgynghori cyffredinol (gweler isod) rôl i'w chwarae i gyrraedd rhai yn y gymuned fusnes, tirfeddianwyr a datblygwyr. Fe fydd cyfle i dirfeddianwyr a darpar ddatblygwyr a'u hasiantau gyflwyno syniadau am dir a allai fod ar gael i'w ddatblygu yn fuan yn y broses drwy gofnodi gwybodaeth ar y Gofrestr o Safleoedd Posib (gweler isod).

*<u>Cyrff ymgynghori penodol</u>*
Sef y rhai mae'n rhaid i CSYM ymgynghori a hwy, e.e. Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadw, Cynghorau Cymuned a Thref ac awdurdodau cyfagos.

*<u>Cyrff ymgynghori cyffredinol</u>*
Sef grwpiau & mudiadau sydd gan ddiddordeb penodol yn yr ardal, e.e. cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau hil neu ethnig; cyrff sy'n cynrychioli buddiannau'r rhai sy'n cynnal busnes yn ardal y CDLl; cyrff sy'n cynrychioli buddiannau'r diwylliant Cymreig yn yr ardal. Mae rhestr o gyrff ymgynghori penodol a chyffredinol i'w gweld yn **Atodiad 5.**

*<u>Cronfa Ddata Cysylltiadau</u>*

DRAFT

Wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd cyfredol, datblygwyd cronfa ddata cysylltiadau oedd yn cynnwys nifer fawr o unigolion a sefydliadau oedd wedi dangos diddordeb yn y broses o baratoi'r Cynllun neu oedd wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriadau a'r camau penodol o baratoi'r CDLl ar y Cyd. Mae gan unrhyw un yr hawl i ofyn i gael ei hychwanegu i'r gronfa ddata cysylltiadau ar unrhyw amser neu gael ei dynnu oddi ar y gronfa ddata. Bydd unrhyw un sydd yn cyflwyno sylwadau yn ystod unrhyw un o'r cyfnodau ymgynghori'n cael ei ychwanegu i'r gronfa ddata cysylltiadau.

## 5.4 Pryd fydd cymunedau a budd-ddeiliaid allweddol yn cymryd rhan yn y broses?

5.4.1 Mae'r amserlen ar gyfer paratoi'r CDLl i'w weld yn **Atodiad 2**. Mae yna wybodaeth yno hefyd am y cyfleoedd a fydd ar gael i'r cymunedau a'r budd-ddeiliaid allweddol gymryd rhan yn y broses.

## 5.5 Asesiad Cynaladwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol (AC/AAS)

5.5.1 Bydd rhaid i bob cam o'r broses CDLl fod yn destun AC. Mae AC yn broses dechnegol ond fe roddir cyfleoedd i bobl sydd â diddordeb ynddo i gyflwyno sylwadau. Un darn o waith a fydd angen ei wneud yn fuan yn y broses yma fydd ail-ymweld â'r sail dystiolaeth sydd yn cefnogi'r AC, sydd yn paratoi gwybodaeth am nodweddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr ardal. Bydd y sail dystiolaeth yma a gwybodaeth arall yn ffurfio rhan o Adroddiad Cwmpasu. Bydd yr Adroddiad yma yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.

## 5.6 Dulliau o Gysylltu, Ymgygnhori a Chyfranogi

5.6.1 Defnyddir sawl dull i hwyluso ymglymiad budd-ddeiliaid a chymunedau ar hyd y broses o baratoi'r CDLl. Mae'n bwysig bod y dulliau a ddefnyddir yn addas at y diben yn achos gwahanol gyfnodau paratoi'r CDLl ac ar gyfer grwpiau gwahanol. Mae'r dulliau a restrir isod yn crynhoi'r mathau o ddulliau ymgysylltu ac ymgynghori a fydd yn cael eu hystyried i'w defnyddio:

- Gwefan y Cyngor – bydd rhan benodol o'r wefan yn cael ei neilltuo ar gyfer cadw newyddion am y CDLl (https://www.ynysmon.llyw.cymru/)
- y fewnrwyd, e-fwletinau staff
- Derbynfeydd ym mhrif swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni, llyfrgelloedd cyhoeddus
- Defnydd o ddigwyddiadau / cyfarfodydd sy'n bodoli yn barod e.e. grwpiau ieuenctid
- Cyswllt uniongyrchol (trwy lythyr / e-bost)
- Sesiynau codi ymwybyddiaeth
- Hysbysebion mewn papurau newydd lleol
- Negeseuon ar wefan y cyngor a'r cyfryngau cymdeithasol
- Cynnal gweithdai/ cyfarfodydd agored/rhithiol

5.6.2 Yn ogystal â'r uchod mae CSYM yn ymroddedig i ddefnyddio rhwydweithiau a phartneriaethau sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys:

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
- Partneriaeth Tai Môn
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
- Partneriaethau Iechyd, Gofal a Lles
- Fforwm Môn, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Bartneriaeth Adfywio Economaidd, Partneriaeth Adfywio Ardal, Partneriaeth Trosedd ac Anhrefn, Partneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc, Bwrdd Partneriaeth Strategaeth Iechyd, Gofal a Lles
- Fforwm Amgylchedd Môn

## 5.7 Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol y CDLl

5.7.3 Bydd Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol (GRhA) y CDLl yn cael ei sefydlu i gynorthwyo gyda pharatoi'r cynllun, a bydd yn fforwm ar gyfer trafodaethau adeiladol. Bydd y GRhA yn cynnwys croestoriad o gynrychiolwyr sydd gan ddiddordeb arwyddocaol yn nyfodol datblygu ardal y CDLl. Rhestrir aelodau posib y GRhA yn Atodiad 5 - gall y rhain newid wrth i'r gwaith o baratoi'r CDLl symud yn ei flaen. Bydd aelodau o'r GRhA yn chwarae rhan bwysig yng nghyfnodau allweddol gwaith paratoi'r cynllun. Byddant yn helpu i nodi strategaethau ac opsiynau eraill a'u hasesu wrth i'r cynllun symud yn ei flaen.

## 5.8 Cysylltiadau â gwaith y Cyd Bwyllgorau Corfforedig a Gwaith ar y Cyd

5.8.1 Wrth baratoi'r CDLl, mae'n bwysig bod CSYM yn gwbl ymwybodol o gynigion a datblygiadau mewn awdurdodau cyfagos a thu hwnt a allai effeithio ar ardal y CDLl. Mae'n debygol iawn y bydd gwaith yn cychwyn ar y Cynllun Datblygu Strategol yn ystod y cyfnod o baratoi'r CDLl newydd. Mi fydd yn bwysig fod CSYM yn ymwybodol o'r gwaith yma ac yn sicrhau ei fod yn rhoi mewnbwn i'r broses yma.

5.8.2 Bydd perthynas waith agos yn cael ei feithrin gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Conwy a Gwynedd trwy raglen reolaidd o gyfarfodydd.

## 5.9 Ymglymiad Cynghorwyr

5.9.1 Bydd pob Cynghorydd yn derbyn gwybodaeth ar adegau pwysig drwy gydol y broses o baratoi'r CDLl, er enghraifft: trafodaeth ar y weledigaeth; nodau ac amcanion strategol ar gyfer y CDLl; ystyriaeth o'r strategaeth a ffafrir – sef y camau pwysig cyntaf; ac yn hwyrach pan geir trafodaethau ar faterion penodol o

DRAFT

ran safleoedd ac aneddiadau. Bydd gan y Cynghorwyr hefyd rôl bwysig oherwydd eu gwybodaeth leol i weithredu fel "hyrwyddwyr" lleol i godi ymwybyddiaeth yn eu cymunedau ac felly hwyluso'r broses o lunio'r CDLl. Bydd cyfraniadau'r Cynghorwyr yn cael eu llywodraethu gan yr angen iddynt ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau er mwyn atal unrhyw ddylanwadu ar rôl y Cynghorwyr o wneud argymhellion a phenderfyniadau yn y pwyllgorau perthnasol.

5.9.2 Ar adegau allweddol drwy gydol y cyfnod paratoi'r CDLl, cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu, y Pwyllgor Polisi Cynllunio, y Pwyllgor Gweithredol ac i'r Cyngor Llawn (yn ôl yr angen).

## 5.10 Ymglymiad swyddogion y Cyngor

5.10.1 Fel y cyfeiriwyd yn flaenorol yn 2.1.3, mae grŵp o uwch swyddogion wedi'i sefydlu i gynorthwyo yn y broses o baratoi'r cynllun yn ôl y gofyn. Ar wahân i'r grŵp yma, bydd ymgynghori gyda swyddogion perthnasol o fewn CSYM yn allweddol drwy gydol y cyfnod paratoi'r CDLl. Cyfarfodydd swyddogion rheolaidd i drafod materion cyfoes e.e. bydd tai, yr economi, addysg hefyd yn darparu fforymau perthnasol i drafod materion CDLl. Rhoddir gwahoddiad hefyd i swyddogion perthnasol i roi tystiolaeth I'r Pwyllgor Polisi Cynllunio a thrafod materion perthnasol gydag aelodau'r Pwyllgor yn ôl yr angen.

## 5.11 Argaeledd Dogfennau ac Adborth

5.11.1 Bydd prif ddogfennau ymgynghori ar gael yn helaeth i annog a sicrhau cysylltiadau effeithiol ar hyd proses y CDLl. Byddant yn cael eu darparu i'r ymgyngoreion a'u cyhoeddi'n electronig ar wefan CSYM (www.ynysmon.llyw.cymru) a thrwy e-bost. Bydd copïau papur ar gael hefyd yn y mannau canlynol:

- Prif swyddfeydd CSYM yn Llangefni
- Canolfan Fusnes Môn, Llangefni
- Llyfrgelloedd cyhoeddus Ynys Môn

5.11.2 Bydd copïau papur ar gael i'w prynu am bris. Bydd adroddiadau a chofnodion cyfarfodydd y, Pwyllgor Polisi Cynllunio, Pwyllgor Gwaith Ynys Môn, yn ogystal ag unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus a drefnir yn ystod y broses yn cael eu cyhoeddi'n electroneg ar wefan y Cyngor (www.ynysmon.llyw.cymru).

5.11.3 Rhoddir ystyriaeth lawn i anghenion unigolion anabl i sicrhau'r mynediad rhwydd i wybodaeth. Os derbynnir cais, bydd ymdrech yn cael ei wneud i ddarparu copïau print mawr a/neu glywedol o ddogfennau.

## 5.12 Defnydd o'r Gymraeg

5.12.1 Bydd paratoi'r CDLl, y cyswllt a'r ymgynghori yn cydymffurfio â Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg CSYM. Bydd pob dogfen gyhoeddus yn cael ei chyhoeddi'n ddwyieithog.

## 5.13 Beth fydd yn ddisgwyliedig gan y cymunedau a'r budd-ddeiliaid allweddol?

5.13.1 Er mwyn sicrhau bod pawb yn chwarae rhan lawn ar hyd proses y CDLl bydd yn bwysig iddynt ystyried y canlynol:

- Eu bod yn ymateb i ohebiaeth o fewn terfyn amser priodol, gan ddilyn unrhyw weithdrefn benodol;
- Deall nad all y CDLl ymdrin â phob dim a chodi materion y gall y CDLl ymdrin yn gyfreithlon â hwy;
- Ymrwymo i'r broses trwy fod yn bresennol, cyfrannu a helpu i greu consenswS;
- Nodi unrhyw fylchau yn yr wybodaeth a ddarparwyd / yn y sylfaen o dystiolaeth;
- Nodi a chyflwyno manylion priodol am safleoedd a gynigir yn amserol;
- Dilyn canllawiau a gweithdrefnau perthnasol;
- Rhannu/darparu gwybodaeth yn ôl y galw;
- Deall bod Adroddiad yr Arolygydd yn rhwymol ac na ellir apelio yn erbyn argymhellion yr Arolygydd; a
- Darparu manylion cyswllt fel bod CSYM yn gallu rhannu gwybodaeth a rhannu ymatebion.

## 5.14 Y Gofrestr o Safleoedd Posib

5.14.1 Bydd Cofrestr o Safleoedd Posib yn cael ei chreu'n gynnar yn y broses o baratoi'r CDLl. Gwahoddir awgrymiadau ar gyfer safleoedd posib i'w datblygu (e.e. ar gyfer tai, busnes, siopau) ar wefan CSYM (www.ynysmon.llyw.cymru), trwy gysylltu efo'r unigolion ar y gronfa ddata cysylltiadau. Gall unrhyw un awgrymu safle, ond disgwylir i awgrymiadau gael eu cefnogi gan wybodaeth sy'n dangos pam mae'r safle'n addas. Bydd arweiniad yn cael ei roi ynglŷn â'r math o wybodaeth a fydd ei angen ar wefan CSYM.

5.14.2 Bydd y Gofrestr ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd (ar y wefan). Wedi ystyried y safleoedd, bydd asesiad yn cael ei chyhoeddi. Bydd y Gofrestr yma'n cyflawni swyddogaeth bwysig wrth adnabod safleoedd i'w dynodi ar gyfer datblygu ac wrth drafod dewisiadau eraill. Mi fydd y galwad am safleoedd ar agor am isafswm o 6 wythnos.

DRAFT

**ATODIAD 1**

**Profion cadernid**

| |
|---|
| **Gofynion Paratoi:**<br><br>• A yw'r gwaith o baratoi'r cynllun wedi cydymffurfio â gofynion gweithdrefnol cyfreithiol a rheoleiddiol? (Rheoliadau CDLlau, Cynllun Cynnwys Cymunedau, Rheoliadau AAS, Arfarniad o Gynaliadwyedd, ARhC ac ati?)<br>• A yw'r cynllun yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC a/neu'r Cynllun Datblygu Strategol? (Pan gaiff ei gyhoeddi neu ei fabwysiadu yn y drefn honno) |
| **Prawf 1: A yw'r cynllun yn addas?** (A yw'n glir bod y CDLl yn gyson â chynlluniau eraill?)<br><br>**Cwestiynau**<br><br>• A yw'n ystyried polisi cenedlaethol (PCC) a Chynllun Gofodol Cymru (FfDC pan gaiff ei gyhoeddi)?<br>• A yw'n ystyried y Nodau Llesiant?<br>• A yw'n ystyried Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru?<br>• A yw'n ystyried y Datganiad Ardal perthnasol?<br>• A yw'r cynllun yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC (pan gaiff ei gyhoeddi)?<br>• A yw'r cynllun yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r Cynllun Datblygu Strategol perthnasol (pan gaiff ei fabwysiadu)?<br>• A yw'n gyson â chynlluniau rhanbarthol, strategaethau a rhaglenni darparwyr cyfleustodau?<br>• A yw'n gydnaws â chynlluniau ACLlau cyfagos?<br>• A yw'n ystyried y Cynllun Llesiant neu Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol?<br>• A yw'r ACLl wedi dangos ei fod wedi manteisio ar bob cyfle i gydweithio a chydweithredu ar baratoi cynlluniau a'r sail dystiolaeth? |

| |
|---|
| **Prawf 2: A yw'r cynllun yn briodol?** (A yw'r cynllun yn addas ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)<br><br>**Cwestiynau**<br><br>• A yw'n benodol i'r ardal leol?<br>• A yw'n ymdrin â'r materion allweddol?<br>• A yw'n cael ei gefnogi gan dystiolaeth gadarn, gymesur a chredadwy?<br>• A ellir dangos y rhesymeg wrth wraidd polisïau'r cynllun?<br>• A yw'n ceisio diwallu'r anghenion a aseswyd a chyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy?<br>• A yw'r weledigaeth a'r strategaeth yn gadarnhaol ac yn ddigon uchelgeisiol?<br>• A yw'r dewisiadau amgen 'go iawn' wedi cael eu hystyried yn briodol?<br>• A yw'n rhesymegol, yn rhesymol ac yn gytbwys?<br>• A yw'n gydlynol ac yn gyson?<br>• A yw'n glir ac a oes ganddo ffocws? |
| **Prawf 3: A fydd y cynllun yn cyflawni** (A yw'n debygol o fod yn effeithiol?)<br><br>**Cwestiynau**<br><br>• A fydd yn effeithiol?<br>• A ellir ei weithredu?<br>• A oes cefnogaeth gan y darparwyr seilwaith perthnasol yn ariannol ac o ran bodloni amserlenni perthnasol?<br>• A fydd y datblygiad yn hyfyw?<br>• A ellir cyflawni'r safleoedd a ddyrannwyd?<br>• A yw'r cynllun yn ddigon hyblyg? A oes darpariaethau wrth gefn priodol?<br>• A yw'n cael ei fonitro'n effeithiol? |

DRAFT

**ATODIAD 2**

**Camau allweddol ym mhroses paratoi'r CDLl a chyfleoedd cyfranogi**

**Cam 1 – Cytundeb Cyflawni**

| Cam | Amserlen | Y rhai sy'n cymryd rhan/Cyfranogwyr/Rhanddeiliaid | Dulliau o gyfathrebu | Mecanwaith adrodd | AC/AAS |
|---|---|---|---|---|---|
| Drafftio'r CC | Ebrill-Mai 2024 | Gwasanaethau Mewnol y Cyngor | Grŵp Swyddogion Mewnol<br><br>Pwyllgor Gweithredol CSYM | Ystyried y sylwadau a godwyd a diwygio'r CC drafft fel y bo'n briodol<br><br>Cyhoeddi cofnodion y Pwyllgor Polisi Cynllunio | |
| Ymgynghoriad ar CC drafft | Mai – Mehefin 2024 | • Llywodraeth Cymru<br>• Cyrff Ymgynghori Penodol<br>• Cyrff Ymgynghori Cyffredinol<br>• Aelodau Etholedig<br>• Cynghorau Cymuned a Thref<br>• Y cyhoedd | Llythyrau a chopi o'r CC drafft i LlC a chyrff ymgynghori penodol a chyffredinol.<br><br>Copïau o'r CC drafft yn swyddfeydd y Cyngor a llyfrgelloedd cyhoeddus<br><br>Cyhoeddi CC drafft ar wefan y Cyngor<br><br>Galluogi ymatebion ar-lein | Ystyried y sylwadau a godwyd a diwygio'r CC drafft fel y bo'n briodol<br><br>Paratoi adroddiad yn amlinellu natur yr ymatebion a dderbyniwyd drwy ymgynghori, sut yr ystyriwyd y rhain a sut y diwygiwyd y CC drafft. Adroddiad trwy'r Pwyllgor | |



DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Darparu dogfen cwestiynau ymgynghori i gyfranogwyr ymateb iddi | Gwaith/Pwyllgor Polisi Cynllunio cyn adrodd i'r Cyngor Sir i'w gymeradwyo i gyflwyno CC i LIC i'w gytuno. | |
| Cyflwyno fersiwn terfynol diwygiedig o'r Cytundeb Cyflenwi i Lywodraeth Cymru i'w gytuno yn dilyn cymeradwyaeth y Cyngor | Medi - Hydref 2024 | • Llywodraeth Cymru | Copi o'r CC drafft gyda llythyr eglurhaol | Eitem i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio | |
| Cyhoeddi CC fel y'i cymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru yn dynodi dechrau ffurfiol y CDLl | Hydref – Tachwedd 2024 | • Llywodraeth Cymru<br>• Cyrff Ymgynghori Penodol<br>• Cyrff Ymgynghori Cyffredinol<br>• Aelodau Etholedig<br>• Cynghorau Cymuned a Thref<br>• Y cyhoedd | Llythyr/e-bost at ymgyngoreion/rhanddeiliaid<br><br>Cyhoeddi hysbysiad a dogfen ar wefan y Cyngor<br><br>Darparu copïau yn holl swyddfeydd y Cyngor a llyfrgelloedd cyhoeddus | E-bost at aelodau etholedig yn rhoi gwybod am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i'r CC | |



DRAFT

**Cam 2 – Cyfranogiad cyn-adneuo**

| Cam | Amserlen | Y rhai sy'n cymryd rhan/Cyfranogwyr/Rhanddeiliaid | Dulliau o gyfathrebu | Mecanwaith adrodd | AC/AAS |
|---|---|---|---|---|---|
| Adolygu a diweddaru'r sylfaen dystiolaeth bresennol | Rhagfyr 2024 – Mai 2026 | • Gwasanaethau Cygnor<br>• Aelodau Etholedig<br>• Ymgyngoreion Penodol<br>• Ymgyngoreion Cyffredinol<br>• Rhanddeiliaid eraill perthnasol | Ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy:<br>• Cyfnewid e-bost<br>• Digwyddiadau cyhoeddus<br>• Sesiynau galw heibio<br>• Digwyddiadau rhithwir | Cyhoeddi papurau pwnc ar y wefan pan fyddant ar gael | Llunio Adroddiad Cwmpasu drafft yr AC a'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus<br><br>Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) |
| Deall y cyd-destun presennol, y materion i'w hystyried a pharatoi gweledigaeth ac amcanion y CDLl | | Gwasanaethau'r Cyngor trwy'r Grŵp Swyddogion/Gweithgor Polisi Cynllunio | Cyfarfod a drefnwyd | | |
| Galwad am safleoedd Rhagfyr 2024 (am isafswm o 6 wythnos) | | Cam cyhoeddus ar gyfer yr holl randdeiliaid/tirfeddianwyr | • Rhoi cyhoeddusrwydd i'r cam hwn a gwahodd cynigion<br>• Cyhoeddi ffurflenni i gynnig safleoedd posibl<br>• Darparu arweiniad i ymgeiswyr ar fethodoleg asesu safle | Cyhoeddi cynigion safleoedd posibl ar wefan y Cyngor | |
| Ymgysylltu ag ymgyngoreion i ddatblygu consensws ar weledigaeth ac amcanion | | • Gwasanaethau Cyngor<br>• Y cyhoedd<br>• Grwp rhanddeiliaid allweddol<br>• Aelodau Etholedig<br>• Ymgyngoreion Penodol<br>• Ymgyngoreion Cyffredinol | Ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy:<br>• Cyfnewid e-bost<br>• Digwyddiadau cyhoeddus<br>• Sesiynau galw heibio<br>• Digwyddiadau rhithwir | • Cyhoeddi adroddiad cyfranogiad ar wefan y Cyngor Cyhoeddi agendâu a chofnodion holl | |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | • Rhanddeiliaid eraill perthnasol | | gyfarfodydd pwyllgor y Cyngor ar wefan y Cyngor | |
| Datblygu dogfen ddrafft strategaeth a ffefrir | | • Gwasanaethau Cyngor<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Grwp rhanddeiliaid allweddol<br>• Aelodau etholedig | • Cyswllt uniongyrchol gyda swyddogion<br>• Grŵp Swyddogion/Gweithgor Polisi Cynllunio<br>• Seminarau ar gyfer Aelodau Etholedig | | |
| Cael cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer strategaeth ddrafft a ffafrir ac ymgynghori'n gyhoeddus | | | • Pwyllgor Polisi Cynllunio<br>• Pwyllgor Gwaith<br>• Cyngor Llawn<br>• Ymgynghoriad cyhoeddus | | |
| Cyhoeddi Adroddiad Cwmpasu gwaelodlin yr AC/AAS ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus | | • Y Cyhoedd<br>• Cyrff ymgynghori penodol<br>• Cyrff ymgynghori cyffredinol<br>• Gwasanaethau Cyngor<br>• Cyrff Ymgynghori Amgylcheddol | • Cyhoeddi dogfen ar wefan y Cyngor<br>• Darparu copïau yn Swyddfeydd y Cyngor a llyfrgelloedd cyhoeddus | • Cyhoeddi sylwadau a dderbyniwyd ar wefan y Cyngor<br>Ystyried y sylwadau a gwneud diwygiadau priodol (os yn berthnasol) | |

DRAFT

**Cam 3 - Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y Strategaeth a Ffefrir**

| Cam | Amserlen | Y rhai sy'n cymryd rhan/Cyfranogwyr/Rhanddeiliaid | Dulliau o gyfathrebu | Mecanwaith adrodd | AC/AAS |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfnod ymgynghori cyhoeddus ar y Strategaeth a Ffefrir | Rhagfyr 2024 – Mai 2025 | • Llywodraeth Cymru<br>• Cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol<br>• Ymgynghoriad cyhoeddus gyda'r holl randdeiliaid | Ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy:<br>• Cyfnewid e-bost<br>• Digwyddiadau cyhoeddus<br>• Sesiynau galw heibio<br>• Digwyddiadau rhithwir<br><br>Bydd yr holl ddogfennau ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor, yn swyddfeydd y Cyngor ac mewn llyfrgelloedd cyhoeddus | • Bydd sylwadau a wneir yn cael eu cydnabod yn ysgrifenedig<br>• Bydd sylwadau ar gael i'r cyhoedd ac yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori | Ymgynghori ar gynigion yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol a dewisiadau eraill ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir |
| Cyhoeddi Adroddiad Cynaliadwyedd drafft | | • Llywodraeth Cymru<br>• Cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol<br>• Ymgynghoriad cyhoeddus gyda'r holl randdeiliaid | Fel uchod | | |
| Adolygu ac ystyried y sylwadau a wnaed | | • Gwasanaethau Cyngor<br>• Aelodau etholedig<br>• Grŵp rhanddeiliaid allweddol | • Grŵp Swyddogion/Gweithgor Polisi Cynllunio<br>• Cyswllt gyda swyddogion unigol perthnasol | • Grŵp Swyddogion/Gweithgor Polisi Cynllunio<br>• Adolygu a lle bo angen naill ai diweddaru neu baratoi papurau pwnc newydd<br>• Drafftio Adroddiad Ymgynghori | |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cychwynnol a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor | |
| Paratoi CDLl Adnau a dogfennau cysylltiedig perthnasol | | • Gwasanaethau Cyngor<br>• Aelodau Etholedig<br>• Grŵp Swyddogion/Gweithgor Polisi Cynllunio | • Pwyllgor Polisi Cynllunio<br>• Pwyllgor Gwaith | • Cyhoeddi cofnodion Polisi Cynllunio a Phwyllgorau Gweithredol ar wefan y Cyngor | |

DRAFT

**Cam 4 - Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y Cynllun Adnau**

| Cam | Amserlen | Y rhai sy'n cymryd rhan/Cyfranogwyr/Rhanddeiliaid | Dulliau o gyfathrebu | Mecanwaith adrodd | AC/AAS |
|---|---|---|---|---|---|
| Sicrhau cymeradwyaeth y Cyngor i ymgynghori'n gyhoeddus ar y Cynllun Adnau Drafft | Mehefin 2026 – Mai 2027<br><br>Ymgynghoriad Cyhoeddus Medi/Hydref 2026 | Angen cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus | • Ymgynghoriad Cyhoeddus trwy:<br>  • E-bost<br>  • Gwefan<br>  • Y wasg a chyfryngau cymdeithasol<br>• Cyswllt uniongyrchol â'r rhai sydd ar gronfa ddata cysylltiadau'r CDLl<br>• Llythyr eglurhaol a chopi o'r CDLl Adnau (a dogfennau cysylltiedig) i Lywodraeth Cymru a chyrff ymgynghori penodol<br>• Cyhoeddi CDLl Drafft ar wefan y Cyngor<br>• Darparu copïau o'r CDLl Drafft a dogfennau ategol yn swyddfeydd y Cyngor a llyfrgelloedd cyhoeddus | • Cyhoeddi cofnodion ar wefan y Cyngor | Dogfennau AC / AAS (ISA) yr ymgynghorwyd arnynt ochr yn ochr â'r CDLl Adnau am yr un cyfnod |
| Rhoi cyfle i wneud sylwadau ar y CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd ac Adroddiad AAS/AC | | • Llywodraeth Cymru<br>• Cyrff Ymgynghori Penodol<br>• Cyrff Ymgynghori Cyffredinol<br>• Aelodau Etholedig<br>• Cynghorau Cymuned a Thref<br>• Y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill | | • Cydnabod pob sylw yn ysgrifenedig<br>• Cyhoeddi copi o bob arsylw a wnaed fel y bo'n briodol | |
| Ystyried y sylwadau a wnaed | | • Gwasanaethau Cyngor<br>• Grŵp Swyddogion/Gweithgor Polisi Cynllunio | • Cyswllt gyda swyddogion perthnasol<br>• Grŵp Swyddogion/Gweithgor Polisi Cynllunio | • Cyhoeddi cofnodion y Pwyllgor ar wefan y Cyngor | |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Pwyllgor Polisi Cynllunio | • Paratoi a chyhoeddi adroddiad ymgynghori<br>• Rhoi gwybod i ymatebwyr bod adroddiad ymgynghori ar gael<br>• Cyhoeddi papurau pwnc wedi'u diweddaru neu newydd (lle bo'n briodol) ar wefan y Cyngor | |

**Cam 5 - Cyflwyno'r CDLl i Lywodraeth Cymru i'w Archwilio**

| Cam | Amserlen | Y rhai sy'n cymryd rhan/Cyfranogwyr/Rhanddeiliaid | Dulliau o gyfathrebu | Mecanwaith adrodd | AC/AAS |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflwyno'r CDLl a'r holl ddogfennau ategol i Lywodraeth Cymru<br><br>Dogfennau i'w cyflwyno i gynnwys:<br>• Cynllun Adnau<br>• AC/AAS, ARhC<br>• CCC/CC<br>• Adroddiad Ymgynghori<br>• Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol<br>• Copi o'r sylwadau a wnaed yn briodol a dderbyniwyd adeg adneuo<br>• Dogfennau ategol/sylfaen tystiolaeth<br><br>Hysbysu'r holl randdeiliaid am gyflwyniad y CDLl | Mehefin 2027 | Y rhai a gyflwynodd sylwadau a phawb arall yn hysbysu eu bod yn dymuno cael gwybod am ddatblygiad y CDLl | Cyhoeddi hysbysiad o gyflwyniad y CDLl i'w Archwilio ar wefan y Cyngor<br><br>Cyhoeddi'r holl ddogfennau a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar wefan y Cyngor ac yn swyddfeydd y Cyngor a llyfrgelloedd cyhoeddus<br><br>Llythyr/e-bost at y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y CDLl a phawb arall a ofynnodd iddynt gael gwybod am ddatblygiadau a chynnydd y CDLl | Amh | Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol (ISA) a gyflwynwyd yn dangos sut mae gwerthuso prosesau wedi llywio cynnwys y Cynllun. |

**Cam 6 – Yr Archwiliad Cyhoeddus**

| Cam | Amserlen | Y rhai sy'n cymryd rhan/Cyfranogwyr/Rhanddeiliaid | Dulliau o gyfathrebu | Mecanwaith adrodd | AC/AAS |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyhoeddi hysbysiad yn hysbysu am Archwiliad Cyhoeddus | O leiaf 6 wythnos cyn cychwyn | Y rhai a gyflwynodd sylwadau a phawb arall yn hysbysu eu bod yn dymuno cael gwybod am ddatblygiad y CDLl | Llythyr/e-bost at ymgyngoreion/rhanddeiliaid<br><br>Cyhoeddi manylion yn ymwneud â'r Archwiliad ar wefan y Cyngor | Gwefan i'w diweddaru gan Swyddog y Rhaglen gyda'r holl wybodaeth yn ymwneud â'r Archwiliad | |
| Cyfarfod Cyn-Archwiliad | | | | | |
| Archwiliad | 11 mis o gyflwyno'r CDLl | Pawb a gyflwynodd sylwadau ac y mae eu gwrthwynebiadau yn parhau ac nad ydynt wedi'u tynnu'n ôl | Sesiynau trafod bord gron<br><br>Gwrandawiadau/Gwrandawiadau ffurfiol (Bydd yr Arolygydd yn penderfynu ar y dull gorau o gyflwyno tystiolaeth lafar)<br><br>Datganiadau ysgrifenedig ffurfiol | Adroddiad yr Arolygydd | |
| Paratoi ac ymgynghori ar y Newidiadau Materion sy'n Codi fel y bo'n briodol | | Y rhai a gyflwynodd sylwadau a phawb arall yn hysbysu eu bod yn dymuno cael gwybod am ddatblygiad y CDLl | Ymgynghori â rhanddeiliaid/cyhoedd yn gyffredinol ar unrhyw newidiadau ôl-adneuo yn unol â chyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan yr Arolygydd. | | Bydd yn rhaid asesu newidiadau materion sy'n codi ac ymgynghorir arnynt fel rhan o'r broses ymgynghori ar y newidiadau hyn |

DRAFT

**Cam 7 - Cyhoeddi Adroddiad Arolygydd yr Archwiliad Cyhoeddus**

| Cam | Amserlen | Y rhai sy'n cymryd rhan/Cyfranogwyr/Rhanddeiliaid | Dulliau o gyfathrebu | Mecanwaith adrodd | AC/AAS |
|---|---|---|---|---|---|
| Derbyn a chyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd ar yr Archwiliad Annibynnol | Ebrill 2028 | • Aelodau Etholedig<br>• Cyrff ymgynghori penodol<br>• Cyrff ymgynghori cyffredinol<br>• Y cyhoedd<br>• Pawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad | Cyhoeddi'r Adroddiad ar wefan y Cyngor a sicrhau bod copi o'r adroddiad ar gael yn holl swyddfeydd y Cyngor ac mewn llyfrgelloedd cyhoeddus | Amh | Amh |
| Paratoi ymateb y Cyngor i Adroddiad yr Arolygydd | | Aelodau Etholedig | Adroddiad i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio yn cynghori am unrhyw newidiadau<br><br>Adroddiad i gyfarfod o'r Cyngor llawn gyda'r bwriad o fabwysiadu'r CDLl | Cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio a'r Cyngor i'w cyhoeddi ar wefan y Cyngor | |

DRAFT

**Cam 8 - Mabwysiadu'r CDLl**

| Cam | Amserlen | Y rhai sy'n cymryd rhan/Cyfranogwyr/Rhanddeiliaid | Dulliau o gyfathrebu | Mecanwaith adrodd | AC/AAS |
|---|---|---|---|---|---|
| Mabwysiadu CDLl yn ffurfiol fel y cynllun datblygu statudol ar gyfer Ynys Môn | Mai – Mehefin 2028 (o fewn 8 wythnos i dderbyn Adroddiad yr Arolygydd) | Bydd y Cyngor Llawn yn penderfynu ar fabwysiadu'r Cynllun<br><br>Hysbysu pawb a ymatebodd i ymgynghoriad y CDLl | Darparu copïau o'r CDLl a'r Datganiad Mabwysiadu i Lywodraeth Cymru<br><br>E-byst at y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad<br><br>Cyhoeddi holl ddogfennau'r CDLl ar wefan y Cyngor | Cyhoeddi cofnodion cyfarfod y Cyngor ar wefan y Cyngor | Amh |

DRAFT

**ATODIAD 3**

## Prosesau adrodd a gwneud penderfyniadau ar gyfer camau allweddol y CDLl

| | **Cytundeb Cyflawni** | **Adroddiad ar ymatebion i'r ymgynghoriad** | **Opsiynau strategol, gweledigaeth gydag amcanion** | **Adroddiad ar ymatebion i'r ymgynghoriad** | **Strategaeth a ffefrir** | **Adroddiad ar ymatebion i'r ymgynghoriad** | **Cynllun adnau** | **Adroddiad ar ymatebion i'r ymgynghoriad** | **Cyflwyno ar gyfer archwiliad** | **Mabwysiadu'r Cynllun** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Fforwm** | | | | | | | | | | |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio | Ystyried a chyflwyno sylwadau i'r Weithrediaeth/ Cytuno ar ymgynghoriad cyhoeddus | Ystyried a chyflwyno sylwadau i'r Weithrediaeth/Cyngor Llawn | Ystyried a chyflwyno sylwadau i'r Weithrediaeth | Ystyried a chyflwyno sylwadau i'r Weithrediaeth/Cyngor Llawn | Ystyried a chyflwyno sylwadau i'r Weithrediaeth | Ystyried a chyflwyno sylwadau i'r Weithrediaeth | Ystyried a chyflwyno sylwadau i'r Weithrediaeth | Ystyried a chyflwyno sylwadau i'r Weithrediaeth | Ystyried a chyflwyno sylwadau i'r Weithrediaeth | |
| Pwyllgor Craffu | | | Craffu a chyflwyno sylwadau i'r Weithrediaeth | | Craffu a chyflwyno sylwadau i'r Weithrediaeth | | | | | |
| Pwyllgor Gwaith | Cytuno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus | Derbyn a gwneud argymhelliad i'r Cyngor Llawn | Cytuno ar gyfer ymgynghoriad | Cytuno | Cytuno ar gyfer ymgynghoriad | Derbyn a gwneud argymhelliad i'r Cyngor Llawn | Cytuno ar gyfer ymgynghoriad | Cytuno | Derbyn a gwneud argymhelliad i'r Cyngor Llawn | |
| Cyngor Llawn | | Cytuno fel swyddogaeth statudol | | | | Cytuno | | | Cytuno | Mabwysiadu (statudol) |



DRAFT

**ATODIAD 4**

**Risgiau posib a dulliau ymateb**

| Risg | Effeithiau posibl | Mesurau lliniaru |
|---|---|---|
| 1. Gofynion pellach yn deillio o ddeddfwriaeth neu ganllawiau cenedlaethol newydd | • Angen ymgymryd â rhagor o waith er mwyn diwygio'r Cynllun a'r rhaglen waith<br>• Rhaglen yn llithro. | Monitro gwaith sy'n cael ei wneud o ran deddfwriaethau a chanllawiau newydd fel ein bod mewn sefyllfa dda i ymateb mor gynnar ac effeithiol a phosib i unrhyw newid |
| 2. Llwyth gwaith trymach na'r disgwyl | • Rhaglen yn llithro.<br>• Methu adrodd i bwyllgorau mewn da bryd. | • Sicrhau amserlen realistig sydd â hyblygrwydd iddo.<br>• Sicrhau ein bod yn ystyried faint o amser a gymerir i wneud pob agwedd o'r gwaith.<br>• Ystyried adnoddau ychwanegol. |
| 3. Gwrthwynebiadau sylweddol gan gyrff ymgynghori | • Rhaglen yn llithro. | • Hyblygrwydd yn yr amserlen.<br>• Sicrhau ein bod yn ymgynghori yn fuan (cyn y cyfnodau ymgynghori ffurfiol) gyda chyrff penodol. |
| 4. Diffyg consenswS gwleidyddol | • Methu cytuno ar agweddau allweddol yn y Cynllun.<br>• Gwrthdaro yn tanseilio'r hyn sydd yn cael ei nodi yn y Cynllun. | Ceisio datrys cymaint o wrthdaro a phosib yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Polsi Cynllunio a drwy drafod gydag Aelodau blaengar e.e. arweinyddion portffolio. |
| 5. Methu adrodd i bwyllgor ar adeg briodol | • Rhaglen yn llithro | • Trafod anghenion y broses gyda threfnwyr rhaglen flynyddol pwyllgorau mewn da bryd |

| Risg | Effeithiau posibl | Mesurau lliniaru |
|---|---|---|
| 6. Diffyg consensws rhwng gwahanol adrannau o'r Cynghorau | Methu cytuno ar agweddau allweddol yn y Cynllun. | • Sicrhau ein bod yn cyd-fynd a blaenoriaethau'r Cyngor<br>• Sicrhau bod gweithdrefnau cyd-drafod mewnol effeithiol mewn lle o ran y Cynllun. |
| 7. Oedi gyda chyfieithu/proses argraffu | Rhaglen yn llithro. | • Defnyddio cyfieithwyr allanol.<br>• Rhannu'r gwaith cyfieithu i wahanol unigolion/ gwmnïoedd.<br>• Ystyried adnoddau ychwanegol. |
| 8. Diffyg arian ar gael drwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun | • Methu ariannu tasgau gwaith penodol a phwysig e.e. fel rhan o'r sail tystiolaeth.<br>• Rhaglen yn llithro. | • Monitro cyson er mwyn sicrhau fod yr arian yn cael ei ddefnyddio yn y modd mwyaf effeithiol posib. |
| 9. Newid/Colli staff | • Colli capasiti a sgiliau.<br>• Mwy o bwysau ar y swyddogion eraill.<br>• Rhaglen yn llithro. | • Ystyried adnoddau ychwanegol. |
| 10. Diffyg arbenigedd | • Safon y gwaith yn is.<br>• Methu adnabod gwendidau a nodi awgrymiadau wrth wirio gwaith gan ymgynghorwyr.<br>• Problemau o ran sicrhau 'cadernid' y Cynllun. | • Hyfforddi staff penodol i arbenigo mewn gwahanol feysydd.<br>• Defnyddio ymgynghorwyr arbenigol lle dydi'r arbenigedd ddim oddi fewn y gwasanaeth |

| Risg | Effeithiau posibl | Mesurau lliniaru |
|---|---|---|
| 11. Yr Arolygaeth Gynllunio methu cwrdd â'r amserlen/targedau | • Oedi o ran cynnal yr ymchwiliad ac/neu o ran derbyn yr adroddiad. | • Sicrhau cyswllt agos gyda'r Arolygaeth Gynllunio er mwyn sicrhau proses mor hawdd â phosib. Bydd hyn hefyd yn fodd o gael rhybudd cynnar ynglŷn ag unrhyw broblemau. |
| 12. Cynllun yn methu y prawf 'cadernid' | • Ni all y Cynllun gael ei fabwysiadu heb orfod ymgymryd â gwaith sylweddol pellach. | Sicrhau bod y CDLl yn gadarn drwy sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda gweithdrefnau, deddfau, rheoliadau, ynghyd â'r holl brofion cadernid penodol. |
| 13. Her gyfreithiol | • Diddymu'r CDLl (neu rannau ohono) a fabwysiadwyd.<br>• Llwyth gwaith ychwanegol. | Sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda gweithdrefnau, deddfau, rheoliadau a.y.b. |
| 14. Etholiadau | • Rhaglen yn llithro.<br>• Aelodau newydd â barn wahanol ynglŷn â chynnwys y Cynllun – blaenoriaethau yn newid. | Sicrhau amserlen realistig sydd â hyblygrwydd iddo. |
| 15. Problemau gyda gwaith TG. / Problemau gyda gwaith GIS | Rhaglen yn llithro. | • Sicrhau amserlen realistig sydd â hyblygrwydd iddo.<br>• Sicrhau bod Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor yn ymwybodol o'r anghenion ac yn rhaglennu amser ar ein cyfer.<br>• Prynu meddalwedd bwrpasol. |

| Risg | Effeithiau posibl | Mesurau lliniaru |
|---|---|---|
| 16. Canlyniadau'r AC/AAS yn amlinellu problem(au) annisgwyl. | • Llwyth gwaith ychwanegol.<br>• Rhaglen yn llithro. | • Sicrhau bod yr amserlen yn ddigon hyblyg i allu ymdopi gyda sefyllfa o'r fath.<br>• Ystyried adnoddau ychwanegol. |
| 17. Cyrff ymgynghori'n methu rhoi sylwadau mor gyflym â'r disgwyl. | Rhaglen yn llithro. | • Sicrhau bod grwpiau penodol yn cael eu hymgynghori a hwy yn fuan o fewn unrhyw gam perthnasol yn y broses.<br>• Ceisio ymgynghori ar adegau o'r flwyddyn ble mae'r mwyafrif o bobl yn debygol o fod yn eu gwaith e.e. nid yn ystod mis Awst neu dros y Nadolig. |
| 18. Derbyn gwybodaeth hwyr arwyddocaol. | • Rhaglen yn llithro.<br>• Llwyth gwaith ychwanegol. | Sicrhau bod yr amserlen yn ddigon hyblyg i allu ymdopi gyda sefyllfa o'r fath. |
| 19. Prosiectau isadeiledd mawr annisgwyl yn codi | • Rhaglen yn llithro.<br>• Llwyth gwaith ychwanegol. | |

**ATODIAD 5**

**Cynnwys ac Ymgynghori â'r Gymuned**

Mae gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio gronfa ddata o unigolion a sefydliadau, gan gynnwys busnesau lleol, grwpiau gwirfoddol, cyrff llywodraethol ac unigolion sydd am gymryd rhan yn y broses. Mae'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio yn cynnig cysylltu gyda mudiadau ambarél a fyddai yn eu tro yn cysylltu gyda'u haelodau hwy. Y rhain yw'r cyrff ymgynghori cyffredinol a phenodol. Bydd y rhestr o gyrff ymgynghori cyffredinol a phenodol a adnabyddir yn esblygu'n gyson yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Wedi cyhoeddi'r Cytundeb Cyflawni, gellir gweld fersiwn diweddaraf y rhestr hon ar wefan y Cyngor www.ynysmon.llyw.cymru.

Os ydych yn awyddus i gael eich ychwanegu i fas data ymgynghori'r CDLl eisiau newid eich manylion neu gael eich tynnu oddi ar y rhestr, yna cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio drwy polisicynllunio@ynysmon.llyw.cymru. Bydd pawb sydd ar y bas data yn cael eu hysbysu o'r cynnydd yn y gwaith a chyfleoedd ar gyfer cymryd rhan yn y broses drwy lythyr neu os yn bosib e-bost drwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol.

**CYRFF YMGYNGHORI CYFFREDINOL**

**a) Cyrff gwirfoddol ac eraill**

Adra
Age Concern (Cymru)
**Avonia Coaches**
Canolfan Hamdden Amlwch
Llyfrgell Amlwch
Barnardo's
Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain
Butterfly Conservation Wales
Llyfrgell Biwmares
Llyfrgell Benllech
BTCV
CAB Gwynedd a De Môn
Ymgyrch Awyr Dywyll
**Carraglefn Coaches**
**CND Cymru**
**Coast Guard**
**Croeso Menai**
Cymunedau yn Gyntaf
Cymunedau yn Gyntaf - Amlwch
Cymunedau yn Gyntaf - Llangefni
Cymunedau yn Gyntaf - Maes Hyfryd
Cymunedau yn Gyntaf - Morlo
Cymunedau yn Gyntaf - Porth y Felin
Cyngor Diogelu Cymru Wledig
CTC Gwynedd a Môn
Cyfeillion y Ddaear (Môn a Gwynedd)

DRAFT

Cymdeithas Cynghorau Bro a Thref
Cymdeithas Cynghorau Bro a Thref Cymru
Cymdeithas Pysgota Cefni
Canolfan Hamdden David Hughes
**Eifions Coaches**
Envirowatch UK
Extinction Rebellion
Cyfeillion y Ddaear (Môn a Gwynedd)
**GeoMon**
Gofalwn Cymru
**Goodsir Coaches**
Greenpeace
Grŵp Cynefin
Gwasanaeth Ieuenctid CSYM
**Gwynfor Coaches**
H.A.R.T (Cymdeithas Preswylwyr)
Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
Canolfan Hamdden Caergybi
Cadw Cymru'n Daclus
Llyfrgell Llangefni
Ymddiriedolaeth Treftadaeth Porthaethwy
Llyfrgell Porthaethwy
Cymdeithas Ddinesig Bro Porthaethwy
Mudiad y Ffermwyr Ifanc
Mudiad Ysgolion Meithrin
Môn360
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Women's Alliance Cymru
North Wales Energy Efficiency Advice Centre
**K&P Coaches**
**Mencap Mon**
**OR Jones & Sons Ltd**
**Residents Association**
**Stroke Association**
Cymdeithas Dai Gogledd Cymru
Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
Papur Menai
PAWB (Pobol Atal Wylfa-B)
Grŵp Ymgyrchu Penhesgyn
Canolfan Hamdden Plas Arthur
Grŵp defnyddwyr rheilffyrdd a bysiau
Cymdeithas y Cerddwyr
Cymdeithas Traeth Coch
Llyfrgell Rhosneigr
RSPB
Cyngor Chwaraeon Cymru
Sustrans

DRAFT

Tanc Meddwl Cymuned Môn
**The National Residential Landlords Association**
Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru
Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned
Cymdeithas Preswylwyr Trearddur
Un Llais Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Wales Pre School Play Groups Assoc
Bwrdd Croeso Cymru
Wales Pre School Play Groups Assoc
Wildscape
**Tyddyn Mon**
Y Glorian
**Womens Institute**
Y Rhwyd
Cyngor Pobl Hŷn Ynys Môn
Yr Arwydd
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig

**b) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau hiliol, ethnig neu genedlaethol amrywiol**

BEN (Black Environment Network)
Chinese Woman Society Wai Kwun
Digartref Ynys Môn
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Gypsy Council
Intercultural Skills Link
North Wales Chinese Society
Rhwydwaith Cydraddoldeb Hil Gogledd Cymru
Traveller Law Reform Coalition

**c) Cyrff sy'n cynrychioli amrywiol grwpiau crefyddol**

Clebran
CYTUN
Inter-Cultural Skills Network
Wales Orthodox Mission

**d) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau unigolyn anabl**

Abbey Road Resource Centre
Agoriad Cyf.
Cymdeithas Alzheimer
Anheddau Cyf.
ARC Cymru
Sefydliad Prydeinig y Galon
CAIS – Asiantaeth Cyffuriau ac Alcohol

Core Disability Group
Crossroads Caring for Carers
Disablement Welfare Rights
Anabledd Cymru
Comisiwn Hawliau Anabledd
Pwyllgor Cynghori ar Drafnidiaeth i Bobl Anabl
Fforwm Anableddau Taran Cyf
Jas Chanay Disablement Welfare Rights
Grŵp Dirywiad Maciwlaidd
Cymdeithas Byddar Gogledd Cymru
Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru RNIB Cymru
RNIB Cymru
RNIB (Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall)
TARAN Fforwm Anabledd Cyf
Y Gamfa (CCET)

**e) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau rhai sy'n rhedeg busnes**

Y Siambr Fasnach
Siambr Fasnach
Sefydliad Siartredig Adeiladu – Canolfan Gogledd Cymru
Undeb Amaethwyr Cymru
Federation of Small Business
HBF – Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
Menter Môn
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr - Ynys Môn

**f) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau diwylliant Cymreig**

Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Comisiynydd y Gymraeg
Cymdeithas yr Iaith
Cyngor Cefn Gwlad
Ffederasiwn y Ffermwyr Ifanc
Fforwm Iaith Ynys Môn
Hunaniaith
Pwyllgor Treftadaeth Llaingoch
Menter Môn
Merched y Wawr
Papurau Bro
Urdd Gobaith Cymru

**g) Grwpiau sy'n cynrychioli pobl hoyw, lesbiaidd a deurywiol**

Stonewall

DRAFT

## CYRFF YMGYNGHORI PENODOL

### Cyrff y Llywodraeth

Cadw
Y Swyddfa Gartref
Y Weinyddiaeth Amddiffyn
Cyfoeth Naturiol Cymru
Network Rail
Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Yr Awdurdod Glo
Adran Masnach a Diwydiant Llywodraeth y DU
Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU
Llywodraeth Cymru

### Awdurdodau Lleol Cyffiniol

Cyngor Gwynedd

### Cynghorau Dinas / Cymuned / Tref ar Ynys Môn

Cyngor Cymuned Aberffraw
Cyngor Tref Amlwch
Cyngor Tref Biwmares
Cyngor Cymuned Bodedern
Cyngor Cymuned Bodffordd
Cyngor Cymuned Bodorgan
Cyngor Cymuned Bryngwran
Cyngor Cymuned Cwm Cadnant
Cyngor Cymuned Cylch-y-Garn
Cyngor Tref Caergybi
Cyngor Cymuned Llanbadrig
Cyngor Cymuned Llanddanielfab
Cyngor Cymuned Llanddona
Cyngor Cymuned Llanddyfnan
Cyngor Cymuned Llaneilian
Cyngor Cymuned Llannerchymedd
Cyngor Cymuned Llaneugrad
Cyngor Cymuned Llanfachraeth
Cyngor Cymuned Llanfaelog
Cyngor Cymuned Llanfaethlu
Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf
Cyngor Cymuned Llanfair-yn-Neubwll
Cyngor Cymuned Llanfairpwll
Cyngor Cymuned Llanfihangelesceifiog
Cyngor Tref Llangefni

DRAFT

Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon
Cyngor Cymuned Llangristiolus
Cyngor Cymuned Llanidan
Cyngor Cymuned Mechell
Cyngor Tref Porthaethwy
Cyngor Cymuned Moelfre
Cyngor Cymuned Penmynydd a Star
Cyngor Cymuned Pentraeth
Cyngor Cymuned Rhoscolyn
Cyngor Cymuned Rhosybol
Cyngor Cymuned Rhosyr
Cyngor Cymuned Trearddur
Cyngor Cymuned Tref Alaw
Cyngor Cymuned Trewalchmai
Cyngor Cymuned y Fali

**Darparwyr Seilwaith a Chyfathrebiadau Electronig**

**Avanti West Coast**
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr
British Telecommunications plc
Dŵr Cymru - Welsh Water
Mobile Operators Association
**Great Western Railways**
National Gas Transmission
Grid Cenedlaethol
Scottish Power
SP Energy Networks a Wales and West Utilities
**Traveline Cymru**

**Aelodaeth o Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol**

Pwyllgor Ymgynghorol ar y Cyd AHNE Môn
Swyddogion Adfywio Ardal Môn
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc Gwynedd a Môn
Coleg Menai
Cymunedau yn Gyntaf Gwynedd a Môn
Partneriaethau Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn
Cyfoeth Naturiol Cymru
Partneriaeth Adfywio Economaidd Môn
Fforwm Amgylcheddol Gwynedd a Môn
Partneriaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwynedd a Môn
Partneriaethau Tai Môn a Gwynedd
Y Ganolfan Byd Gwaith
Fforwm Mynediad Lleol
Medrwn Môn

DRAFT

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Heddlu Gogledd Cymru
Un Llais Cymru

DRAFT

**Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb (**yn cynnwys y Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol)

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Crynodeb o'r newidiadau** |
|---|---|---|
| 1.0 | Mai 2024 | |
| | | |
| | | |

| **Cam 1: Cefndir** | |
|---|---|
| 1 - Beth sy'n cael ei asesu? | Cynllun Cyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol newydd |
| 2 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes? | Newydd |
| 3 - Beth yw nodau a phwrpas y cynnig yma? | Amlinellu'r amserlen a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd yn lle Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn.<br><br>Mae'r Cytundeb yn cynnwys Cynllun Cynnwys Cymunedau sy'n cadarnhau pryd y bydd y Cyngor Sir yn ymgynghori, a chyda phwy, yn ystod y gwahanol gamau'r cynllun. Bydd yn ymgynghori â sefydliadau sy'n cynrychioli'r nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig, y Gymraeg a'r rheiny sy'n profi anfantais economaidd.<br><br>Mae'r CDLl yn annog mwy o ymrwymiad gan y cyhoedd wrth greu cynllun nag oedd yn digwydd yn flaenorol. Dylai awdurdodau geisio ymgysylltu â'u cymunedau yn ystod camau cynnar creu cynlluniau ac ymgynghori â'r cyhoedd yn ystod y camau hwyrach<br><br>Yn y CDLl ceir cynigion yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer datblygiadau'r dyfodol a'r defnydd tir yn yr ardal. Gellir ei ddefnyddio fel sail i benderfyniadau cynllunio i ddiwallu anghenion a |

| Cam 1: Cefndir | | |
|---|---|---|
| | chyfleodd datblygu'r ardal. Mae'r system hon yn ffafrio datblygiadau sy'n cyd-fynd â'r CDLl oni bai bod ystyriaethau o bwys. Bydd y CDLl yn weithredol hyd nes y caiff ei ddiddymu neu ddisodli. | |
| 4 - Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu? | Polisi Cynllunio, Cyngor Sir Ynys Môn | |
| 5 - Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma? | John Williams | |
| 6 - Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr asesiad yma? | Aled Lewis | |
| 7 - Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill? Er enghraifft, oes una unrhyw gynigion neu bolisïau eraill y dylid eu cymryd ystyriaeth wrth asesu'r effaith? | Mae'r cynnig yn nodi'r amserlen a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau ar gyfer paratoi'r cynllun datblygu newydd. Bydd rhaid cwblhau asesiad effaith ar gyfer camau dilynol y broses pan fo hynny'n addas/angenrheidiol. | |
| 8 - Ydi'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd gyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl sy'n cael eu gwarchod gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010? | Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu | Ydi |
| | Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal | Ydi |
| | Meithrin perthynas dda | Ydi |
| | Diogelu a hyrwyddo hawliau dynol | Ydi |

| Cam 1: Cefndir | | |
|---|---|---|
| Fel rheol, mae unrhyw bolisi sy'n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grŵp a warchodir. | | |
| 9 – A yw'r cynnig yn benderfyniad strategol? Os felly, mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn berthnasol – gweler atodiad 1. | Ydi | |
| 10 - Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?<br><br>**Os yw hwn yn gynnig strategol**, sicrhewch eich bod yn ystyried yn benodol a fydd y cynnig yn effeithio mwy ar bobl sy'n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas (gweler atodiad 1) | Fe all y cynnig effeithio ar holl drigolion yr Ynys gan y bydd cynigion datblygu'n cael eu cymeradwyo/gwrthod yn unol â'r polisïau sydd wedi'u cynnwys yn y CDLl.<br><br>Bydd y CDLl newydd yn cynnwys polisïau strategol, er y bydd y Cynllun Datblygu Strategol arfaethedig ar gyfer Gogledd Cymru yn disodli cyd-destun strategol y Cynllun Datblygu Lleol yn y pen draw. | |



| Cam 2.1: Casglu Gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 | |
|---|---|
| 11 - A yw'r cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir? | Ydi – bydd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael ei gwblhau i asesu effaith bosib y polisïau ar iechyd a ffyniant y Gymraeg. Yn yr un modd, bydd y CDLl newydd y cynnwys polisïau sy'n canolbwyntio ar y Gymraeg a bydd rhaid i ddatblygiadau sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr iaith gwblhau asesiad o effaith y datblygiad ar y Gymraeg.<br><br>Bydd gweithgareddau sydd yn ymwneud â'r cynnig yn cael eu hymgymeryd yn ddwyieithog yn unol â gofynion safonau iaith Gymraeg a pholisi iaith Gymraeg y Cyngor. |
| 12 - Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd? | Mae'r Cytundeb Cyflawni yn nodi'r amserlen a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd yn lle'r Cynllun Datblygu Lleol cyfredol, sef Cynllun |

| Cam 2.1: Casglu Gwybodaeth – Safonau’r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 | |
|---|---|
| | Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn. Bydd y CDLl newydd yn cynnwys polisïau a fydd yn hwyluso datblygiadau a fydd yn cefnogi’r Gymraeg. |
| 13 – A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr? | Bydd |
| 14 – A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo’r Gymraeg o fewn y gymuned? | Bydd |

I’ch helpu i ateb y cwestiynau uchod, mae’r **Canllawiau Asesu Effaith** yn rhestru cyfres o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth edrych sut bydd cynigion yn effeithio ar yr iaith Gymraeg yn gyffredinol. Bydd y graddau mae’r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw.

Fodd bynnag:

- Os ydych yn edrych ar sut fyddai bolisïau, strategaethau neu ganllawiau allweddol y Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg; neu
- Os ydi’ch ymateb cychwynnol i’r cwestiynau uchod yn codi unrhyw bryderon neu dystiolaeth i awgrymu y byddai’r cynnig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, neu’n cael effaith andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg;

**dylid cwblhau asesiad mwy cynhwysfawr o’r effaith ar y Gymraeg**. Mae ffurflen ar wahân ar gael ar MonITor. Mae **dogfen gyngor arferion da Comisiynydd y Gymraeg** hefyd ar gael ar MonITor i’ch cynorthwyo**.**

| Cam 2.2: Casglu Gwybodaeth – Deddf Hawliau Dynol 1998 | |
|---|---|
| 15 - Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth yw’r materion yma? Er enghraifft, a fyddai’r cynnig yn arwain at fethu a diogelu’r hawl i breifatrwydd? | Nac oes. Bydd cyfranogiad cyhoeddus yn rhan bwysig o’r broses o ddatblygu’r CDLl. Byddwn yn ymgynghori â’r cyhoedd yn ystod pob cam er mwyn hyrwyddo cynwysoldeb. |

| Cam 2.3: Casglu Gwybodaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 | | |
|---|---|---|
| | Cymru lewyrchus | **Ydi** |

| | | |
|---|---|---|
| 16 – Ydi'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?<br><br>(Mae disgrifiadau o'r nodau llesiant wedi'u rhestru yn Atodiad 3) | Cymru gydnerth | **Ydi** |
| | Cymru iachach | **Ydi** |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | **Ydi** |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | **Ydi** |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | **Ydi** |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | **Ydi** |

| **Cam 2.4: Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori / Tystiolaeth / Llenwi'r bwlch mewn gwybodaeth**<br>Cyfeiriwch at y rhestr wirio cyn-ymgynghori a chyn-ymgysylltu, sydd ar gael ar MonITor | |
|---|---|
| 17 - Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran cyfranogiad ac ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynnig yma? | Fel cam cychwynnol yn y broses o baratoi'r CDLL newydd a chan mai pwrpas y Cytundeb Cyflawni yw gosod amserlen realistig ar gyfer paratoi a mabwysiadu CDLl ac amlinellu sut y byddwn yn cysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid eraill, rydym o'r farn nad oes fawr o bwrpas ymgysylltu cyn ymgynghori ar y drafft gan na fyddai hynny'n mynd i'r afael â chynnwys y CDLl terfynol. Bydd ymgynghoriadau'n fwy beirniadol yn ystod camau diweddarach y broses. Fodd bynnag, mae camau wedi eu cymryd i adnabod rhanddeiliaid perthnasol y byddem yn cysylltu â hwy. |
| 18 – Ydych chi wedi defnyddio unrhyw wybodaeth arall fel rhan o'ch asesiad? Rhestrwch unrhyw adroddiadau, gwefannau, dolenni a ddefnyddiwyd ayb yma a nodwch y dystiolaeth berthnasol yn y tabl yng ngham 3 | • Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 2020: https://www.gov.wales/development-plans-manual-edition-3-march-2020<br>• Gwybodaeth a gedwir gan y Cyngor |
| 19 - Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma?<br>Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw? | Pwrpas yr ymgynghoriad yw cael barn y cyhoedd a rhanddeiliaid penodol ar gynnwys y ddogfen. |

**Cam 3: Ystyried yr effaith debygol ac adnabod camau lliniaru**

20 – Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma. *Er mwyn penderfynu natur yr effaith debygol, dewiswch un o'r canlynol os gwelwch yn dda – **Negyddol / Cadarnhaol / Dim effaith**

| **Y grŵp a warchodir** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith** (yn cynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | **Camau i liniaru'r effaith negyddol** |
|---|---|---|---|
| Oed | Positif | Bydd dogfennau ar gael ar-lein. Bydd copïau papur, mewn print bras ac mewn ffurf amgen ar gael. Bydd copïau ar gael yn llyfrgelloedd Ynys Môn ac ym mhrif swyddfeydd y Cyngor. | Yn ystod camau dilynol y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, os ydi'r gwasanaeth yn sylwi nad yw grwpiau sy'n cynrychioli nodweddion gwarchodedig penodol wedi cymryd rhan bydd yn ystyried a oes angen ymgynghori mewn modd gwahanol yn ystod ymgynghoriadau dilynol. |
| Anabledd | Dim | Bydd dogfennau ar gael ar-lein. Bydd copïau papur, mewn print bras ac mewn ffurf amgen ar gael. Bydd copïau ar gael yn llyfrgelloedd Ynys Môn ac ym mhrif swyddfeydd y Cyngor. | Yn ystod camau dilynol y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, os ydi'r gwasanaeth yn sylwi nad yw grwpiau sy'n cynrychioli nodweddion gwarchodedig penodol wedi cymryd rhan bydd yn ystyried a oes angen ymgynghori mewn modd gwahanol yn ystod ymgynghoriadaudilynol. |
| Rhyw | Dim effaith | Amh. | Amh. |
| Ailbennu rhywedd | Dim effaith | Amh. | Amh. |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Dim effaith | | |
| Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd | Dim effaith | Amh. | Amh. |
| Crefydd neu gred | Dim effaith | Amh. | Amh. |
| Cyfeiriadedd rhywiol | Dim effaith | Amh. | Amh. |

| **Y grŵp a warchodir** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith** (yn cynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | **Camau i liniaru'r effaith negyddol** |
|---|---|---|---|
| Priodas neu bartneriaeth sifil | Dim effaith | Amh. | Amh. |
| | | | |
| Y Gymraeg | Positif | Bydd y Cytundeb Cyflawni ar gael yn ddwyieithog. | Amh. |
| Hawliau dynol | Positif | Bydd cyfranogiad cyhoeddus yn rhan bwysig o'r broses o ddatblygu'r CDLl. Bydd ymgynghoriadau cyhoeddus y cael eu cynnal yn ystod y gwahanol gamau i hyrwyddo cynhwysiant. | Amh. |
| Unrhyw fater arall perthnasol | Nac oes | Amh. | Amh. |
| Mae cyswllt clir rhwng materion cydraddoldeb ac economaidd-gymdeithasol. Fe all grwpiau gwarchodedig ddioddef gwahaniaethu oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol. Os daw unrhyw faterion i'r amlwg wrth asesu materion anstrategol, byddwn yn rhoi sylw dyledus iddynt ac yn eu cofnodi o dan y grŵp a warchodir perthnasol, neu 'unrhyw fater arall perthnasol' uchod. | | | |

| **Cwblhewch yr adran hon os yw'r cynnig yn fater strategol (atodiad 1)** | | | |
|---|---|---|---|
| **Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol** | **Effaith debygol** | **Manylion am yr effaith (yn cynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau** | **Camau i liniaru'r effaith negyddol** |
| A yw'r cynnig yn debygol o achosi anghydraddoldeb yn deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol? | Methu â chael mynediad at ddogfennau ymgynghori | Mae'n bosib na fydd rhai grwpiau'n gallu cael mynediad at y dogfennau ymgynghori oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol. | Bydd copïau papur ar gael mewn llyfrgelloedd ac yn swyddfeydd y Cyngor ar gyfer pobl sydd wedi'u hallgau'n ddigidol. |

**Cam 4 – Canlyniad yr asesiad**

Mae pedwar canlyniad posib – cadwch y rhain mewn cod wrth gwblhau'r rhan nesaf:

- **Dim newid sylweddol –** Mae'r asesiad yn nodi bod y cynnig yn gadarn; mae'r cynnig yn annhebygol o wahaniaethu neu gael effaith andwyol. Manteisiwyd ar bob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.
- **Addasu'r cynnig -** Mae'r asesiad yn nodi bod problemau posib neu gyfleoedd wedi'u colli. Dylid addasu'r cynnig i gael gwared ar unrhyw rwystrau neu i hyrwyddo cydraddoldeb yn well.
- **Parhau â'r cynnig -** Mae'r asesiad yn nodi effaith andwyol bosibl neu cyfleodd a gollwyd i hyrwyddo cydraddoldeb. Nodwch yn glir pam y gellir cyfiawnhau parhau â'r cynnig. Rhaid cynnwys y cyfiawnhad yn yr asesiad a rhaid iddo fod yn unol â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus. Ar gyfer y cynigion perthnasol pwysig, bydd rhaid darparu rhesymau pendant.
- **Atal a dileu'r cynnig** – Mae'r cynnig yn dangos gwahaniaethu gwirioneddol neu debygol. Rhaid ei atal a'i ddileu neu ei newid. (Mae'r Cod Ymarfer a'r Canllawiau ar ddyletswyddau'r sector cyhoeddus sydd ar gael ar wefan y Comisiynydd yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'r hyn a ystyrir yn wahaniaethu anghyfreithlon.)

| **Cam 4: Canlyniad yr asesiad** | |
|---|---|
| 21 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol o ran cydraddoldeb, y Gymraeg ac, os yn berthnasol, anfantais economaidd gymdeithasol (sef crynodeb o'r tabl uchod yng ngham 3). | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi cael eu nodi yn ystod y cam yma. Bydd yn bwysig asesu'r CDLl yn ystod y gwahanol gamau fel rhan o'r broses. |
| 22 - Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed neu a fwriedir i wneud y mwyaf o'r cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb a'r Gymraeg, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (cynaliadwyedd) ac, os yn berthnasol, sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer y rheiny sy'n wynebu anfantais economaidd. | Hyd yma, rydym wedi gwneud cymaint â phosib i hyrwyddo cydraddoldeb a'r Gymraeg. Bydd yr ymgynghoriad yn sicrhau bod modd i bob rhan o'r gymuned gyfrannu at benderfyniad y Cyngor. |
| 23 – A oes yna unrhyw agweddau o'r cynnig yn mynd yn groes i amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? | Nac oes. Ystyriwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth gynhyrchu'r Cytundeb Cyflawni. |
| 24 – A oes angen ail-ystyried y cynnig neu ystyried beth y gellir ei wneud yn wahanol o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma? | Nac oes |

| **Cam 4: Canlyniad yr asesiad** | |
|---|---|
| (Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os ydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried a ddylid bwrw 'mlaen â'r cynnig ar yr adeg hon). | |
| 25 – A oes strategaeth ar gyfer delio ag unrhyw effeithiau negyddol nad ydynt yn anghyfreithlon ond na ellir eu hosgoi ac na'u lliniaru? | Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol. |
| 26 - A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad? | Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, byddwn yn ystyried y sylwadau, ac yn diwygio'r Cytundeb Cyflawni'n unol â hynny. Yna, byddwn yn cyflwyno'r ddogfen i'w chymeradwyo gan y Cyngor, cyn symud ymlaen i'r cam nesaf yn y broses. |
| 27 - Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny? | Byddwn yn cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ystod bob cam. |



**Cam 5: Cynllun Gweithredu**

Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach.

| Cyf | Camau gweithredu arfaethedig | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | Coladu'r sylwadau a barn a gesglir yn ystod yr ymgynghoriad hwn a chreu un adroddiad cynhwysfawr. | | |
| | | | |
| | | | |

**Atodiad 1 - Cymru sy'n Fwy Cyfartal - Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**
**(Dyddiad dod i rym: 31 Mawrth 2021)**

**Beth yw'r Ddyletswydd?**

Nod cyffredinol y ddyletswydd yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rheini sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. Wrth wneud penderfyniadau strategol, megis penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, bydd gofyn i gyrff cyhoeddus roi ystyriaeth i leihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau sy'n deillio o anawsterau economaidd-gymdeithasol.

**Pwy sy'n debygol o brofi anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Gall anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn anghymesur mewn cymunedau buddiant a hefyd mewn cymunedau lle, gan arwain at fwy o anghydraddoldeb o ran canlyniadau, ac mae croestoriadedd yn gallu dwysáu hynny.

**Cymunedau buddiant** – grwpiau â phrofiad cyffredin, ee digartrefedd; neu bobl sy'n rhannu hunaniaeth, ee unig rieni, gofalwyr. Hefyd, pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

**Cymunedau lle** –pobl sydd â chysylltiad â'i gilydd oherwydd y lle y maent yn byw, yn gweithio, yn ymweld ag ef neu'n treulio cryn dipyn o'u hamser ynddo mewn ffyrdd eraill

**Croestoriadedd** – yn ei hanfod, mae'n ymwneud â deall sut y mae nodweddion fel rhywedd, hil neu ddosbarth yn gallu rhyngweithio ac arwain at brofiad ac anfantais unigryw mewn sefyllfa benodol a hefyd, yn aml, at sawl profiad neu anfantais o'r fath. Ni ellir, ac ni ddylid deall mathau penodol o wahaniaethu ar wahân i'w gilydd. Mae mabwysiadu agwedd wirioneddol groestoriadol yn sicrhau nad yw hynny'n digwydd

**Pryd fydd y Ddyletswydd yn berthnasol?**

Wrth wneud **penderfyniadau strategol**. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu enghreifftiau o benderfyniadau strategol y gall cyrff cyhoeddus eu gwneud (nid rhestr gynhwysfawr):

- Cyfarwyddeb a bwriad strategol
- Strategaethau a ddatblygir gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n effeithio ar swyddogaethau'r corff cyhoeddus
- Cynlluniau tymor canolig i hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau datblygu, cynlluniau cyflenwi gwasanaethau a chynlluniau gwella)
- Gosod amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth iaith Gymraeg)
- Newid a datblygu gwasanaethau cyhoeddus
- Cynllunio ariannol strategol
- Penderfyniadau caffael a chomisiynu mawr
- Datblygu polisïau strategol

**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllaw corfforaethol ar asesu'r effaith ar gydraddoldeb.**

**Atodiad 2 – Hawliau Dynol**

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, ni waeth beth yw eu cenedligrwydd nag eu dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

This page is intentionally left blank